Y DRYSORFA.

RHIF. 712.] CHWEFROR, 1890. [LLYFR LX.

Y DIWYGWYR PROTESTANAIDD A'R TADAU METHODISTAIDD.

GAN Y PARCH. JOHN HUGHES, M.A., LIVERPOOL.

Predigt am Reformationsfest, 1889, in der Thomaskirche zu Leipzig. Dr. Theol. D. O. PANK.

PANK ydyw y pregethwr mwyaf poblogaidd yn Leipzig. Y mae yn ŵr dysgedig, wedi bod mewn cysylltiad teuluaidd â Bismark fel athraw i'w feibion; a symudwyd ef o Berlin i'r ddinas hon, i'r safle uchaf sydd yn perthyn i'r Eglwys Lutheraidd. Da oedd genym gael cyfle, gan hyny, i'w wrando ar adeg mor ddyddorol a gwyl flynyddol y Diwygiad Protestanaidd, yr hon a gedwir gyda mawr afiaeth yn y ddinas hon dìwedd mis Hydref. Aethom yno yn brydlawn, ond nid digon prydlawn i gael lle i eistedd. Er fod y gwasanaeth yn dechreu am naw o'r gloch y bore, yr oedd eglwys St. Thomas yn orlawn yn hir cyn hyny, a lliaws pobl yn dwyn gyda hwy eu cadeiriau, fel y claf o'r parlys yn cludo ei wely, er mwyn bod mewn ffordd esmwyth i wrando. Bu ychydig o wasanaeth rhagarweiniol, nid llawer, ond mwy nag arfer; canys y mae y pregethwr yma yn dechreu y gwasanaeth gyda'r bregeth, ac yn darllen y gweddïau ar derfyn y gwasanaeth. Yn fuan ymddengys Pank yn y pulpud a darllena ei destyn, a chyfyd yr holl gynnulleidfa fawr ar ei thraed. Eisteddant i ganu, eisteddant wrth weddïo, ond pan ddarllenir yr Ysgrythyrau cyfodant yn ddieithriad ar eu traed. Golygfa ddymunol a pharchus dros ben, er nad ydym yn gweled un rheswm dros eistedd pan yn canu mawl a gweddïo. Y mae rhai pethau yn y gwasanaeth ag y dymunem weled mwy o honynt ymysg y Cymry, ond yn eu dull o ganu mawl gwell ydyw y dull Cymreig. Ond darllena y pregethwr ei destyn yn bwyllog ac yn hyglyw i bawb. Nid oes gan yr Ellmyn yr un sêt fawr, ac felly nid ydyw y pregethwr mewn perygl o feddwl mai braint y sêt fawr yn unig ydyw cael y testyn, yr hyn, ysywaeth, sydd yn rhy gyffredin yn Nghymru gyda meistriaid y gynnulleidfa. Y mae rhai pregethwyr ieuainc yn Nghymru wedi myned i feddwl mai un o nodweddion pregethwr mawr ydyw sibrwd y testyn wrth ddechreu a'i floeddio wrth derfynu; a gwelir hwynt yn darllen y testyn i bob golwg, nid er mwyn iddo gyrhaedd clustiau y gwrandawyr, ond yn hytrach er mwyn iddo ddychwelyd i'w mynwes eu hunain. Nid naturiol hyn, ac y mae y Cymry yn cael cam yn hyn o beth. Nid felly Pank. Gwelwch ef yn sefyll yn syth a darllena ei destyn gyda llais eglur a chlywadwy, ac nid oedd odid i un yn y gynnulleidfa fawr a fethodd ei gael. Nid oes anghen clustfeinio: darllenwyd ef unwaith, ac y mae hyny yn ddigon, canys y mae wedi treiddio trwy yr holl adeilad. Matthew xxi. 12—21. Y mae gan y pregethwr lais da ac agwedd ddymunol, a'i holl ystumiau yn cyd-daraw yn

hapus â difrifwch y fan ac â gweddeidd-dra y gwasanaeth. Nid ydyw yn annhebyg yn ffurf ei wynebpryd i Canon Liddon; y mae ei lais hefyd yn debyg, can belled ag yr ydym yn cofio: fe all fod ychydig yn gryfach ac yn fwy soniarus—llais da o'r gwneuthuriad goreu i bregethwr. Llefara yn hamddenol, heb ystumio ond ychydig. Nid rhyw lawer o frwdfrydedd a'i meddiannai. Fe allai y dylid caniatâu ychydig, ar yr ystyriaeth ei fod yn cael ei feirniadu gan Gymro. Rhaid i'r Cymry gael pregethwr brwd, neu, os gwell genych y gair, brwdfrydig. Nid ydyw yn ddigon ganddo gael meddyliau cryfion ac iaith goeth, rhaid iddo hefyd gael gwres. Nid *cold collation* a wna y tro, nage, nage; *hot dinners* ydyw y pregethau wedi bod i'r Cymro, a dysgwylia i bregethwyr pob cenedl fod yn gyffelyb—yn rhai a fyddo yn gallu taflu tân ar y ddaear a gwasgar marwor allor Duw i gydwybodau y bobl. Wel, y mae yr Ellmyn yn y pulpud yn dra thebyg i'r Cymro. Yn sicr nid ydyw yn amddifad o egni a gwres. Y mae ganddo iaith gref a phwysau ynddi, ac y mae yntau yn gwneyd defnydd da o honi, ac yn llwyddo i daflu cryn lawer o ysbryd a nerth i mewn iddi. Clywsom rai yn traddodi gyda mwy o rhyw fath o egni na Pank; nid ydyw hyny yn cynnwys eu bod yn fwy effeithiol. Yr oedd arddull Pank yn un dra diwylliedig a pherffaith, a'i iaith yn hynod goeth a chref. Yr oedd gryn lawer o *repose* ynddo, ac amddifadrwydd hollol o bob rhwysg ac uchelgais i wneyd gorchest ac ymddangosiad. Yr oedd yn hyn yn brydferth odiaeth. Ac eto meddyliasom ei fod i fesur yn amddifad o'r zel a'r brwdfrydedd oedd yn gydweddol â'r amgylchiad, ac yn enwedig â rhai o'r brawddegau nerthol a ddisgynodd dros ei wefusau. Y mae aml un sydd yn cyhoeddi yr odfäon cyhoeddus yn Nghymru yn gwresogi mwy nag a wnaeth yr Ellmyn enwog hwn wrth draddodi rhai o'r ymadroddion cryfaf a draddodwyd i un gynnulleidfa ar y Cyfandir y flwyddyn hon. Ond y mae yn sicr fod y bregeth yn un ragorol o ran mater a thraddodiad. Adwaenai Pank ei bobl yn well na ni, ac y mae yn bosibl na byddai unrhyw ymwresogiad yn gwneyd y sylwadau yn fwy effeithiol. Yr oedd y traddodiad yn nerthol yn ddiau heb fod yn swnfawr, yn cyrhaedd calonau a chydwybodau y bobl heb syfrdanu eu clustiau; yr oedd ynddi nerth dystaw fel yr afon, os nad oedd yn clepian ac yn hydrwyllt fel y gornant neu y rhaiadr. Y mae yn sicr fod y pregethwr yn addurn i'w swydd, ac yn llawn deilyngu ei boblogrwydd. Ac y mae y bregeth a draddododd yn deilwng o hono ei hun, a gwnai les dirfawr pe darllenid hi gan filoedd ar y Cyfandir; ac yn enwedig gan arweinwyr y bobl. Ar yr un pryd, dywedwn gyda llawenydd fod yn fy ngwlad fy hun bregethwyr mor ddiwylliedig a mwy nerthol na Pank. Y mae yn Mhrydain, ac fe ŵyr pawb o bobl "Cymru Fydd" y dyddiau hyn, fod Prydain yn rhan o Gymru, y pregethwyr rhagoraf ar wyneb y ddaear.

Ond coron y gwasanaeth i ni oedd clywed y gynnulleidfa anferth yn canu gyda llawn *orchestra* o offerynau cerdd Emyn y Diwygiad Protestanaidd, "*Ein feste Burg.*" Fe ŵyr y darllenydd ond odid mai dyma emyn enwog Luther, yn yr hon yr arferai yn aml arllwys ei enaid allan mewn ymddiried llawn i nodded ei Greawdwr. Mae yr emyn erbyn hyn wedi dyfod yn un genedlaethol. Cenir hi bob amser i'r un dôn, a'r dôn hono yr un a gyfansoddwyd gan Luther. Ni feddyliai yr un Ellmynwr am ganu yr un dôn arall ar y geiriau, canys y mae y geiriau a'r dôn yn un yn meddwl y genedl. Yn ystod y rhyfel diweddaf rhwng Germany a Ffrainc, pan glywodd y fyddin Ellmynaidd fod byddin

y Ffrancod yn Sedan wedi rhoi arfau i lawr, dacw rhyw Iuddew o Ellmyn yn taro y dôn "Ein feste Burg," a chanwyd hi y diwrnod bythgofiadwy hwnw gan filoedd milwyr Germany. Ac yn sicr nid ydyw yn bosibl i genedl Gristionogol a Phrotestanaidd feddu emyn genedlaethol ragorach. Y mae Luther yn y geiriau a'r dôn. Y mae hen ysbryd llewaidd y Mynach-Ddiwygiwr yn byw yn y gerddoriaeth; a thra yr oedd y gynnulleidfa yn canu, a'r udgyrn a'r crythau, a'r organ a phob offer cerdd yn cydio yn y dôn, yr oeddem ni yn clywed rhuad y llew ysgydwodd iau y Babaeth oddiar wddf cenedloedd. Ni fuom erioed yn nês at Luther nag y buom y boreu hwnw; yr oedd fel pe buasai wedi dyfod i'r ddaear drachefn, ac â'i lais yn peri i'r Cyfandir grynu, ac yn deffro y byd oddiwrth gwsg a gormes yr Oesoedd. Ah! ddarllenydd mwyn, yr oeddem yn foddfa o ddagrau, ac yn swn arddunol y gerddoriaeth yr oedd mwy na Luther yn agos atom y bore hwnw. Nid anghofiwn "Ein feste Burg" tra ar y ddaear; nid aiff byth allan o'n hysbryd; ac os cawn hamdden rywbryd fry yn yr olwg ar y gogoniant mwy rhagorol i edrych o'n hamgylch am Luther, nid ammheuwn na byddwn yn ei adnabod yn well mewn canlyniad i'r cymundeb a fu rhyngom y boreu hwnw yn Leipzig.

Yr oedd pregeth Dr. Pank yn rhagorol ar gyfer yr achlysur. Gwnai ddefnydd hapus o'r ddwy weithred fawr o eiddo y Gwaredwr a nodir yn y testyn i alw sylw y gynnulleidfa at y Diwygiad Protestanaidd yn grefyddol ac yn wleidyddol. Y mae dwy ffenestr addurnedig yn St. Thomas, un yn goffadwriaethol i Luther, a'r llall, yr hon a osodwyd i fyny oddiar yr ŵyl flynyddol ddiweddaf, yn goffadwriaeth am Ymherawdwr cyntaf yr Almaen. Cymerodd y pregethwr fantais wrth gyfeirio at y diweddaf mewn ffordd o gydnabyddiaeth i'r teulu pendefigaidd a'i gwnaeth yn anrheg, i gyfeirio at y Diwygiwr a'i waith yn y byd crefyddol, ac at yr Ymherawdwr a gwerth ei waith yntau i'r byd Protestanaidd. "Yr oedd y genedl yn ddyledus i'r ddau. I'r gŵr yn y fantell offeiriadol am eu hailenedigaeth grefyddol, ac i'r gŵr yn y fantell ymherodrol am adnewyddiad cenedlaethol; y naill yn *herald* mawr yr efengyl yn yr Eglwys, a'r llall y cyffeswr cyntaf o honi o'r llys ymherodrol." Yna cyfeiriai hwynt at y ddau ddarlun sydd yn y testyn, y rhai a gynnyrchwyd gan y Gwaredwr er budd ei eglwys ymhob oes.

"Glanhâd y Deml a Melldithio y Ffigysbren; dan y cyntaf y mae yr argraff.

Meddwl am hyn, Eglwys y Diwygiad o dan y llall.

Ystyria hyn, cenedl y Diwygiad."

Nid ydym yn bwriadu cyfeithu y bregeth. Nid oes ynddi ddim byd gwreiddiol, na dim nad ydyw y Cymry a phob cenedl sydd wedi clywed y gwirionedd am y Diwygiad mawr hwn, wedi ei glywed lawer gwaith o'r blaen. Pa beth sydd i'w ddyweyd yn wreiddiol, os yn wir, ar y chwyldroad mawr hwn? Yn yr ail ran, ac wrth draethu ar yr ail ddarlun fel y geilw ef, dywedodd y pregethwr rai gwirioneddau ag y byddai yn dda i'r bobl ddal arnynt. Er engraifft:

"O'r fan acw yr ymddengys y gŵr a'r goron ymherodrol ar ei ben yn edrych i lawr arnom, yn mywyd yr hwn am gant namyn naw o flynyddoedd y mae hanes Deutschland yn cael ei adlewyrchu, ac ynddo ef yn cael ei gorffori megys mewn pregeth fyw am ddaioni a thosturi Duw Hollalluog tuag at ein cenedl, ac yn enwedig tuag at ein cenedl efengylaidd a Phrotestanaidd. Eithr pe delai yn awr mewn modd awdurdodol i geisio ffrwyth arnom, i'w geisio yn yr amseroedd prysur a chyfrifol hyn—pa beth a wêl? Dail yn lle ffrwyth! Rhith yn lle gwirionedd! Celwydd yn lle cariad, claiarineb yn lle zel, ffurfiau traddodiadol ac eglwysig o fywyd

crefyddol, ond heb y Gwirionedd ac heb Nerth. Dygodd Luther gynt y ddau gŵyn hyn yn erbyn y blaid efengylaidd: dyma un, llawer o eiriau ond dim gweithredoedd; dyna'r llall, diffyg haelioni—crintachrwydd mewn gwneyd eu hunain yn ebyrth dros Deyrnas Dduw, a thros yr Eglwys. Gweithredoedd ac aberthau—ai dyma y ffrwyth? A ydym ni gan hyny yn ddyogel rhag y farn? Onid ydym eisoes yn brofedig trwy brofiad chwerw amgylchiadau difrifol, ddarfod i ni oddiar ddyddiau y Diwygiad golli miliynau o'u cyd-broffeswyr trwy ddifaterwch a musgrellni, trwy ymraniadau a diffyg cariad brawdol? collasom bum' teulu brenin ol, tri o dywysogion, duciaid wyth namyn deugain, cannoedd o bendefigion, a miloedd lawer o gynnulleidfäoedd. Yr oedd saith rhan, yn ol cyfrif tra thebygol arall, naw rhan o ddeg o'r Almaen, yn cynnwys Austria-Hungaria, unwaith yn efengylaidd. Pa fodd y saif pethau heddyw? Y gwleddydd a'r eglwysi cyfrgolledig hyn—gwelwch hwynt yn ymestyn fel brigau gwywedig, fel canghenau diffrwyth y ffigysbren felldigedig, tua'r nefoedd! Ond eto y mae ein Heglwys ni yn sefyll allan ger bron ein cenedl Brotestanaidd fel prawf priodol o fywyd. Y mae yr amseroedd yn prysur addfedu pan ddaw y gofyniad yn fwy difrifol a grymus atom, Ai dail ynte ffrwyth? Geiriau ynte gweithredoedd ac aberthau? Cŷff marw ynte pren yn llawn bywyd? Ac yn ol hyny y penderfynir tynged y genedl Ellmynaidd, pa un a ydyw i barhâu i feddiannu nerthoedd bywyd duwiol a diwylliad crefyddol, neu ynte i syrthio a chael ei gorchuddio gan ddrain a mïeri ofergoeledd Rhufain, neu fyned yn ddiffeithwch gwyllt o anghrediniaeth. O! genedl efengylaidd yr Almaen, na byddai i ti feddwl am dy amser presennol! O Deutschland! Deutschland! wedi dy fendithio i'th addysgu gan Dduw yn ei ddaioni, yr hon unwaith a fuost yn gryd y Diwygiad: os bydd i ti wadu y ffydd, a chan droi oddiwrth Dduw a'r Efengyl barhâu yn amddifad o ffrwyth, nis gall deildwf y diwylliad mwyaf dysglaer, nis gall un addurnwaith politicaidd nac un ychwanegiad cenedlaethol, nis gall yr ymestyniad mwyaf ardderchog yn nghoedwig y bobloedd, dy amddiffyn rhag taranfollt y farn. Daw yr Iesu i gyhoeddi y felldith arnat—Na thyfed ffrwyth arnat byth mwy."

"Y mae dau fynydd yn bygwth yn fygythiol ddyfodol agos ein cenedl. Ar y naill y mae y faner goch, ar y llall y mae baner Rhufain yn chwyfio. Y mae eisoes brophwydoliaeth yn rhagddwedyd y bydd i ba faint bynag o haiarn a dur sydd yn y llong eglwysig efengylaidd ymryddhâu o dan ddylanwad attyniad y Vatican, ac y bydd i'r gweddill fyned yn ddarnau yn erbyn mynydd tanllyd Socialismus, a suddo mewn tân a llifeiriant. Ië, ond y mae y posiblrwydd arall wedi ei ollwng dros gof. Os bydd genych ffydd, chwi a ddywedwch wrth y mynyddoedd hyn, Coder chwi ymaith, a thafler chwi i'r môr, a hyny a fydd. Wele yr addewid gerllaw, Gristionogion efengylaidd; O na ddygem y cyflawniad oddiamgylch trwy nerth ffydd, trwy ymddiried ffydd, trwy weithredoedd ffydd! . . . Hyn sydd i benderfynu pa un a ydyw ein Cristionogaeth efengylaidd eto i fod yn allu ffrwythlawn, neu ynte i fod yn ddim ond ymddangosiad dysglaer o ddail. Yn y modd yma bydded i ni wynebu y mynyddoedd bygythiol hyn trwy nerth y ffydd sydd yn tosturio o gariad at y tlawd a'r anghenus, ac yn ennill eu calonau yn ol at Gristionogaeth,—trwy ymddiried y ffydd hono ag sydd yn meithrin ac yn cadarnhâu y genedl, sydd yn codi mewn rhinwedd, mewn credo Efengylaidd, ac mewn cariad at yr Efengyl, ac yn casglu nerth trwy 'Hosanna' y plant. Pa beth bynag a duedda at hyn, a ymgeledda ddyfodol ein cenedl, a geidw y ffigysbren ac a'i cynnal, ac a'n cymhorth i dreiglo y mynyddoedd i'r môr. O genedl Brotestanaidd yr Almaen, na byddai i ti feddwl hyn! O Deutschland, Deutschland, os bydd i ti sefyll yn gadarn, a glynu, trwy nerth y ffydd efengylaidd, wrth dy Iachawdwr a'th Arglwydd, yna gelli lefaru wrth bob mynydd sydd yn dy fygwth, 'Coder di ymaith a bwrier di i'r môr!' ac, yn wir, Efe a ddywedodd wrthyt 'a hyny a fydd.' Amen."

Credwn fod hyn yn ddigon. Gall y darllenydd weled oddiwrth y dyfyniadau fod Dr. Pank yn wyliedydd mewn gwirionedd yn sefyll yn effro ar furiau Sïon. Yr oedd y traddodiad fel y dywedasom yn urddasol ac yn feistrolgar, hollol amddifad o gelfyddyd areithyddiaeth sydd yn bradychu ei hunan fel y cyfryw, dim ymgais i ymgynneu heb dân—dim *hwyl gwneyd* fel y bydd y Cymro yn dywedyd weithiau. Hoffasom y pregethwr

wrth ei wrando, ac y mae ein syniad am dano lawer yn uwch wedi darllen y bregeth.

Nid ein bwriad wrth ddechreu ydoedd rhoddi cymaint o sylw i Dr. Pank. Ar yr un pryd nid ydyw yn edifar genym ddarfod i ni wneyd, canys y mae yn llawn deilwng; a chredwn nad anfuddiol chwaith ydyw y crybwylliad hwn am dano i'r Cymry. Ein hamcan wrth gymeryd ein hysgrifbin ydoedd gwneyd ychydig o sylwadau ar Brotestaniaeth y wlad hon fel y mae yn ymddangos i Ymneillduwr Cymreig, ac yn enwedig i un sydd yn mawrhâu gwaith y Tadau Methodistaidd. Yr oeddem ein hunain wedi ffurfio barn gyffelyb am y bobl, ac am ddyfnder a llwyredd eu crefydd ysbrydol cyn clywed Pank; yr ydym gan hyny yn fwy hyderus i ysgrifenu yr hyn a ganlyn, wedi ein cadarnhâu gan y sain nid anhynod a glywsom yr udgorn yn ei rhoddi yn Eglwys St. Thomas ar ŵyl flynyddol y Diwygiad.

"Pe delai yr Iesu yn awr i geisio ffrwyth arnom yn yr amseroedd hyn, pa beth a wêl? Dail yn lle ffrwyth! Rhith duwioldeb yn lle y gwirionedd, celwydd yn lle cariad, claearineb yn lle zel, ffurfiau traddodiadol ac eglwysig o fywyd crefyddol, ond heb y gwirionedd, ac heb Nerth." Felly y desgrifia Dr. Pank ystâd yr achos crefyddol ymysg y bobl hyn yn ei wedd ysbrydol.

Yr oeddem ein hunain wedi edrych ychydig islaw yr arwynebedd cyn hyn, ac er ein bod i fesur wedi dyfod i'r un penderfyniad, ni fynasem lefaru mewn geiriau mor gryfion. Beth pe byddai i'r brawd sydd i roddi hanes yr Achos yn ei wedd ysbrydol yn ein Cymdeithasfa nesaf ddesgrifio y sefyllfa yn ngeiriau Pank, y mae yn dra sicr y gwnai argraff ddifrifol arni. Ac nid ydym mor sicr na byddai i ryw frawd gyfodi i liniaru yr effaith, ac i ammheu yr adroddiad, ac i ddywedyd mai ei adroddiad ei hun, ac nid adroddiad y Cyfarfod Misol, oedd gan y brawd. Ac nid ydym yn myned i luchio ceryg at genedloedd eraill heb gofio fod genym ein hunain achos mawr i alaru o herwydd ein diffrwythder crefyddol. Fe allai, pe chwiliem yn fanylach, nad ydyw pethau cystal ag yr ymddangosant yn ein plith ninnau. Os gadawn ystadegau o'r neilldu, dichon y gellid ysgrifenu uwch ben llawer o eglwysi Cymru, "Y mae genyt enw dy fod yn fyw, a marw ydwyt." Yr ydym wedi gorfod ymostwng mewn cywilydd ger bron Duw, ac wedi ammheu ar rai adegau effeithiolrwydd ein bywyd eglwysig, wrth weled cwymp gwarthus rhai o broffeswyr crefydd yn ein gwlad. A pha olwg sydd arnom yn ngwyneb ystadegau y Cofrestrydd Cyffredinol, a gyhoeddwyd y dydd o'r blaen? * Y mae Gogledd Cymru yn sefyll yn uwchaf ond un Sir yn y pechod o anniweirdeb. Sir Amwythig yn unig, os ydym yn cofio yn iawn, sydd yn sefyll yn uwch. Yn Ngogledd Cymru y mae ein heglwysi ni fel Methodistiaid gryfaf, ac nis gallwn gwyno os ydyw y byd yn barnu ein llwyddiant fel Enwad i feithrin moesoldeb a chrefydd mewn gwlad, oddiwrth y sefyllfa yn y rhanbarth hon o'r Dywysogaeth. Y mae genym achos i gywilyddio fel gwlad y Diwygiadau o herwydd ein pechodau a'n diffrwythder; ac y mae yn sicr y dylai arweinwyr y bobl, ac yn enwedig y pregethwyr hyny sydd wedi ennill clust y genedl, fod ar eu gocheliad rhag iachâu ein briwiau yn esmwyth, ond i fod yn fwy hyf i fynegu i ni ein pechodau.

Ond er fod genym achos i wrido o herwydd rhai pechodau gwarthus ac o herwydd ein diffrwythder crefyddol, y mae genym ar yr un pryd achos i fawrhau Duw am y gwaith mawr a wnaed gan ein tadau, ac a barheir mewn modd tra anmherffaith genym ninnau. A phan yn cymharu yr

* Rhagfyr 13eg.

Eglwys Fethodistaidd Gymreig â'r Eglwys Lutheraidd yn y wlad hon, nid ydym yn ammheu dywedyd na cheir yn ein mysg, ac ymysg yr Ymneillduwyr Cymreig yn gyffredinol, fwy o deimlad crefyddol dwfn ac ysbrydol nag a geir yma. Y mae y bobl hyn yn Brotestaniaid aiddgar; ond y mae Protestaniaeth mewn llawer cysylltiad yn golygu yn fwy bellder oddiwrth Rhufain nag agosrwydd at Dduw: y mae yn fwy o egwyddor wladol, y mae lle i ofni, yn mywyd y bobl nag o argyhoeddiad crefyddol. A barnu y bobl wrth y pethau hyny sydd yn brif nodau crefydd efengylaidd mewn gwlad, y maent yn dra diffygiol eu hymddygiadau at Ddydd Duw, at Dŷ Dduw, ac at Air Duw. Y mae dydd Duw yn cael ei halogi yn ddirfawr yma. Y mae yn ddydd gŵyl ac nid yn ddydd o addoliad. Os eir unwaith i Dŷ Dduw, cyfrifir hyny yn ddigon hyd yn nod gan rai a dybir eu bod yn grefyddol. Nid oes yma ormod o eglwysi, rhy ychydig ar gyfer y boblogaeth; ac eto y mae llawer eglwys, hyd y gwelsom ni, yn bur wag yn yr hwyr, ac yn cael eu mynychu yn fwy gan blant a phobl ieuainc a'r dosbarthiadau tlotaf na chan y dosbarthiadau uchaf. Y mae yn dra amlwg fod mwyafrif y bobl yn anghofio Duw ar ei ddydd; ac y mae yn ddolur i ysbryd dyn i weled can lleied o ymdrech sydd i argraffu ar feddyliau y plant eu rhwymedigaeth i'r pedwerydd gorchymyn. Un peth a'n tarawodd yn fawr oedd gweled gosodiadau dynol yn cael eu parchu yn fwy na gosodiad Duw. Yn ddiweddar yr oedd dydd o Ympryd a Gweddi yma, yr hwn a gynnelir ddwywaith yn flynyddol. Yr oedd mwy o fri ar y dydd hwn nag ar Ddydd yr Arglwydd, ac yr oedd ymddangosiad y dref yn fwy tebyg i'n trefydd Cymreig ar y Sabboth. Diau y darfu i lawer mwy wneyd ymdrech i fod yn bresennol y boreu hwnw yn nhŷ yr Arglwydd nag ar y Sabboth canlynol. Aethom i'r Eglwys yn yr hwyr, ac yr oedd yno olygfa brydferth a defosiynol dros ben; yr eglwys fawr yn orlawn, hyd yn nod y mynedfeydd, a phan offrymid y weddi briodol i'r achlysur penliniai pawb yn y wedd fwyaf defosiynol. Hoffasom yr olygfa yn fawr, a diau ei fod yn beth pur briodol i genedl neillduo diwrnod fel hwn i gyffesu eu pechodau ger bron Duw. Ond onid oes lle i ofni pan y byddo yr un bobl yn ddibarch o Ddydd yr Arglwydd mai "traddodiad eglwysig a ffurf o fywyd crefyddol" ydyw hyn oll, fel y dywed Pœnk? Paham y rhoddir cymaint o bwys ac y telir cymaint o barch i osodiadau pan y dirymir gosodiad Duw yn ei ddeddf? "Rhaid oedd gwneuthur hyn ond na adewid y llall heibio." Priodol a hardd oedd neillduo dydd o ympryd, ond mwy priodol ydyw "Cofia y dydd Sabboth i'w sancteiddio ef."

Os ydyw ymddygiad gwlad o bobl at Ddydd Duw a'i Gysegr yn brawf o ddychweliad llwyr y bobl at yr Arglwydd, yna yr ydym yn ddiogel i ddyfod i'r casgliad nad ydyw gwaith y Diwygwyr Protestanaidd wedi bod mor llwyr yn yr ystyr hwn a gwaith y Diwygwyr Methodistaidd. O'r braidd yr ydym yn credu fod Luther a'i gydweithwyr wedi rhoddi y lle priodol i'r gosodiad Dwyfol hwn fel prif amddiffyn crefydd ysbrydol mewn gwlad, neu fe fuasai y Sabboth a Thŷ Dduw yn sefyll yn uwch yn meddwl y genedl. Gwelodd ein tadau hyn a gosodasant bwys priodol arno. Y mae yr olwg fwyaf brysiog ar y "Rheolau Dysgyblaethol" yn profi mai effro oeddent yn y cyfeiriad hwn. Ac y mae yn sicr fod cadwraeth y Sabboth a pharch i Dŷ Dduw mor uchel os nad yn uwch yn Nghymru nag un wlad ar y ddaear. Gwyddom am rai trefydd, a chofiwn fod cenadon oedd wedi gweled llawer o'r byd yn dywedyd wrthym am un, nad oes un man ar y ddaear yn gyffelyb am Sabboth

hyfryd a thawel. Y mae yn perthyn i ni lawer o ddiffygion a llawer o bechodau, ond nid ydyw y parch a delir genym i Ddydd Duw yn un o'r rhai hyny. Y mae hyn yn etifeddiaeth werthfawr, ac yn gefn cryf i bob diwygiad moesol a chrefyddol, a dylem ddal gafael yn benderfynol arno, fel na ddygo neb ein coron.

Dylem gofio hefyd mai nid i'r Methodistiaid yn gyfangwbl yr ydym yn ddyledus am hyn. Y mae yn sicr fod Cymru a Phrydain yn dra dyledus i'r Puritaniaid am y wedd sydd ar y Sabboth. Nid ydyw Prydain eto wedi cydnabod ei dyled i'r bobl hyny; credwn ein bod i raddau mwy nag y gwyddom yn ddyledus iddynt am ddyfnder ein bywyd crefyddol. Fe ddygodd Cromwell a'i gydoeswyr, y Pregethwyr a'r Duwinyddion Puritanaidd, elfen Hebraeg i'n bywyd cenedlaethol sydd wedi glynu ynom hyd yma, ac wedi ein gwneyd yn rhyw fath o Ddwyflywodraeth yn y byd diweddar. Ac y mae'n sicr na fuasai ein bywyd cenedlaethol heddyw yr hyn ydyw mewn dyfnder ac mewn nerth, na'n hanes ni mor werthfawr i'r byd, oni b'ai am y gwaith mawr a wnaeth Duw arnom trwy y Puritaniaid. A phwy na ŵyr y lle mawr sydd i'r Duwinyddion Puritanaidd yn ffurfiad syniadau a duwinyddiaeth y Tadau Methodistaidd? Yn wir, braidd nad allem ddywedyd mai hwy oedd Olynwyr y Puritaniaid. Ac nid ydyw yr olyniaeth yn dyfod yn fwy amlwg mewn dim nag ydyw yn eu syniadau am Ddydd yr Arglwydd, am Gysegr yr Arglwydd, ac am Air yr Arglwydd.

Os ydym gan hyny yn rhagori ar genedloedd eraill yn ein Sabbothau nefolaidd, yn ein cyfarfodydd crefyddol —ein cyfarfodydd gweddi, ein seiadau, ein Hysgolion Sabbothol, nid nyni biau y clod, ond y gwaith mawr a wnaeth Duw ar ein gwlad anwyl trwy y rhai sydd wedi myned o'n blaen. "Eraill a lafuriasant, chwithau a aethoch i mewn i'w llafur hwynt. Nid i ni, nid i ni, O Arglwydd, ond i'th enw dy hun dod y gogoniant." Y mae ein llinynau wedi syrthio mewn lleoedd hyfryd, ac y mae i ni etifeddiaeth deg. Y mae genym lawer i wneyd i gadw meddiant ar yr etifeddiaeth hon. Rhaid i ni wylio yn ddyfal yn erbyn y baedd o'r coed, ac yn ddyfalach os dim yn erbyn y llwynogod bychain; yn erbyn unrhyw beth a phob peth sydd yn tueddu i wneyd y bobl yn fwy llac yn eu cadwraeth o'r Sabboth, ac yn fwy esgeulus o Dŷ Dduw a'i Ordinhadau. Ac nac anghofiwn mai ein harddwch penaf fel gwlad ydyw hyn. Pa beth bynag ydyw ystyr a grym y deffroad newydd sydd yn mywyd y genedl, a pha beth bynag ydyw ein cynlluniau a'n gobaith am "Gymru Fydd," na fydded i ni golli golwg ar wreiddiau ein bywyd crefyddol sydd yn ymestyn yn ol yn ddwfn i "Gymru Fu," ac sydd yn gwneyd "Cymru Fydd" yr hyn ydyw; canys beth bynag fyddo ein breintiau cenedlaethol a'n diwylliad cymdeithasol, os bydd iddynt symud yr hen derfynau crefyddol a pheri i ni droi ein cefnau ar Dduw a'i orchymynion, nid oes dim a'n ceidw rhag dirywiad a barn. O Gymru! Gymru! wedi dy fendithio a'th wlitho gan Dduw yn ei ddaioni, ac wedi dy blanu yn ei ffafr, a'th fendithio â diwygwyr tanllyd ac â phregethwyr seraphaidd, os bydd i ti wadu y ffydd a throi dy gefn ar Dduw a'r Efengyl, gan anghofio dy Sabbothau, dy gysegr, dy Ysgol Sabbothol, a'th grefydd efengylaidd, nis gall tŵf y diwylliad mwyaf dysglaer, nis gall y breintiau politicaidd mwyaf, nis gall yr ymddangosiad mwyaf ardderchog ymysg cenedloedd y byd, dy amddiffyn rhag taranfollt y farn. Daw yr Iesu i gyhoeddi y felldith arnat. "Na thyfed ffrwyth arnat byth mwy."

——

PREGETHU, A GWRANDO.

Gan y Parch. GRIFFITH ROBERTS, *Carneddi.*

CYMRU yn anad un wlad yw gwlad y pregethwyr, a'r pregethu: "mawr yw mintai y rhai sydd yn pregethu." Gwyliau pregethu yw uchel-wyliau Cyfarfod y Cymry. Ac amrywiol iawn yw y syniadau a ddatgenir am y pregethwyr a'r pregethau. Wele rai o honynt: "rhy hir," "rhy hir o'r hanner," "sych iawn," "dim newyddddeb," "hynod annyddorol," "dim byd yn ddifyr," "wedi hen flino arno." Ac y mae y wasg, ar adegau, fel yn adlewyrchu y teimlad cyffredinol, yn cymeryd i fyny ei dammeg yn erbyn y pregethwyr, gan roddi pregeth iddynt, a chynghor meddyginiaethol, yr hwn a gymerir yn ganiataol sydd yn iachusol, oblegid ei fod yn ddiammheuol yn chwerw, a gwrthwyneb i'r archwaeth. Dywedir fod "rheswm ar rostio wyau," ac yn sicr fe ddylai fod rheswm, a therfynau rhesymol, ar rostio pregethwyr. Ond y mae y difyrwch poblogaidd hwn gymaint mewn bri, ar adegau, fel y mae yn rhaid iddo gael ei redfa fel rhyw ddifyrwch arall. Pa fodd bynag, gadawer i ni weled beth a ellir ddyweyd ar yr ochr arall i'r mater.

Yn gyntaf, gyda golwg ar hyd y pregethau. Po feraf y bregeth, goreu oll, mewn ambell i fan. Yr ydym yn caniatâu fod blino cynnulleidfa yn gamgymeriad, ac yn ddiffyg o'r mwyaf: oblegid lle y mae blinder yn dechreu, y mae adeiladaeth yn dybenu, ac y mae pregeth a deimlir yn rhy hir yn sicr o fod yn flinderus. Gall ambell un hefyd gymeryd cryn dipyn o amser, heb i neb deimlo ei fod yn faith. Mae yn bosibl bod yn hir heb fod yn faith. Eto cofied y gwrandawyr fod amser yn anghenrheidiol i osod ger bron, yn eglur a threfnus, unrhyw fater o'r pwys mwyaf; ac nas gellir ymdrin â gwahanol faterion bob adeg, yn yr un faint o amser. Nid wyneb yr awrlais ydyw y peth pwysicaf i feddwl am dano mewn pregeth. Pe buasai un o'r gwrandawyr yn myned i ysgrifenu llythyr ar ryw fater o bwys, mewn busnes, ymha un y buasai yn anghenrheidiol rhoddi gwybodaeth gywir a manwl o'r cyfryw fater, ni buasai yn hoffi cael ei gyfyngu i swm penodol o bapyr, a nifer penodol o eiriau, ac ychydig fynydau i ysgrifenu: buasai hyny yn arwain i dywyllwch a chymysgedd. Mae gwasgu peth i ychydig o le yn dda *yn ei le*, ond mewn araeth neu bregeth i gynnulleidfa o bobl, y mae yn rhaid caniatâu amser rhesymol i helaethu tipyn, yn enwedig i'r sawl a drino fater yn dda. Dywedir y gellir cymeryd holl sylwedd a hanfod ciniaw da mewn un *bilsen* bach, ond y mae yn ammheus iawn genym a fyddai y cylla a'r cyfansoddiad yn llawer gwell erddi; ac yn sicr, ni byddai cysur y dyn yn cael ei gymeryd i ystyriaeth trwy y math hwnw o giniaw. Mae lle i gasglu fod rhai gwrandawyr y dyddiau hyn yn myned yn hoff o *bills* o bregethau. Rhodder i'r pregethwr amser, nid gormod, ond digon. Mae ar y gwrandawr eisieu amser ei hunan, pan yn traethu ei feddwl ar fater o bwys, mewn llythyr, neu araeth. Rhodder i'r pregethwr amser, rhan deg o hono, i ddyweyd yr hyn sydd ganddo i'w ddyweyd. Gadawer iddo deimlo fod ganddo ddigon o le i droi ynddo, heb fod o hyd dan yr ymdeimlad anhyfryd ei fod yn cael ei wylio am yr amser, ac y beïr ef os aiff dros ben rhyw nifer penodol o fynydau.

Yn y lle nesaf. Yn annibynol ar anhawsder cyfansoddi pregeth, yr hyn sydd yn beth llawer anhaws nag y mae y rhan fwyaf, hwyrach, yn feddwl —yr hyn sydd yn costio cryn lafur a phryder i bob pregethwr cydwybodol, a difrifol—meddylier am anhawsder arall, sef dyddori cynnulleidfa gymysg mewn llawer ystyr, gydag ymdriniaeth ar wirioneddau y Bibl. Cwyd y pregethwr i fyny yn y pulpud, ac y mae o'i flaen amrywiaeth mawr o feddyliau, a chymeriadau. Yn y sêt fawr, fe allai, y mae gwr sydd â'i feddyliau yn llawn o ryw anturiaeth fasnachol lwyddiannus, neu, llawn mor debyg, aflwyddiannus; mewn eisteddle arall y mae rhywun yn dyfalu pa fodd y gall gyfarfod â'r gofynion sydd yn ei aros boreu drannoeth; yno hefyd y mae y ferch ieuanc sydd yn llawn o'i gwisg a'i hymddangosiad, a swn rhyw eiriau diystyr a sisialodd rhyw lanc gwamal yn ei chlust y nos o'r blaen; gerllaw y mae y bachgen difeddwl yn edrych o gwmpas ar ei gymdeithion; mewn sedd arall y mae y dyn marwaidd cysglyd, a'i lygad yn gauad o'r

dechreu i'r diwedd, mewn trefn, wrth gwrs, iddo allu myfyrio yn ddwysach ar faterion y bregeth; yno hefyd, hwyrach, y mae y dyn mursenaidd chwaethus, diamynedd, yn tynu ei oriawr allan yn awr ac yn y man, ac a aiff allan wedi digio, fel Naaman y Syriad, os bydd y bregeth wedi myned bum' mynyd yn hwy na'r terfyn a osodwyd iddi ganddo ef. Heblaw y bobl ddifraw, ddidaro, heb feddwl dim am unrhyw fyd—pob ymresymiad, a phob apêl yn disgyn ar eu meddwl fel cawod o wlaw ar glogwyn. Mae y rhai yna i gyd i'w cael i fesur mwy neu lai ymhob cynnulleidfa, yn gymysgedig â phobl onest a difrifol yr Arglwydd, y rhai sydd wedi dyfod i ymofyn â Duw yn ei deml. Ac y mae gan y pregethwr i ennill sylw, ac i ddyddori y rhai yna i gyd, os gall, gyda hen, hen hanes y maent wedi glywed filoedd o weithiau—rhai y mae cymaint o amrywiaeth yn eu meddyliau a'u chwaeth ag oedd o amrywiaeth ieithoedd wrth dŵr Babel.

Os oes rhywun yn meddwl mai peth hawdd ydyw dyddori cynnulleidfa mor amrywiol eu meddyliau gyda phethau ysbrydol, a'u cario hwynt i'w ganlyn, fel pe mai ffugchwedl fuasai ei bregeth, neu araeth i erlyn neu i amddiffyn carcharor mewn llys gwladol, buasem yn hoffi gweled y cyfryw un yn gwneyd prawf ar y peth ei hunan.

Eto, gadawer i ni edrych ar y mater o safle y gwrandawyr hyny sydd yn edrych ar y bregeth fel rhyw ymdrech lenyddol, a dim ond hyny. Mae gan y gwrandawyr berffaith hawl, yr ydym yn rhwydd yn cydnabod, i ddysgwyl i'r pregethwr i wneyd ei oreu, ymhob modd. Maent yn rhoddi iddo bob Sabboth wrandawiad boneddigaidd a sylwgar, ar y cyfan. Maent yn arferol â gwrando ar faterion yn cael eu trin yn ddeallus yn ystod yr wythnos, a gallant yn rhesymol ddysgwyl na byddo i'r pregethwr roddi iddynt rhyw araeth fawr, wag, ddibwrpas, ddidrefn, a dienaid ar y Sabboth. I ailadrodd yr hyn a ddywedwyd eisoes, y mae gan y gwrandawyr hawl i ddysgwyl i'r pregethwr wneyd ei oreu. Nid pawb, ac nid llawer, sydd wedi eu cynnysgaeddu â meddwl dwfndreiddiol, ac â hyawdledd ymadrodd, ond y mae o fewn cyrhaedd pob dyn i gymeryd poen a thrafferth; a dylai y pregethwr o bawb "boeni yn y gair a'r athrawiaeth." Os ydyw yn hawlio cael gwrandawiad gan ei gyd-ddynion, dylai edrych ar fod yr hyn sydd ganddo i'w ddyweyd yn werth i'w wrando.

Ond wedi'r cwbl, gadawer i ni gofio, er ei bod yn berffaith gyfreithlon i farnu y pregethwr a'r bregeth oddiar safle lenyddol, eto mai nid dyna yr unig safle, na'r uchaf, na'r fwyaf gwirioneddol, i edrych ar weinidogaeth yr efengyl oddiarni. Cawn air yn Llyfr yr Actau sydd yn rhoddi y mater yn ei oleuni priodol, ac yn nodi allan y wir agwedd ymha un y dylai y pregethwr a'r gwrandawyr fod, "Yr awrhon, gan hyny, yr ŷm ni oll yn bresennol ger bron Duw, i wrando yr holl bethau a orchymynwyd i ti gan Dduw." Pe byddai y pregethwr yn cofio ei fod yn esgyn i'r pulpud gyda chenadwri oddiwrth Dduw, ynglŷn â'r pethau pwysicaf sydd yn perthyn i'w wrandawyr, ni byddai diofalwch na difrawder yn ei ddull o draddodi ei genadwri. Gwnai ei oreu. A phe byddai i'r gwrandawyr hwythau gofio eu bod wedi dyfod ynghyd i wrando cenadwri oddiwrth Dduw i'w heneidiau, byddai iddynt, mae yn ddiau, ymdrechu parotoi eu meddyliau i dderbyn y genadwri, i fod mewn agwedd meddwl gymhwys i dderbyn llesâd, er hwyrach na byddai y bregeth i fyny â'u safon hwy o farnu, mewn ystyr lenyddol. Pe byddai y pregethwr a'r gwrandawyr mewn ysbryd priodol, yna gwelid yr effaith, mae yn bur sicr, mewn rhyw deimlad ysbrydol cryf ac iach yn treiddio trwy y gwasanaeth.

Mewn gwirionedd, y mae gan y pregethwr ei ddyledswydd tuag at y gwrandawyr, a'r gwrandawyr tuag at y pregethwr. Nid rhyw gwestiwn unochr mo hono, ond cwestiwn dwy blaid yn sefyll mewn perthynas neilltuol â'u gilydd; ac os bydd i ddyledswydd y naill tuag at y llall, o bob tu, gael ei chyflawni yn briodol, gallwn ddysgwyl, onid allwn? y canlyniadau mwyaf dedwydd, sef bendith yr Arglwydd. Yna ni byddai y pulpud yn dwrdio y seti, na'r seti yn beïo y pulpud. "Byddai i'r hwn sydd yn hau, ac i'r rhai sydd yn medi, lawenychu ynghyd."

ARWEINIAD Y GOLOFN.

Gan y Parch. REES MORGAN, *Llanddewibrefi.*

NUMERI ix. 23: "Wrth air yr Arglwydd y gwersyllent, ac wrth air yr Arglwydd y cychwynent: felly y cadwent wyliadwriaeth yr Arglwydd, yn ol gair yr Arglwydd trwy law Moses."

FE gydnabyddir yn gyffredinol mai y genedl â'r hanes rhyfeddaf iddi ydyw cenedl Israel. Hwy oeddynt bobl yr addewidion a'r cyfammodau, y rhai ag yr ymddiriedwyd iddynt am ymadroddion Duw. Ond yn holl hanes rhyfedd y genedl sydd yn aros ar ei phen ei hun ymhlith cenedloedd y ddaear, y rhyfeddaf yn ddiau yn ei hanes hithau yw y dernyn o'r Aipht i Ganaan. Fe erys "y deugain mlynedd hyn" o grwydro ol a blaen ar hyd ac ar draws yr anialwch hwnw, o gynnal a chadw a chyfryngu, yn ddigyffelyb i ddiwedd amser. Fe fydd a fynom ni yn bresennol nid â'r hanes hwn yn ei gyfanrwydd, eithr âg un wedd arno —sef yw, *y dwyfol arweiniad.* Wedi gadael yr Aipht, yr ydym yn darllen y byddai colofn o niwl y dydd ac o dân y nos yn myned o flaen Israel nes dyfod o honynt at odrau Sinai: "A'r Arglwydd oedd yn myned o'u blaen hwynt y dydd mewn colofn o niwl, i'w harwain ar y ffordd, a'r nos mewn colofn o dân i oleuo iddynt: fel y gallent fyned ddydd a nos." Wrth droed Sinai yr adeiladwyd y Tabernacl, ac wedi i'r adeiladwaith cywrain hwnw gael ei orphen, wele y golofn a arferai fyned o flaen Israel yn ymdaenu dros y Tabernacl. "Ac ar y dydd y codwyd y Tabernacl, y cwmwl a gauodd am y Tabernacl dros babell y dystiolaeth; a'r hwyr yr ydoedd ar y tabernacl megys gweledigaeth tân hyd y boreu." "Felly yr ydoedd yn wastadol, y cwmwl a gauai am dano y dydd, a'r gweledigaeth tân y nos." Golygfa ardderchog ac urddasol i'w ryfeddu oedd ar Israel Duw yn teithio tua'u gwlad. Yr oedd eu nifer yn fawr iawn —chwe' chan' mil heblaw gwragedd a phlant, a bernir yn gyffredin y rhaid fod eu nifer yn ddwy filiwn neu ychwaneg. Meddylier am y nifer aruthrol yna yn symud i ddilyn y golofn yn ol trefn gosodiad y llwythau o dan eu llumanau gwahanol, rhaid fod yr olwg arnynt y fwyaf urddasol a gogoneddus a welwyd ar y ddaear erioed. Nid rhyfedd y parodd yr olwg ar yr "arddechog lu" hwn i Balaam y dewin gynt droi i'w bendithio yn lle eu melldithio.

Gwirionedd y testyn sydd am y dwyfol arweiniad hwn, a elwir yma yn air yr Arglwydd, gan olygu y golofn. Gair yr Arglwydd am symud a sefyll yn yr anialwch iddynt hwy oedd y golofn, ac felly y byddai meddyliau Duw gan amlaf o dan yr Hen Destament yn cael eu cynnrychioli gan arwyddluniau. Gan ddeall y geiriau yn y wedd yna, ceisiwn edrych arnynt fel y maent yn arwyddlun o'r gofal neilldnol sydd gan yr Arglwydd am ei bobl.

I. Yr oedd y golofn YN ARWYDDLUN O BRESENNOLDEB CYSON A GRASOL YR ARGLWYDD GYDA EI BOBL.

Yr oedd i'r golofn hono galon o dân, a hwnw yn cael ei guddio gan lèn o gwmwl. Edrychir ar y tân fel arwyddlun o ddysgleirdeb a gogoniant y Duw sanctaidd, ac ar y cwmwl o'r tu arall fel arwyddlun o'r modd y bydd Duw yn dadguddio ei hunan. Ei reol yw cuddio ei ogoniant bob amser, fel ag y gallwn syllu arno heb gael ein lladd wrth wneyd. Pa fodd y mae yn ymddangos i angylion a seintiau wedi eu perffeithio nis gwyddom; a pha fodd yr oedd yn ymddangos i ddyn cyn ei gwymp nis gwyddom; ond i bechadur ei drefn yw dyfod ato ef wedi cuddio gan mwyaf o'i ogoniant. Diau mai Moses ar y mynydd gynt a gafodd yr olwg fwyaf di-len arno, ac eto rhaid fod rhyw orchudd rhwng Moses ag Ef, onidê nis gallasai ddal yr olwg arno a byw. Yr oedd y dysgleirdeb a'r gogoniant yn fawr ar fynydd y Gweddnewidiad eilwaith, ac yn rhy fawr i fod yn oddefol i'r dysgyblion heb gael y cwmwl goleu hwnw i'w cysgodi. Y mae cymundeb â Duw eto yn gwneyd fod yr un peth yn anghenrheidiol. Rhaid i ninnau gael y gogoniant wedi ei guddio yn ogystal ag wedi ei ddadguddio; a dyna un o ddybenion mawrion yr Ymgnawdoliad, oedd cael Duw yn ddigon agos atom i fod yn iachawdwriaeth i ni heb ein lladd gan danbeidrwydd gormodol ei ogoniant. "Ac ni a welsom ei ogoniant Ef, gogoniant megys yr Unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd." Gogoniant wedi ei guddio ydoedd er hyny gan ddynoliaeth berffaith y Mab.

Un peth neillduol perthynol i'r golofn oedd ei chyfaddasrwydd i gyfarfod âg amgylchiadau y bobl. Yr oedd dydd a nos yn yr anialwch, ac yr oedd y golofn yn newid ei gwedd i gwrdd â'r ddau; y nos yr oedd yn dân mawr nes goleuo yr holl anial, y dydd eilwaith yr oedd yn golofn niwl brydferth ac arddunol yn gorchuddio yr holl Dabernacl. Ni wnai y golofn niwl y tro y nos, byddai hono yn rhy debyg i'r nos ei hun i fod yn amlwg i'r bobl; o'r tu arall ni wnai y tân y dydd mo'r tro, rhy brin y byddai hwnw yn weledig i'r holl wersyll yn nghanol pelydrau haul tanbeidiol y dwyrain.

Dyna yr egwyddor fyth ac ymhob oes oddiar ba un y mae yr Arglwydd yn cynnal ei bobl â'i bresennoldeb grasol: ei allu mawr Ef wedi ei gyfaddasu i'n cyflwr a'n hamgylchiadau ni yw cymhorth dwyfol. Yr un amcan oedd i'r niwl y dydd a'r tân y nos—arwain a wnai y naill a'r llall; felly eto bydd yr Arglwydd yn dyfod at ei bobl mewn llawer dull a modd, ond yr un amcan mawr sydd ganddo mewn golwg yn yr oll—arwain i Ganaan. Fel Israel y dyddiau hyny yr ydym ninnau mewn anialwch, ac yndd o y mae genym ein dydd a'n nos, dydd hawddfyd a llwyddiant, a nos gorthrymderau; a gallwn ninnau ddyweyd fod Presennoldeb Dwyfol wedi ei gyfaddasu ar gyfer y naill a'r llall i ni. Y mae gyda ni mewn llwyddiant ac yn gwneyd ei hun yn ddigon amlwg i ni ei adnabod. Bydd gyda ni yn ei Air yn rhybuddion ac yn gyfarwyddiadau ac yn ein hanerch yn fynych: "Na roddwch eich serch ar y pethau sydd ar y ddaear." Pan ar fanau mwyaf gogoneddus y byd yma, ac yn barod i baentio dyfodol mwy dysglaer fyth i ni ein hunain, bydd y golofn niwl o'n blaen o hyd i'n hadgofio mai mewn anialwch yr ydym yn byw. Yn nos adfyd a helbulon drachefn, y mae Efe gyda ni yn tanbeidio o amgylch i ni yn gynghorion, addewidion a chyfarwyddiadau. "Cyfyd goleuni i'r rhai uniawn yn y tywyllwch." Y mae gan y dyn duwiol ddau ddosbarth o brofedigaethau—profedigaethau hawddfyd a phrofedigaethau adfyd, helbulon y dydd a gorthrymderau y nos; ond fel y golofn i Israel yn yr anialwch, y mae yr arweiniad dwyfol wedi ei gyfaddasu yn berffaith i ninnau i gyfateb i'r naill a'r llall. Os mai tywyllwch fel y fagddu yw y brofedigaeth nesaf sydd yn ein haros, na ddigalonwn; y mae genym Dduw sydd yn alluog i ddyfod atom i ganol pob tywyllwch, all godi y golofn dân i oleuo yr holl anial er dangos y ffordd tua Chanaan i ni; neu os mai goleuni tanbeidiol dydd llwyddiant a hawddfyd am flynyddoedd sydd yn ein haros, na lwfrhawn yn ormodol yn wyneb peryglon y dydd chwaith, oblegid y mae y Duw sydd â'i lywodraeth yn berffaith dros y nos yn gofalu am helbulon y dydd hefyd. Pan fyddo heulwen llwyddiant yn tywynu danbeidiaf yn yr anialwch, a'i phelydrau yn attal y credadyn i weled yn ei flaen, bydd Efe yn gofalu rhoddi y golofn niwl i hofran ar ei lwybr i ddangos cyfeiriad Canaan iddo. Nid oes dim yn amlycach nag fod gan Dduw dramwyfa agored at ei bobl i bob cyfyngder. Caued pob drws yn eu herbyn, cyfoded eu gelynion yn fyddinoedd o amgylch iddynt, ond nid oes neb na dim a all sefyll rhyngddynt â'u Duw. Fe all fyned yn gyfyngder mawr arnynt, hwy allant weled môr yn cau, a dyfod i fan lle y bydd cnawd a chalon yn pallu; ond ni ddeuant fyth i'r un man na bydd ganddynt eu Duw rhyngddynt â'r gwaethaf: "Efe a eilw arnaf a mi a'i gwrandawaf, mewn ing y byddaf fi gydag ef, y gwaredaf ac y gogoneddaf ef." Fe all gelynion Cristionogaeth os ewyllysiant, osod Apostolion yr Oen mewn carcharau a sicrhau arnynt yno, ond ni bydd cyffion na bârau yn un rhwystr yn ffordd eu Duw i'w gwaredu. Gall y Pagan-deyrn ar wastadedd Dura boethi y ffwrn yn saith mwy nag arferol, a chaiff daflu y gwŷr ieuainc i ganol y tân, ond ni bydd gan awch y fflamau ddim i wneyd â phresennoldeb grasol eu Duw i'w gwaredu o'u cyfyngder. Ydynt, y mae y dwfr a'r tân, fflangellau a charcharau, a phob rhyw greulonderau, wedi methu sefyll rhwng Duw â'i bobl. Fe deimlir ei bresennoldeb grasol gan ei bobl yn Basan bell a dyfnderoedd y môr, a disgyna atynt i drigfa y dreigiau i'w gwaredu a'u dychwelyd oddiyno.

II. Y GOLOFN FEL YR OEDD YN ARWYDDLUN ARWEINIOL.

Hon oedd yn llywio symudiadau y genedl mewn anialwch. Pan ddyrchafai y golofn yr oedd hyny yn arwydd o'r *march* oedd i gael ei

wneyd; yna symudai yr holl wersyll ar ei hol, ac ni feddylient am aros i wersyllu yn un lle, gan nad pa mor deg a dymunol, hyd oni safai y golofn. Nid oedd neb yn gwybod pa bryd y cyfodai nac yr arosai. Fe nodweddid ei symudiadau gan yr ansicrwydd mwyaf i bawb ond Duw ei hun. Weithiau yr oedd ei harosiad am noson yn unig, dro arall am ychydig ddyddiau, wythnosau, misoedd neu flwyddyn. Nid oedd gan y bobl eu hunain ddim i'w wneyd â'u harosiad mewn lle, ond pob ysmotyn yr arosent ynddo äi y golofn o flaen eu llygaid i'w hadgofio nad oedd iddynt yno "ddinas barhaus." Pan symudai y golofn, yr oedd hyny yn gyfystyr iddynt hwy a phe y clywent yr Arglwydd yn eu galw ymlaen; a phan yr arosai eilwaith, yr oedd hyny yn Air yr Arglwydd iddynt am wersyllu yn y fan hono; ac felly yr oedd arosiad gwastadol y golofn gyda hwynt yn cael ei ddeall ganddynt fel presennoldeb yr Arglwydd yn eu plith i'w cyfarwyddo a'u hamddiffyn.

Y mae Gair yr Arglwydd gyda ninnau eto i'r un amcan. Nid yw gyda ni y mae yn wir yn yr un ffurf, ond er hyny yr un mor sylweddol. Nid oedd gan Israel gynt, a gylchynid gan y goruwchnaturiol mewn anialwch, ddim nag sydd gan bobl dduwiol yn bresenol. Ië, meddwch, yr oeddynt hwy yn cael eu cyfarwyddiadau i symud ac i sefyll mewn colofn oedd bob amser yn weledig iddynt. Gwir, ond yr ydym ninnau hefyd yn cael yr un peth gan yr un Duw, ond nid yn yr un modd. Y mae gyda ni i ddefnyddio ein meddwl i ddarllen yr arwyddion yn ei Air a dilyn cyfarwyddiadau ei raglunaeth. Yr oeddynt hwy yn cael eu bara yn uniongyrchol o'r nefoedd yn y manna. Y mae y bara ydym ni heddyw yn ei gael yn llawn cymaint oddiwrth Dduw. Y ffurf yn unig sydd wedi newid, onidê y mae yr arweiniad ei hun yn aros yr un mor sylweddol. Y mae llawn cymaint o Dduw yn mywyd ei saint yn awr ag oedd yn mywyd y genedl yr adeg hono. Os nad yw y gwyrthiol mor eglur, y mae y dwyfol yr un mor amlwg.

Pe meddyliech am gawod drom o fanna wedi disgyn ar un o'r caeau yna, yn ymyl cae arall o wenith addfed yn haf y flwyddyn, ni a edrychem ar y manna fel gwyrth; ond byddai raid i ni gydnabod, wedi ychydig fyfyrdod, fod llawn cymaint o'r dwyfol yn cael ei ddangos yn y cae gwenith. Heb fanylu ychwaneg, y mae yn amlwg ein bod ninnau yn wrthddrychau yr un gofal ag oeddynt hwy—gydag un gwahaniaeth pwysig, sef eu bod hwy yn llawer mwy goddefol; yr hyn, feddyliem, sydd yn gosod anrhydedd mwy arnom ni, oblegid yn ddiau urddas ar ddyn ydyw rhoddi gwaith i'w gorff a'i feddwl. Y mae yr Arglwydd heddyw yn ein harwain ninnau â'i Ysbryd i'r Ganaan addawedig, ond y mae gyda ni lawer mwy i'w wneyd ein hunain tuag at wybod yr arweiniad nag oedd ganddynt hwy. Fel y sylwyd, nid yw mor hawdd i ni wybod meddwl Duw gyda golwg arnom ag ydoedd iddynt hwy wylio symudiadau y golofn. Ond yn yr anhawsder y mae y gogoniant mwy sydd yn yr arweiniad yn dyfod i'r golwg. Trefn Duw o ddadguddio ei feddwl i'w bobl o'r dechreuad ydoedd codi y *standards* fel y byddent hwy yn gallu derbyn y gwersi. Dechreu gyda yr *alphabets* a'r *pictures*, ac yna esgyn yn raddol at yr egwyddorion. Felly y cawn y byddai addysg yr Hen Destament yn cynnyddu mewn ysbrydolrwydd, o addewid i gyfammod, ac o gyfammod i addewid, nes y mae y Testament Newydd yn arbenigol wedi dyfod yn Llyfr yr Egwyddorion.

Cynnwysa hyn ein bod ni yn byw mewn goruchwyliaeth sydd yn nodedig am ei hysbrydolrwydd, ac oblegid hyny fod y safonau yn llawer uwch, a'r gwersi yn fwy anhawdd i'w dysgu. Y mae gyda ni lai o'r *pictures* a mwy o'r egwyddor, yr hyn sydd yn galw am efrydiaeth ddyfnach a manylach. Dyna y gwahaniaeth, a'r hyn sydd yn gwneyd fod yn llawer mwy anhawdd i ni yn fynych wybod beth y mae Duw am i ni wneyd; yn anhawdd a ddywedasom, ac nid yn anmhosibl. Y mae yn ddiohonadwy, ond nid hawdd yr ydym yn cydnabod. Pwy na wyr am ambell i fan ar fywyd pryd yr oedd pob arwyddion wedi methu, doethineb pob oracl wedi pallu, y niwl tew wedi cau ar lwybr bywyd, a ninnau heb allu gweled cam ymlaen? Oni buom mewn ambell i lecyn ar y daith cyn hyn, fel dyn mewn gwlad ddyeithr, ac heb wybod ei ffordd ynddi? Rhyw

ddiwrnod dacw ef yn annysgwyliadwy wedi cael ei hun ar ben croesffordd ac yn methu gwybod y *main road*. Felly y buom ninnau mewn ambell amgylchiad yn methu a gwybod y *main road:* amryw o ffyrdd yn y golwg, a ninnau yn methu a phenderfynu pa un oedd ffordd Duw.

'Beth,' ebe rhywun, 'pe cawn I fy hunan mewn tywyllwch fel yna, pa beth a wnawn?' Gweddïo am y goleu ac aros i wylio yr arwyddion. Ein perygl mwyaf ni mewn cyfyngder mawr yw neidio yn gyffrous i'r tywyllwch, cyn gweddïo, cyn gwylio, cyn cymeryd hamdden i ystyried ein sefyllfa. Yr oedd Israel wedi cael eu hunain mewn tywyllwch ac ing ar làn y Môr Coch. Beth a wnaethant yn yr adwy? Yr unig beth doeth a dyogel a allent wneuthur—aros, sefyll, dysgwyl yn ddystaw am iachawdwriaeth yr Arglwydd. Pe yn bwrw ymlaen ar unwaith buasent wedi boddi yn y môr. Pe yn rhedeg yn ol cawsent eu hunain yn nannedd eu gelynion. Pe wedi rhedeg i'r ochrau cawsent eu hunain yn erbyn mynyddoedd nas gallent eu dringo. Ond trwy aros yn llonydd i weddïo a dysgwyl, cawsant yr anrhydedd o weled ffordd Duw yn ymagor o'u blaen trwy ganol y môr. Pan aiff yn ing arnom ninnau dyma drefn y waredigaeth eto, sefyll, gweddïo, gwylio, dysgwyl, nes y gwelom ffordd Duw yn dyfod i'r golwg. Nid oes dim yn amlycach nag y bydd yr Arglwydd yn ewyllysio arwain ei blant weithiau i'r fath gyfyngderau na bydd ganddynt ddim i'w wneyd ynddynt ond sefyll, bod yn llonydd iddo ef gael gogoneddu ei allu mawr yn eu gwaredigaeth, er mwyn cael eu clywed fel Israel yr ochr draw i'r môr yn canu y waredigaeth am weled boddi yr Aipht. 'Ië,' meddwch, 'oni allwn gamsynied yr arwyddion?' Gallwn, a byddwn yn gwneyd yn rhy fynych, ond effaith gormod brys i gychwyn a fydd hyny. Aroswn ni yn ddigon hir mewn myfyrdod a gweddi a gwyliadwriaeth, fe ddywed Duw yn ddigon eglur wrthym beth i'w wneyd ymhob amgylchiad. Y mae dynion i'w cael ar y ddaear heddyw a allant ddwyn eu tystiolaeth i hynyma, ac y llŵyddasant i wybod meddwl Duw yn yr amgylchiadau mwyaf dyrys mewn bywyd. Ebe hen sant anwyl wrthym y dydd o'r blaen, "Yn ddiweddar bum mewn helbul blin yn methu a gwybod yn iawn pa fodd i dreulio prydnawn fy mywyd. Wedi fy ngadael fy hunan, nid oeddwn yn teimlo yn foddlawn i adael y tyddyn —fy hen gartref, ac eto yn ofni y cyfrifoldeb; ond mi a benderfynais i ymgynghori â Duw ar y mater. Gosodais yr achos o'i flaen, ac addunedais ddysgwyl wrtho yn ffyddlon am oleuni, ac o'r diwedd wele fy mab fy hun, yn hollol annysgwyliadwy i mi, yn dyfod i'r tŷ, ac yn dyweyd wrthyf ei fod ef yn cymeryd y tyddyn yn feddiant iddo ei hun, ac y cawn ninnau fyw fel y gallwn ynddo. A bellach yr wyf finnau wedi ymdawelu i fyw ac i farw yn y fan hon, heb orfod gadael y Capel na'r ardal y megais fy mhlant ynddi." Dyna cystal iddo ef a phe y gwelsai y golofn dân y nos yn goleuo yr anialwch o'i flaen. I gadarnhau ein gosodiad fod yn bosibl gwybod meddwl Duw yn yr amgylchiadau mwyaf dyrys mewn bywyd, y mae genym adnod nas gellir camsynied ei hystyr: "Dirgelwch yr Arglwydd sydd gyda y rhai a'i hofnant ef, a'i gyfammod hefyd i'w cyfarwyddo hwynt."

III. ARWEINIAD Y GOLOFN YN GOFYN UFUDD-DOD DIFFUANT Y BOBL YN YR ANIALWCH.

Yr oedd yn rhaid i'r ufudd-dod fod yn un uniongyrchol; heb hyny nis gallai y golofn ateb ei dyben. Can gynted gan hyny ag y codai y golofn, cychwynent hwythau gyda hi. Nid oedd gwahaniaeth pa mor ddymunol a rhagorol a fyddai yr ysmotyn y gwersyllent ynddo, yr oedd mynediad y golofn ar unwaith yn gyfystyr â gadael pob peth y fan hono iddynt hwy. O'r tu arall, gan nad pa mor flin y wersyllfan, rhaid oedd aros nes y gwelent y golofn yn rhoi arwydd iddynt i gychwyn oddiyno.

Yr un modd fe ddysgwylir i'n hufudd-dod ninnau eto i Air yr Arglwydd fod yr un mor ddiffuant ac uniongyrchol. Nid oes wahaniaeth pa mor hyfryd a dymunol a fyddo y wersyllfan, os clywn y llais yn galw dylem ufuddhau i gychwyn ar unwaith. Dichon y bydd raid tori cysylltiadau anwyl a thyner weithiau, ond y goreu er hyny a fedrwn wneyd a fydd cychwyn ar ol y golofn gyda

chalon friw. Gan nad pa mor arw y daith a diffaeth y wersyllfan, bydd y golofn yn sicr o'n harwain i Ganaan yn y diwedd. Yr oedd ffordd Israel o'r Aipht i'r Ganaan ddaearol yn un arw a throellog iawn, ac eto wrth edrych yn ol arni y dywedodd y Salmydd, "Ar hyd ffordd uniawn yr arweiniodd efe hwynt." Y mae yn wirionedd am y ffordd i'r nefoedd hefyd: "*The furthest way round is the nearest way home.*" Nid oes a fynom ni â meithder na gerwinder y ffordd, dylyn y golofn yn unig a ddysgwylir i ni wneyd. Dylem fyw bob amser yn ei golwg, ei hanerch gan ddywedyd, Pa le bynag yr âi di yr af finnau. Weithiau bydd gair yr Arglwydd yn ein galw allan o'n gwlad a bro ein genedigaeth. Os deallwn Air yr Arglwydd yn rhoddi yr arwydd i ni adael tŷ a thylwyth ein tadau, a myned dros foroedd i wledydd pellenig y ddaear, na phetruswn beth i'w wneyd. Cofiwn nad oes na bendith na chysur i'w ddysgwyl mewn man ag y byddo Duw wedi ei wahardd i ni. Y mae ei ŵg ef arnom am anufudd-dod yn ddigon i wneyd y lle goreu ar y ddaear yn ormod o uffern i ni i allu byw ynddo wedyn. Os wedi meddwl am ein cael allan i le ac at waith neilduol, gwaeth nag ofer yw i ni yr adeg hono i geisio gwrthwynebu Duw; oblegid efe a lwydda yn ei amcan, a hyny trwy ddefnyddio moddion chwerw os bydd raid. Bryd arall bydd y golofn yn ein harwain allan o ganol iechyd, hoenusrwydd a nerth, o ganol llwyddiant a phob rhyw gysuron, i unigrwydd yr ystafell i ddyoddef. "Cystudd ddeng niwrnod" ydyw y llecyn y rhaid gwersyllu ynddo bellach, ein bywyd wedi myned yn un llinell o ddyoddefaint corff a meddwl. 'Beth pe y cawn I fy hunan wedi fy ngalw ryw ddiwrnod i wasanaethu Duw trwy ddyoddef yn unig, beth a wnawn?' Sefyll yn llonydd, goddef profedigaeth, nes y gwelot y golofn yn dechreu symud. "Tydi gan hyny, fy mab, goddef gystudd fel milwr da i Iesu Grist." Yr oedd Paul ei hun yn enwog am ddylyn gair yr Arglwydd. Pan glywai y dwyfol lais yn ei alw, ni phetrusai adael cyfeillion a thori pob cysylltiadau, a gwynebu ar Jerusalem, Cesarea a Rhufain, er gwybod fod rhwymau a blinderau yn ei aros ymhob dinas.

IV. YR OEDD Y GOLOFN A'I SYMUDIADAU WEDI EI BWRIADU I DDYSGU Y BOBL MAI TEITHWYR OEDDYNT YN YR ANIALWCH.

Gan nad pa un ai teg ai garw y daith a'r wersyllfan, yr oedd y golofn i'w hadgofio o hyd mai nid yr anialwch oedd eu cartref i fod. Yr ydym ninnau hefyd yn gorfod tynu y *tents* i lawr yn rhy fynych i ni allu gobeithio fod yr anialwch yn gartref i ni. Ond os yw y llecyn yn arw a diffaeth, na ddigalonwn; ni bydd yn rhaid i ni aros yn hir ynddo. Ac o'r tu arall, os yw yn deg a dymunol, na roddwn ormod o'n bryd arno, oblegid yn fuan y peth nesaf a welwn fydd y golofn yn dechreu symud, i roi arwydd i ni ei newid am fan llawer mwy gerwin i wersyllu arno. Ond dyna sydd ogoneddus, y mae pob symudiad i ganlynwyr y golofn yn un yn nghyfeiriad Canaan. Os yw yr ysmotyn yr wyt yn aros arno heddyw yn gymharol wŷn, nid yw hwna ond ernes o'r Ganaan annhraethol wynach sydd yn dy aros ymlaen. Os mai Mara yw dy ran heddyw, nid yw hyny ond i ychwanegu at dy fwynhad wedi croesi yr Iorddonen. Y mae dyrys droion yr yrfa wedi eu bwriadu i ddyweyd yn fendigedig ar yr Orphwysfa sydd eto yn ol i bobl Dduw. I hen forwyr wedi bod yn ymladd â'r gwynt a'r tonau, y mae yr hafan dymunol yn fwyaf o fwynhad. Hwy sydd yn gallu rhoi y pris uchaf ar gadernid a chysgod. Felly ninnau wedi cyrhaedd y nefoedd, fe fyddwn yn ddosbarth ar ein penau ein hunain byth ynddi. Ymhlith y dyrfa ddirif, ni bydd yno neb yn gwybod am orthrymderau a gwaredigaethau y cystudd mawr ond nyni; ni bydd yno neb yn deall ymladd â'r gwynt a'r tonau, ac ofni cael byw, ond pechaduriaid. Nyni fydd yn gallu rhoi y pris uchaf ar ogoniant, cadernid a dyogelwch y Ganaan ysbrydol. Ymwrolwn am enyd fach, ac yn y man cawn sefyll ar fynydd Sion, lle y cawn hamdden faith y tragywyddol mawr i adolygu yr anialwch a'i ryfeddodau, ac i ganmol gras Duw am ei ofal a'i waredigaethau fyrdd!

"Brysia i ryfel, gwisg dy arfau,
Cymer galon, mentra 'mlaen;
Ffordd nis colli, mae 'n dy arwain
Gwmwl niwl a cholofn dân."

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill 1af, 1888, i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

DOSBARTH HYNAF.

SABBOTH, CHWEFROR 9FED—*(Y rhan olaf o'r Wers am* MAWRTH 3YDD *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 31).

"*Ai ychydig yw y rhai cadwedig?*" Luc xiii. 23—30; Mat. vii. 13, 14.

ADN. 26: *Yna y dechreuwch ddywedyd, Ni a fwytasom ac a yfasom yn dy wydd di.* Awgryma y "bwyta a'r yfed" yn ngŵydd Crist ei wyrthiau o borthi y miloedd, ac fe allai ei waith yn myned i dai gwahanol bersonau i fwyta. Deil rhai esbonwyr nad yw chwanegu "ac a yfasom" at y bwyta yn chwanegu dim at yr ystyr, gan fod "bwyta ac yfed" yn ymadrodd cyffredin am bryd o fwyd. Dywed Stier yn wahanol, fod chwanegu "ac a yfasom" yn cynnwys cyfeiriad at Israel yn yr anialwch, yn bwyta "y bwyd ysbrydol," ac yn yfed "y ddiod ysbrydol," y cysgodau a gyflawnwyd yn Nghrist ac ordinhadau yr Eglwys.

Yn dy wydd di. Cysylltiad allanol yn unig â Christ oedd yma, ac nid cydnawsedd yr oll o'r dyn oddimewn â'i gymeriad a'i ddysgeidiaeth, yr hyn yn unig sydd yn dwyn i'r deyrnas. Bwyta ac yfed yn ei bresennoldeb yn unig heb gymundeb ysbrydol—gwahanol iawn i'r "yfed gyda chwi," Mat. xxvi. 29, ac i'r "swperu gydag ef ac yntau gyda minnau," Dad. iv. 20.

A thi a ddysgaist yn ein heolydd ni. Chwanega Luc hyn. Yr oedd hyn yn cymeryd lle yn awr; ac yr oedd ei grybwyll yn y cysylltiad hwn o duedd uniongyrchol i ddeffroi cydwybodau ei wrandäwyr, a'u dwyn i benderfyniad gyda golwg ar ei hawliau.

ADN. 27: *Ac efe a ddywed, Yr wyf yn dywedyd i chwi, Nid adwaen chwi o ba le yr ydych.* Yn gyferbyniol i Ioan x. 14: "a adwaen yr eiddof fi, ac a'm hadwaenir gan yr eiddof fi." Nid oedd Crist yn adnabod y rhai hyn, ac felly nid oeddynt hwythau yn ei adnabod yntau. Y mae *adnabod* Duw a Christ yn air o ystyr ddofn yn y Bibl, ac yn golygu y gweledigaeth dwfn, ysbrydol, sydd yn effaith cyfranogiad o'r un natur, a'r cymundeb ysbrydol uchaf sydd yn ffrwyth cariad. Perthynas allanol yn unig oedd wedi bod rhwng y rhai hyn â Christ. *Ewch ymaith oddiwrthyf, chwi holl weithredwyr anwiredd.* Nid proffes, ond bywyd, sydd yn profi cymeriad—y gweithredoedd. "*Gweithredwyr* anwiredd" oedd y rhai hyn, er y cwbl. Ac eto, nid ydym i dybied eu bod yn euog o weithredoedd neilldual o ddrygionus. Ond nid oeddynt wedi dyfod i mewn i deyrnas Crist; "anwiredd" oedd yr elfen yr oeddynt yn byw ynddi. Yr oedd eu pechod yn gynnwysedig yn eu hanufudd-dod a'u gwrthwynebiad i oleuni y gwirionedd, yr hwn a dywynai ger eu bron yn ngeiriau Crist, a'r hwn, pe cawsai ei dderbyn, a fuasai yn eu gwneyd yn greaduriaid newydd. Gwyddent ormod i fod yn ddiragfarn, a rhy ychydig i roddi eu hunain i fyny i ddylanwad y gwirionedd.

ADN. 28—30: *Yna y bydd wylofain a rhincian dannedd, &c.* Yr ymadrodd diarebol am drallod a gofid eithafol, yn cael eu cynnrychioli gan yr arwyddion allanol o honynt. Adroddiad arall o Mat. viii. 11, 12. Nid bod yn Israeliaid yn ol y cnawd oedd yn sicrhâu derbyniad i'r deyrnas. Nid oedd y rhai hyn wedi ceisio teyrnas Dduw, neu nid oeddynt wedi ei cheisio yn yr iawn ffordd. Am hyny, caent weled y tadau, yn eu perthynas â'r rhai yr oeddynt yn ymddiried, yn y deyrnas, a hwythau, eu plant naturiol, wedi eu bwrw allan. A rhyfeddach na hyny, caent weled lluoedd o'r cenedloedd paganaidd, dirmygedig, yn nheyrnas Dduw, a hwythau wedi eu bwrw allan. Bydd rhai, er y manteision mwyaf, yn golledig; bydd eraill, er yr anfanteision mwyaf, yn gadwedig. Felly, y rhai "blaenaf" mewn manteision a fyddant "olaf"—yn ol o'r deyrnas; a'r rhai "olaf" o ran manteision, y rhai mwyaf annhebyg, a fyddant "flaenaf." Edrycha rhai esbonwyr ar y geiriau fel mynegiad prophwydol o'r ffaith y byddai yr eglwysi dwyreiniol a blanwyd gyntaf, a'r fameglwys yn Jerusalem, y rhai cyntaf i syrthio o'u cyflwr uchel, tra y byddai eglwysi y Cenedloedd yn flodeuog. Sylwa Bengel fod enwi y pedwar chwarter yn y drefn hon yn awgrym prophwydol o yrfa hanes cenadol yr Efengyl, yn dechreu gyda'r Dwyrain, ac yn awr yn y Dehau.

SABBOTH, CHWEFROR 16EG—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* MAWRTH 10FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 31).

"*Ni all fod y derfydd am brophwyd allan o Jerusalem.*" Luc xiii. 31—35.

ADN. 31: *Y dwthwn hwnw y daeth ato ryw Phariseaid, gan ddywedyd wrtho,*

Dos allan, a cherdda oddiyma; canys y mae Herod yn ewyllysio dy ladd di. Yn lle "y dwthwn hwnw," darllena lluaws o gyfysgrifau "yr *awr* hono." Deuai sylw y Phariseaid felly yn fwy cyflym, a gwna yr hanes yn fwy bywiog. Y mae yn debyg mai dyna y darlleniad cywir, am ei fod yn fwy anhawdd na'r llall. Gellir rhoddi cyfrif yn haws am y darlleniad "dwthwn" nag "awr." Am fod cysylltiad yr hyn sydd yn canlyn â'r rhan flaenorol yn ymddangos yn dywyll, teimlai rhai copïwyr, hwyrach, y dylesid eu hysgaru, a'u cadw ar wahân. Os Pharisead hefyd a ofynodd y cwestiwn (adn. 23) y mae y cyferbyniad â'r hyn sydd yn canlyn yn fwy tarawiadol. Parai y wawdiaeth neu y cerydd llym oedd yn atebiad yr Iesu iddynt deimlo awydd i gael gwared o hono o'u gororau mor fuan ag yr oedd yn bosibl. Y mae atebiad yr Iesu, y byddai efe yn aros am rai dyddiau eto, yn ymddangos yn cadarnhâu y cyfeiriad at y Phariseaid, ac hefyd adn. 35. Dylid sylwi fod yr olygfa yn dychwelyd yma i Galilea neu Perea, tiriogaeth Herod Antipas. Nid yw Luc yn gosod yr amgylchiadau yn fanwl yn ol trefn lle ac amser. *Dos allan, a cherdda oddiyma*, &c. Beth am y genadwri hon? Ai Herod a'i hanfonodd, ai ynte y Pharisead hyn a ddyfeisiodd y chwedl er mwyn gyru yr Iesu o'r wlad? Nis gallwn feddwl fod Herod yn ewyllysio lladd yr Iesu. Yr ydoedd wedi tori pen Ioan, ac nid yw yn gyson â'i gymeriad i feddwl ei fod yn amcanu eto am fywyd yr Iesu, yr hwn oedd mor boblogaidd; a gwrthododd wneyd hyny pan oedd Crist yn ei ddwylaw yn Jerusalem. Hefyd yn Luc ix. 7—9 gwelwn ei fod yn dra awyddus i weled yr Iesu; a dengys pen. xxiii. 8 fod yr awydd hwn yn parhâu. Nid yw yn debyg ychwaith y buasai yn anfon y genadwri er mwyn iddo ymadael â'i diriogaeth; gallasai yn hawdd beri iddo wneyd hyny, pe buasai yn ewyllysio. Ac nis gallwn feddwl fod y Phariseaid hyn yn rhybuddio ein Hiachawdwr gydag amcan gonest; gwrthbrofir hyny gan yr ateb llym a gawsant.

Tybiwn, gydag Olshausen a Stier, mai y golygiad mwyaf tebygol yw, fod y Phariseaid hyn yn adrodd rhyw chwedl anwireddus oedd ar led; neu ynte, eu bod wedi dyfeisio y chwedl eu hunain, er mwyn dychrynu yr Iesu allan o'u gwlad. Rhaid addef hefyd fod gwrthddadl Alford yn erbyn y golygiad hwn yn un gref iawn, sef—fod Crist yn cymeryd y genadwri fel yn dyfod oddiwrth Herod, trwy ateb, "Ewch, a dywedwch *i'r cadnaw hwnw*," &c. Y mae yn priodoli cyfrwysder y "cadnaw" i Herod, fel un wedi dyfeisio y cynllun hwn i gael gwared o hono o'r wlad. Dyma atebiad Stier ac Ebrard i'r wrthddadl hon:—fod ein Hiachawdwr wrth weled eu dichell hwy yn eu hateb mewn gwawdiaeth, fel pe dywedasai—'Dywedwch i'r Herod hwn, yr hwn yn ol eich chwedl chwi, sydd yn un mor gyfrwys, &c.' Dywed Ebrard:—"Y mae ei fod Ef yn galw Herod yn gyfrwys, fel pe buasai yn eu credu; a'i fod ymhellach yn eu hanfon at yr Herod hwn, yr hwn y maent hwy yn cwyno o'i blegid wrtho Ef,—y mae y ddau beth hyn, a'u cymeryd gyda'u gilydd, yn dangos yn amlwg ei fod Ef yn gweled eu cyfrwysder *hwy*." 'Y mae Herod a chwithau yn hollol gyffelyb, ac mewn cynghrair.' Iddynt hwy y mae yr ergyd dan yr enw Herod.

Adn. 32: *Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch, a dywedwch i'r cadnaw hwnw.* Gwel ar adn. 31. *Wele, yr wyf yn bwrw allan gythreuliaid, ac yn iachâu heddyw ac yfory, a'r trydydd dydd y'm perffeithir.* Rhaid addef mai anhawdd iawn yw esbonio yr adnod hon i foddlonrwydd. Sylwa Alford pe buasai hwn yn adroddiad amseryddol o daith yr Iesu, y buasai yr ystyr yn ol pob tebyg yn eglur. Beth yw "heddyw ac yfory, a'r trydydd dydd?" Ai dyddiau llythyrenol, ai ymadrodd diarebol am gyfnod penodol o amser? Beth yw y "perffeithio?" A pha fodd y maent yn atebiad i Herod neu y Phariseaid? Rhoddwn y ddau olygiad tebycaf. Yr ystyr a roddir yn gyffredin i'r "dyddiau" hyn yw yr un diarebol: "heddyw"—ei waith ar y pryd hwnw; "yfory"—yr amser rhwng y gwaith hwnw a'i ddyfodiad i Jerusalem; y "trydydd dydd"—ei ddyfodiad i Jerusalem a diwedd ei waith a'i yrfa yn ei farwolaeth. Golygiad Meyer yw—y byddai gwaith Crist yn cyflawni gwyrthiau yn Galilea yn dybenu mewn tri diwrnod (llythyrenol)—y gwaith oedd wedi cynhyrfu ofn yn meddwl Herod; ac yna y byddai Efe yn gadael ei diriogaeth, nid rhag ei ofn ef, ond am ei fod yn myned i Jerusalem i'w "berffeithio"—i orphen ei waith trwy farw.

Adn. 33: *Er hyny rhaid i mi ymdaith heddyw ac yfory, a thrennydd.* Yr oedd llygad y Gwaredwr yn treiddio i mewn, ac yn gweled dichellion eu calonau. Gellid aralleirio ystyr adn. 32 a 33 fe allai fel hyn: 'Gwelaf ddichell y cadnaw yn eich Herod ac ynoch chwithau. Ond nid wyf yn gofalu am eich dichell na'ch gallu. Y mae genyf fi fy ngwaith gosodedig i'w gyflawni—gwaith da, paham yr erlidir fi? Y mae genyf fy llwybr, a fy amser i ymadael â'ch gwlad, nid rhag ofn Herod, nac mewn ufudd-dod i'ch "Dos

allan" chwithau. Y mae amser fy "mherffeithiad" yn agos, pan y byddaf yn gorphen fy ngyrfa, ac wedi cwblhau fy ngwaith. Ond nid yw wedi dyfod eto. Af ymlaen gyda'm gwaith nes y daw. *Canys ni all fod y derfydd am brophwyd allan o Jerusalem.* Edrychai yr Iesu ar Jerusalem fel eisteddle y ddwyflywiaeth, a chanolbwynt cynlluniau y Phariseaid. Yno yr oedd yn naturiol i'r prophwydi orphen eu gwaith. Ac yno y buont feirw marwolaeth merthyron, er fod Herod wedi rhoddi Ioan i farwolaeth allan o Jerusalem. Ond eithriad oedd hyny. Yn Jerusalem yr oedd y mwyaf a'r olaf o'r prophwydi i orphen ei yrfa, fel y mwyafrif o'i ragflaenoriaid. Nid trwy law Herod yn Galilea yr oedd Efe i farw. Dywediad llym i'r Phariseaid oedd hwn:—'Eich prifddinas gyda'i themi a'i hallor sydd wedi bod yn llofrudd holl weision Duw—megys allor fawr ar yr hon y mae y saint wedi syrthio yn aberthau.' Felly yr ydoedd i fod iddo yntau.

Sabboth, Chwefror 23ain—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Mawrth 10fed *yn y* Gwersylfeydau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 32).

Adn. 34: *O Jerusalem, Jerusalem, yr hon wyt yn lladd y prophwydi, ac yn llabyddio y rhai a anfonir atat.* Ceir y geiriau hyn yn Mat. xxiii. 37—39, yn niwedd ei gerydd llym i'r Phariseaid. Y mae yn dra thebygol fod ein Hiachawdwr wedi eu llefaru fwy nag unwaith. Os na lefarwyd hwynt ond unwaith, yna rhaid i ni gredu fod Matthew wedi eu corffori yn yr adroddiad uchod. Bernir eu bod yma yn sicr yn eu lle gwreiddiol. Y mae crybwyll enw Jerusalem (adn. 33) yn cynhyrfu y tristwch dyfnaf yn nghalon yr Iesu, oblegid anghrediniaeth y ddinas a'i thynged ddifrifol. *Pa sawl gwaith y mynaswn gasglu dy blant ynghyd, y modd y casgl yr iâr ei chywion dan ei hadenydd, ac nis mynech!* "Pa sawl gwaith y mynaswn:" golyga y geiriau nid yn unig ymdrechion yr Iesu yn bersonol yn ystod ei weinidogaeth er dwyn y genedl i gredu ynddo (yn cael ei chynnrychioli yma gan Jerusalem), ond edrychant yn ol ar holl weinidogaeth y prophwydi, y rhai yr oedd Efe wedi eu hanfon atynt, o'r dechreu hyd at y Prophwyd mwyaf ac olaf. Dylasai yr hon a fu yn llofrudd y prophwydi gymeryd ei chasglu at braidd Duw, yn awr yn ei "phlant," ond nis mynai. Y mae y gymhariaeth am yr iâr a'i chywion yn ddarlun tyner o gariad mam yn y byd naturiol.

Adn. 35: *Wele, eich tŷ a adewir i chwi yn anghyfannedd.* Teifl ei olwg prophwydol ymlaen at yr adeg pan y byddai y ddinas sanctaidd yn anghyfannedd-dra ac wedi ei mathru gan y Cenedloedd—y dinystr oedd i fod yn derfyn a chanlyniad eu gwrthodiad o'r Messïah. Golyga y gair "tŷ" y deml fel canolbwynt bywyd crefyddol y genedl. *Ac yn wir yr wyf yn dywedyd wrthych, Ni welwch fi, hyd oni ddêl yr amser pan ddywedoch, Bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd.* Yr oedd dinystr y ddinas a'r deml, ac ymadawiad presennoldeb grasol Duw o honi, yn golygu dymchweliad eu gallu offeiriadol hwy; ac yr oedd hyn drachefn yn gysylltiedig â dyfodiad i mewn deyrnas ysbrydol a nefol Crist. Nis gallai y ddau gyd-fod. Ymddangosai y Phariseaid fel gorchfygwyr pan wedi llwyddo i roddi yr Iesu i farwolaeth; ond yn y weithred hono, gosodent i lawr sylfeini ei deyrnas Ef, a dinystrient yr eiddynt eu hunain. Ond at ba adeg y cyfeirir yma? Y mae yn anhawdd penderfynu. Nis gallwn feddwl fod y rhagfynegiad hwn wedi ei gyflawni yn mynediad buddugol yr Iesu i Jerusalem, pan lefai y torfeydd Hosanna. Ond gellir edrych ar yr amgylchiad hwnw fel arwydd ar raddeg fechan o'u cyflawniad. Efe oedd i orchfygu yn y pen draw. Deuent ato i gredu ynddo a'i addef fel Messïah. Pa amser a olygid wrth y dyfodiad buddugol hwn o'i eiddo sydd gwestiwn anhawdd. Pa un ai yn nhywalltiad yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost, a dychweliad llawer o'r offeiriaid ynglŷn â hyny (Act. vi. 7), neu ddinystr Jerusalem a'i effeithiau, neu ddyfodiad ei deyrnas mewn grym yn y byd, neu ei ddyfodiad i farn yn y dydd diweddaf. Nid yr un o'r rhai hyn ar ei ben ei hun, fe allai. Yr ystyr fwyaf eang, o bosibl, sydd i'w ohymeryd:—Ymhob dyfodiad o eiddo ein Harglwydd, hyd yn nod ymhob dyfodiad rhagbarotoawl, pan y gwelid y Da yn fuddugoliaethus, ond yn benaf yn y dyfodiad olaf a phenderfynol, bydd holl elynion Crist naill ai yn ymostwng i'w lywodraeth neu yn cael eu gosod yn droedfainc i'w draed.

Sabboth, Mawrth 2il—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Mawrth 17eg *yn y* Gwersylfeydau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 32).

Yn aros yn Bethania ar ei daith i Jerusalem. Luc x. 38—42.

Adn. 38: *A bu, a hwy yn ymdeithio, ddyfod o hono i ryw dref; a rhyw wraig, a'i henw Martha, a'i derbyniodd ef i'w thŷ.* Nid yw Luc yn rhoddi y dygwyddiadau yn eu holyniad amseryddol. Dyma ni wedi dyfod ar unwaith o Galilea i Bethania, yr hon yn ddiau oedd y "rhyw

dref," yn agos i Jerusalem. Sylwa Alford fod yr oll o'r amgylchiadau a adroddir yn yr adran hon o'r Efengyl yn cael eu priodoli, fel yr oeddynt yn perthyn, i daith olaf ein Hiachawdwr o Galilea, yr hon a ddybenodd yn ei fyned-iad buddugol i Jerusalem. Barna Stier fod yr hanes hwn yn cael ei osod yma fel attodiad a gwrthgyferbyniad i gwestiwn y cyfreithiwr yn y paragraph o'r blaen, adn. 25, yr hwn a atebwyd yn nammeg y Samariad. Cymhella dammeg y Samariad i *waith;* rhydd yr hanes hwn ni ar ein gocheliad rhag i waith allanol attal tangnefedd yr ysbryd a chymundeb â Duw. *Gwna* oedd iaith dammeg y Samariad; *gorphwys* yw iaith yr hanes hwn.

Nid oes un sail i ammheu nad chwiorydd Lazarus oedd y Mair a'r Martha yma, ac nad yn Bethania yr oeddynt yn byw. Er y tybiai Bengel nad yr un rhai oeddynt; a Greswell eu bod yr un personau, ond fod ganddynt breswylfa arall yn Galilea. Y mae yn debyg fod tybiau fel hyn wedi gwreiddio mewn graddau gormodol o *ysbryd cysoni.* Y mae cyfatebiad amlwg rhwng nodweddion meddyliol ac ysbrydol y ddwy chwaer yn yr hanes hwn ac yn yr hanes yn Ioan xi.

Tŵ thŷ. Gosodir Martha allan fel perchen y tŷ. Nis gellir penderfynu ai gwraig weddw ydoedd, neu a oedd yn byw yn ddibriod gyda'i chwaer a Lazarus; y mae y naill neu y llall yn fwy tebyg na bod ganddi ŵr yn fyw, am yr hyn nid oes un awgrymiad. Prin iawn yw yr Efengylwyr yn eu crybwyllion hanesyddol am y personau a enwir ganddynt—dim ond yr hyn sydd anghenrheidiol; rhoddant fwy o ddarluniad o'u bywyd ysbrydol.

Tybia rhai y gallai yr Iesu fod wedi cael cyfleusderau i ffurfio cydnabyddiaeth â'r teulu o'r blaen, yn ei deithiau blynyddol i'r gwyliau. Eto, y mae y geiriau "a'i derbyniodd ef i'w thŷ" fel yn awgrymu yn wahanol.

ADN. 39: *Ac i hon yr oedd chwaer a elwid Mair, yr hon hefyd a eisteddodd wrth draed yr Iesu, ac a wrandawodd ar ei ymadrodd ef.* Gosodai Mair ei hun mewn agwedd fanteisiol i wrando ac i ddal pob gair a ddeuai o enau yr Athraw Mawr. Rhoddai Martha drachefn ei hun i fyny i'r gofal a'r prysurdeb o wneyd arlwyaeth deilwng o'r person urddasol a lettyid ganddynt. Cawn fanylu ar nodweddion y ddwy chwaer yn y rhan olaf o'r paragraph.

Hanesion a Darnau Detholedig.

BRYNENGAN: EI HANES, A'I HENWOGION.

Gan y Parch. HENRY HUGHES, *Brynkir.*

PENNOD I.

YN *Methodistiaeth Cymru* yr ydym yn cael y cyfeiriad canlynol yn cael ei wneyd at Frynengan, gan awdwr y gwaith hwnw ei hun:—"Yr oedd Brynengan yn orsaf sefydlog gan y Methodistiaid pan oedd Penrhyndeudraeth yn ei fabandod, er fod y Penrhyn yn un o'r lleoedd hynaf yn Ngwynedd. Yr oedd yn eglwys fawr lïosog—ystyrid hi yn Jerusalem Eifionydd; yr oedd ynddi amryw o bregethwyr buddiol a llafurus, a diaconiaid effro ac ysbrydol." "Y dystiolaeth hon sydd wir." Ac yn wir, credwn y gallasai awdwr *Methodistiaeth Cymru* ymhelaethu a dyweyd mai Brynengan oedd Jerusalem Sir Gaernarfon, a rhanau helaeth o Sir Feirionydd. Yr oedd felly mewn mwy nag un ystyr. Yr oedd felly mewn hynafiaeth. Yr oedd yma eglwys beth bynag yn y flwyddyn 1755, pa faint bynag cyn hyny; oblegid yn y flwyddyn hono cawn fod Lowry Williams yn symud o Bandŷ Chwilog i Bandŷ y ddwyryd, yn Sir Feirionydd, yr hon oedd yn aelod yn Mrynengan. Yr oedd felly hefyd mewn llïosogrwydd. Bu am lawer o flynyddoedd yr eglwys lïosocaf yn Sir Gaernarfon. Yn hanes y Gymdeithasfa a gynnaliwyd yn Llanllyfni, Hydref 5ed, 1780, cawn fod casgliad Brynengan at ddiddyledu y capelau yn fwy na chasgliad yr un eglwys arall yn y Sir. Ac yr oedd y casgliad hwnw yn ddangosiad o nifor pob eglwys; oblegid yr oedd i fod yn ddimai ar gyfer pob aelod yn yr eglwys. Yr oedd ei chasgliad hi yn £1 5s. 5c., tra nad oedd yr un arall wedi cyrhaedd punt, ond yn unig Tirbach, Rhoslan, lle nad oes yr un eglwys yn perthyn i'r Methodistiaid er's dros gan' mlynedd. Ac nid oedd ond tair o eglwysi yn Ngogledd Cymru yn fwy eu casgliadau na hi, ac felly yn llïosocach mewn nifer, sef y Bala, Bontuchel, a Llansannan. Mor ddiweddar a'r flwyddyn 1799, nid oedd ond dwy o eglwysi yn holl Sir Gaernarfon yn sefyll yn uwch na hi yn eu casgliadau at y Gymdeithas Genadol, sef eglwysi Caernarfon a Phwllheli. Ac nid oedd casgliad Caernarfon yn fwy ond yn unig o hanner coron, tra nad oedd Pwllheli yn fwy ond o swllt. Yr oedd Brynengan wedi casglu £10 15s. Priodol y gelwir hi yn Jerusalem hefyd

oblegid y cyrchu fyddai yma o bellder mawr i addoli, fel i Jerusalem gynt. Cynaliwyd Cymdeithasfa Sir Gaernarfon yma am y flwyddyn 1779. A gallesid meddwl oddiwrth yr hanes a roddir am dani gan Michael Roberts, ei bod yn fwy poblogaidd na chyffredin yn y blynyddoedd hyny. Fel hyn y rhoddir yr hanes ganddo ef: "Yn mis Medi, 1779, cynnelid Cymdeithasfa Gwynedd yn Brynein ion, ac yr oedd yno ar ddydd yr uchelwyl gapelaid llawn, ac yn agos i lonaid y cyntedd o ddynolryw—yr hyn ydoedd achos o son a syndod." Byddai yma gyrchu mawr hefyd cyn y "Neillduad," i gyfranogi o'r ordinhâd o Swper yr Arglwydd; oblegid byddai y casgliad ar ddiwedd yr ordinhâd yn cyrhaedd weithiau dros *ugain punt*, pan fyddai rhyw un o enwogrwydd mawr yn cyfranu, megys Jones Llangan, neu Mr. Charles. A mynych, meddir, y byddai *gini pen rhaw* i'w gweled yn y casgliad. Bu yn unig eglwys Fethodistaidd yn holl Eifionydd am dymmor. Ac nid yn unig hyny, ond yr oedd ei haelodau yn wasgaredig dros ranau helaeth o Arfon a Sir Feirionydd. Cyrchent yma i'r cyfarfod eglwysig o ddeunaw ac ugain milldir o ffordd: o Landdeiniolen a Chaernarfon o un cyfeiriad; o Feddgelert a Nantmor o gyfeiriad arall; ac o Faentwrog a'r Penrhyndeudraeth o gyfeiriad arall. Wedi i Lowry Williams symud, fel y crybwyllwyd, i ardal Maentwrog, yr eglwys agosaf iddi er hyny oedd Brynengan; ac yma y deuai am ryw gymaint o amser, er fod ganddi tua deunaw milldir o ffordd.

Priodol iawn y gelwir yr eglwys hon yn Jerusalem hefyd, am mai oddiwrthi hi y seiniodd gair yr Arglwydd, nid yn unig yn Eifionydd ac Arfon, ond hefyd ymhob man yn Ngorllewin Meirionydd. "Y gyfraith a â allan o Sïon, a gair yr Arglwydd o Jerusalem." O Frynengan yr aeth Evan Richardson i Gaernarfon, yr hwn a fu yn fywyd o feirw i'r achos Methodistaidd yn Arfon. "Llin yn mygu" oedd Methodistiaeth Arfon cyn hyny. Y fath oedd yr ysbryd cenadol oedd yn yr eglwys hon, fel pan ddaeth dau frawd o Gaernarfon yma i geisio gan Evan Richardson fyned yno i aros, ac y dangosai yntau anmharodrwydd i fyned, "oblegid," meddai, "os deuaf acw, y bobl a'm lladdant," pan y cododd hen chwaer o'r enw Sian i fyny yn yr eglwys, gan ddywedyd gyda brwdfrydedd mawr, "Y mae yn rhaid i ti fyned, Evan bach—ni wneir niwed i flewyn o dy ben; am hyny, dos gyda hwy." Dwy wraig, aelodau yn eglwys Brynengan, a gychwynodd Fethodistiaeth yn Ngorllewin Meirionydd. Mynediad Lowry Williams o Bandŷ Chwilog i Bandŷ y ddwyryd, yn y flwyddyn 1755, fel y cyfeiriwyd o'r blaen, fu yn foddion i roddi cychwyniad i grefydd bur yn ardaloedd Maentwrog, Ffestiniog, Trawsfynydd, a'r Penrhyndeudraeth. A'r un modd mynediad Jane Griffith, Erwbach, Dolbenmaen, i Ddolgellau, i gadw ysgol yn y flwyddyn 1766, a roddodd gychwyniad effeithiol i Fethodistiaeth yn y wlad hono, ac a fu yn foddion i sefydlu amryw o eglwysi yn yr ardaloedd hyny. Mae darllen hanes llafur, zel, hunan-ymwadiad, a brwdfrydedd y ddwy chwaer yma yn y lleoedd hyn, yn ddigon i doddi y teimlad mwyaf caled, yn enwedig pan ystyriom yr erlidigaeth danllyd oedd arnynt. Ac y mae hyn yn dyweyd rhywbeth yn ddiammheu am yr eglwys y daethant o honi. Nid rhyfedd fod cymaint o son am hen grefyddwyr Brynengan os oeddynt o'r un ysbryd â'r ddwy chwaer yma, fel y mae yn ddiau eu bod. A chredwn mai o ardal Dolgellau yr aeth Methodistiaeth i "Ddosbarth y ddwy afon," fel ei gelwir. Mae hyn yn dangos fod Methodistiaeth yn holl gylch Cyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd yn ddyledus am ei gychwyniad i'r ddwy chwaer hyn, a chymeryd golwg ddynol ar bethau, a'r ddwy yn aelodau yn Mrynengan. Cofied Arfon lïosog a Gorllewin Meirionydd flodeuog eu rhwymau i Frynengan fechan a syml. Credwn fod yr uchod yn ddigon o reswm dros alw sylw darllenwyr y Drysorfa at hanes y lle hwn.

Cyn myned ymhellach, hwyrach y dylem egluro pa le y mae Brynengan yn sefyll. Digon tebyg fod y rhan fwyaf o ddarllenwyr y Drysorfa na wyddant yn y byd pa le y mae, er iddynt glywed rhywbeth am dano. Mynych hefyd y cymysgir Brynengan a Llanengan â'u gilydd gan yr anghyfarwydd, ac y rhoddir y naill am y llall. Clywsom un mewn lle cyhoeddus yn dyweyd fwy nag unwaith mai o Lanengan y daeth Evan Richardson i Gaernarfon. Bydded hysbys fod Llanengan ymhellach o tuag wyth milldir yn Lleyn na Phwllheli, tra y mae Brynengan yn sefyll yn agos i linell y rheilffordd sydd yn rhedeg o Afonwen i Gaernarfon, o fewn tua dwy filldir i Brynkir *Station* ar y llaw aswy wrth fyned yn y cyfeiriad hwnw. Wrth edrych o'r lle diweddaf yn nghyfeiriad y gogledd-orllewin, gwelwn fynydd lled isel, tua dwy filldir oddiwrthym. Dyna fynydd y Cenin. Ymddengys fel yn rhedeg o'r gogledd i'r dehau; ac y mae capel Brynengan yn sefyll ar y pen deheuol iddo. Fel y mae ei enw yn arwyddocâu, saif y capel ar dipyn o godiad tir, yn wynebu i gyfeiriad Porthmadog,

ac y mae y rhan fwyaf o gwmwd Eifionydd i'w weled o'i ddrysau. Gwael a chorsiog yw y tir o'i ddeutu mewn amryw gyfeiriadau, ac nid yw y ffyrdd ato i'w canmol. Byddai y diweddar Barch. John Owen, gynt o Dy'nllwyn, yr hwn a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn yr ardal, yn arfer dyweyd fod yr hyn oedd yn fantais i Frynengan yn y dyddiau gynt, yn y blynyddoedd diweddaf wedi troi yn anfantais iddo. Cyfeiriai at y lle fel lle neillduedig, ac felly allan o gyrhaedd erlidwyr i raddau helaeth. Dyma y fan wedi'r cwbl a fu yn fath o Jerusalem i Fethodistiaid Sir Gaernarfon am lawer blwyddyn, a'r lle y cyrchai y llwythau Methodistaidd i addoli.

Mae yna braidd bob tŷ, a chae, a llanerch, yn yr ardal, wedi eu cysegru gan adgofion am ryw un hynod mewn talent, a chrefydd. Hwyrach y caniateir i mi ar y cychwyn i gymeryd rhyw gipdrem frysiog ar y manau hyn cyn dyfod yn fwy manwl at hanes yr achos yn y lle. Mae y llwybrau neillduedig sydd yn dyfod at y capel wedi eu sangu gannoedd o weithiau gan hen grefyddwyr gwresog yn ymddyddan am bethau ysbrydol. Mynych y cyfeiriai y diweddar Barch. Moses Jones, yn ei afiaeth wrth bregethu, at hen grefyddwyr Rhoslan yn myned at eu hanner yn y corsydd, wrth gyfeirio tua chapel Brynengan. Llawer gwaith y clywyd yr awyrgylch yn adsain gan "sain cân a moliant" rhai yn dyfod o'r capel; neu rai yn cynnal cyfarfodydd gweddïau yn y meusydd; neu rywun â'i lestr wedi rhedeg drosodd wrth ddal cymundeb â Duw mewn rhyw gongl mewn beudy, neu yn y maes. Gwnaeth y diweddar Barch. Richard Owen gyfeiriad effeithiol at hyn unwaith, wrth bregethu mewn Cyfarfod Misol yn y lle. "Dywedir," meddai, "am Robert Roberts, Clynnog, pan y cafodd o olwg ar ei gyflwr, ei fod o'n gyffrous iawn gyda'i waith yn y caeau, ac yn gwaeddi yn anghyffredin, ac yn myned rhynggdo a'r capel yma dan waeddi, â'i ddwylaw i fyny. Ac y mae'r hanes yn dyweyd fod llawer o'r bechgyn hyd yr ardaloedd yma wedi eu hachub wrth glywed Robert Roberts yn gwaeddi." Yn y tŷ capel y bu Betti Marc yn byw, yr hen wraig hynod a fyddai yn teithio ar hyd y wlad i gynnal cyfarfodydd eglwysig; ac yma y bu farw yn y flwyddyn 1801, yn 63 oed. Mewn ystafell gysylltiedig â'r tŷ capel y treuliodd merch foneddig o'r enw Miss James ei blynyddoedd olaf—neu fel y gelwid hi, Jenny James—yr hon a gafodd dröedigaeth hynod drwy Evan Richardson. Ar ol hyny bu William Jesus yn byw yma, hen flaenor enwog iawn yn ei ddydd, yr hwn oedd yn dad i Pedr Fardd, ac yn daid i Nicander. Yr oedd yntau yn fardd medrus meddir, er nad mor enwog a'i fab a'i ŵyr; oblegyd dywedai ei fab am dano:—

"A phrydydd hoff ei rediad
Addfwyn o hou* oedd fy nhad."

Ar ol hyny bu yr hen bregethwr hynod, Robert Dafydd, yn byw yn y tŷ; ac yma y bu farw. Ac y mae y gadair y bu farw ynddi yn y tŷ eto. Yma hefyd y treuliodd Sian Griffith ran fawr o'i hoes, yr hon oedd mor hynod am ei hyddysgrwydd yn yr Ysgrythyrau, fel y dywedai John Jones, Tremadog, am dani, mai hi oedd ei *Concordance* ef; oblegid bu gydag ef yn gwasanaethu dros ryw dymmor. Mewn cyfeiriad gogledd-ddwyrain o'r capel y mae Hendre Cenin, lle yr oedd cartref y Methodist cyntaf yn yr ardal, sef, John Morris; a'r lle hefyd y mae teulu sydd wedi bod yn achles ac yn garedig i Fethodistiaeth er's oesoedd, o ddyddiau yr hen Robert Morris hyd ddyddiau ei ŵyr, y diweddar Mr. Robert Roberts. Ychydig draw, ar odre Mynydd y Cenin, yr ochr nesaf i Frynkir, y mae Myrddin coch, yn llechu mewn cesail glyd, cartref hen flaenor da o'r enw Robert Jones. Am y lle hwn y gwnaeth Moses Jones sylw hynod wrth bregethu ar y gair, "Y mae y gwynt yn chwythu lle y myno," &c. Y peth cyntaf a ddywedodd ar ol cymeryd ei destyn yn Mwlchderwin unwaith oedd, "Y mae y gwynt yn chwythu lle y myno, ond yn Myrddin coch." Dro arall cyfeiriai ato wrth ddarlunio lle neillduol yn ngwlad Canaan. Byddai efe yn dra hoff o ddarlunio lleoedd yn y wlad hono. Gofynai ar ganol ei bregeth yn yr hwyl fawr un tro yn y Pennant, "Ddowch ch'i gyda mi am daith i wlad Canaan?" Ac meddai un o hen lanciau y Gilfach (William), "Down wir bob cam, Moses bach." Ac wrth ddarlunio rhyw le nodedig am ei dawelwch, dywedai, "Y lle tebyca' welsoch ch'i 'rioed i Myrddin coch." Ychydig draw ar ochr y mynydd y mae Tai newyddion, lle yr oedd Moses Jones pan yr oedd yn dechreu byw, a'r lle yr oedd pan fu ar daith yn Môn, pan yr aeth y wlad i gyd yn un goelcerth gan dân y diwygiad, er nad oedd ar y pryd ond 29 oed, ac wedi dechreu pregethu er's rhyw bedair blynedd. Yn uwch i fyny ar y mynydd y mae Cil-llidiart, cartref yr hen bregethwr diniwed a dirodres, Richard Williams, ond yr hwn a fu yn offeryn yn llaw yr Arglwydd i gychwyn

* Eifionydd.

dau o leiaf o ddiwygiadau grymus, sef, "diwygiad Beddgelert" (1817), a diwygiad arall yn Tymain, Lleyn (1811), yr hwn oedd mor rymus a "diwygiad Beddgelert," ond fod ei gylch yn llai. Dechreuodd y diwygiad gydag ef hefyd yn Llanllyfni yn 1831. Bu Eben Fardd yn gweithio ei waith fel gwehydd yn Cil-llidiart, pan yr oedd yn fachgen ieuanc. Gerllaw y lle dıweddaf y mae Pantycelyn, lle a fu yn meddiant y diweddar fardd enwog Dewi Wyn (a'r hwn le sydd yn meddiant ei deulu hyd heddyw), yr hwn a roddodd yr enw ar y lle o barch i goffadwriaeth "Pêr ganiedydd Cymru." Yr ochr arall i'r mynydd, yn nghyfeiriad y gogledd o'r capel, y mae Tyddyn-ruffydd, lle yr oedd Robert Dafydd yn byw, pan y bu am ryw ysbaid bob dydd am ddwy flynedd yn ei ystafell, yn ymdrechu â Duw, am gael gweled diwygiad cyn marw, a chafodd fyw i'w weled. Mewn tŷ arall gerllaw o'r un enw, yr oedd (Margaret) chwaer Robert Roberts, Clynnog, yn byw, yn briod âg un Humphrey Hughes. Merch i'r rhai hyn oedd gwraig Moses Jones, ac ŵyr iddynt ydyw y Parch. J. Michael Hughes, yn awr o'r America. Ychydig yn nês ar y chwith y mae Mynachdŷ-gwyn, lle y bu Ysgol Sul am dros ddeugain mlynedd. Cynnelid cyfarfod gweddi ymhob tŷ yn yr ardal yma bob nos Sul dros yr un tymmor, a dywedir y byddai ryw eneiniad rhyfedd ar y cyfarfodydd hyny bob amser. Ar dir Tyddyn-mawr, yn fwy ar y chwith eto, y mae hen faen mawr, a fu yn bulpud, meddir, i Howell Harries. Ac y mae fel pe byddai wedi ei wneyd gan natur i'r gwron hwnw; oblegid y mae o faintioli anferth. Ychydig yn fwy i'r gorllewin y mae Mynachdŷ-bach yn sefyll, lle y treuliodd y bardd enwog Robert ap Gwilym Ddu ei ddyddiau olaf, a'r lle hefyd y bu farw. Efe, fel y mae yn hysbys, oedd awdwr yr englynion godidog ar yr Iawn; Crist ger bron Pilat, a Pilat ger bron Crist; ac efe oedd awdwr yr emyn melus hwnw ymysg eraill:—

"Mae 'r gwaed a redodd ar y groes
O oes i oes i'w gofio;
Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn
I dd'weyd yn iawn am dano.

"'Mhen oesoedd rif y tywod mân
Ni bydd y gân ond dechreu;
Rhyw newydd wyrth o'i angeu drud
A ddaw o hyd i'r goleu."

Ychydig yn nês i'r capel yr oedd Brynbogelydd, cartref yr hen bregethwr boreuol hwnw—Richard Hughes. Ychydig a wyddys am dano; ond fel hyn y mae Williams, Pantycelyn, yn cyfeirio ato, yn ei farwnad i'r Parch. W. Davies, Castellnedd:—

"Richard Hughes a welodd yno, [y nefoedd]
Deithiodd holl fynyddau maith
Arfon arw a Meirionydd,
Fflint, a Dinbych lawer gwaith;
Ac amgylchodd dir y Deheu
Gydag awel bur y nef
Fel dyn addfed i'r wlad nefol,
'Chydig cyn ei symud ef."

Yma hefyd y ganwyd ac y magwyd y pregethwr effeithiol hwnw, y diweddar Barch. Griffith Williams, Bwlan. Yn fwy ar y chwith, ar dir Coedcaebach, yr oedd cartref Pedr Fardd, ac yno yr oedd, mae yn debyg, pan y derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Mrynengan, pan nad oedd ond rhyw 10 i 11 oed. Gerllaw, mewn lle o'r enw Ynys-creua-bach, yr oedd John Pierce yn byw, llenor medrus yn ei ddydd. Yn nês eto ar y chwith y mae Cefn-pen-coed, cartref hen flaenor da o'r enw Sion Dafydd. Bu Robert Roberts yn gwasanaethu yn y lle hwn am tua phum' mlynedd. Ac yma yr oedd Moses Jones pan y daeth at grefydd. Daeth ei feistr, yr hen flaenor, heibio iddo un diwrnod, ac yntau yn gweithio gyda'i raw yn y cae, gan ofyn iddo a ddeuai gydag ef i'r *Seiat*, yr hon a gynnelid ar y pryd yn y dydd. Gwrthododd fyned yr adeg hono; ond wedi i'w feistr fyned i ymyl y capel, fe gymerodd ail-feddwl, ac fe dafiodd ei raw o'i ddwylaw yn ddigon pell, ac fe ddechreuodd redeg a neidio fel ebol yn nghyfeiriad y capel; ac felly yr aeth i'r *Seiat*. Yn ymyl y lle hwn y mae Gorsuchaf, lle y cartrefai hen ysgolfeistr enwog yn ei ddydd, o'r enw Thomas Gough. Efe oedd un o ysgolfeistriaid yr ysgolion cylchynol Cymreig, o dan Griffith Jones, Llanddowror, a Lady Bevan. Ychydig yn nês ar y chwith y mae y Gaerwen, cartref y bardd enwog Dewi Wyn o Eifion, a'r lle y ganwyd ef, a'r lle y treuliodd braidd ei holl oes, a'r lle hefyd y bu farw. Ar dir y Gaerwen y ganwyd ac y magwyd bardd enwog arall, sef Nicander, mewn lle o'r enw Beudy'r Gaerwen. Yr oedd ei dad a'i fam yn aelodau eglwysig yn Mrynengan, a digon tebyg ei fod yntau wedi bod am ysbaid. Dywedir ei fod wedi bod yn dyfod i'r Ysgol Sul i Frynengan, ar fraich ei fam; a'i fod yn gallu "darllen ei Destament" pan oddeutu tair oed. O flaen gwyneb y capel, o fewn rhyw hanner milldir oddiwrtho, y mae Coedcaedu, y lle y ganwyd y gŵr galluog a duwiol hwnw, y Parch. Richard Jones y Wern. Yma y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, a'r

rhan fwyaf o'i oes fel pregethwr, ac wrth yr enw hwnw y byddai yr hen bobl yn ei alw ar hyd ei oes, "Richard Jones, Coedcae." Yma hefyd yr oedd Robert Roberts pan y dechreuodd bregethu. Ac yn yr Ynys-galed, lle ar y pryd ar dir Coedcaedu, yr oedd Robert Roberts yn byw. Yma yr oedd yn byw rai blynyddoedd cyn dechreu pregethu, ac yma y bu tua hanner tymmor ei weinidogaeth. Ac yn y lle hwn y cartrefai pan yr oedd yn athraw ar ysgolion cylchynol Mr. Charles. Gerllaw y capel y mae amaethdy Brynengan, oddiwrth yr hwn y cafodd y capel ei enw, ac ar dir yr hwn y mae wedi ei adeiladu. Perthynasau i'r rhai roddodd y tir i adeiladu capel yma ar y cyntaf, sydd yn byw yn y lle yn awr, y rhai sydd wedi dangos caredigrwydd i'r achos bob amser. Rhoddwyd y tir lle y saif y capel arno yn ddiweddar yn rhyddfeddiant am byth i'r Cyfundeb gan berchenog y lle, sef Mr. Evan Griffith, Chwilog-faen. Bendith yr Arglwydd fyddo arno yn ei hen ddyddiau! Nid ystyrir y Gwindy, a Llecheiddior, erbyn hyn, yn dal unrhyw gysylltiad â Brynengan; ond yma y deuai preswylwyr y lleoedd hyn, am yn agos i gan' mlynedd, gallem feddwl. Dyma gartrefi y ddau bregethwr hynod, John Owen a John Williams. Ganwyd a magwyd y ddau yn ymyl eu gilydd; a chladdwyd hwy yn ymyl eu gilydd; ond anfynych y gallesid taro ar ddau mwy annhebyg. Maddeued y darllenydd i ni am y crwydriad hwn; ni feddyliasom ar y cychwyn y buasai y daith mor hir.

Barddoniaeth.

ER COF AM Y PARCHEDIG GRIFFITH EVANS, ABERDOVEY (GYNT O BRYNCRUG).

Rhyw dywyll nôd roes angeu ar ein byd—
Bu farw Evans, hanes pruddaidd yw;
Rhyw fyw i farw yma 'r ydym oll
Mewn byd o brawf bu farw ef i fyw;
Os isod teimlir colled ar ei ol,
Os gwnaeth ei golli yma dyrfa 'n drist,
Eu colled droes yn enill iddo ef
Mewn byd tu hwnt i brawf, yn mynwes Crist.

Y meddwl wrth roi golwg dros ei oes
A genfydd yrfa Cristion, fu 'n ddiglwy'
I achos Crist; ac yma ar ei ol
Ni wêl ond galar nad yw genym mwy;
Ei lwyr ymroddiad gyda 'r achos mawr
Ddangosai ymhob rhan o'r ddiwyd daith—
Ar sail gair Duw ei hun cawn ddyweyd ei fod
'N awr wedi cyrhaedd draw, at wobr ei waith.

Ar fynwes Crist, fel Ioan, pwyso wnai;
Fel Enoch, rhodiai 'n gyson gyda Duw,
Nes aeth y cwlwm rhyngddynt yn rhy dŷn
I 'madael mwy—aeth at ei Dad i fyw,
I bur fwynhau cymdeithas Duw a'r Oen,
Ac uno 'i fawl â'r llu tu fewn i'r llèn:
Ein gadael ni a wnaeth; ond erys mwy
Yn ngwynfyd digyfnewid nefoedd wèn.

Gwir Israeliad oedd heb ynddo dwyll—
Uniondeb a nodweddai 'i daith trwy 'r byd,
Un gonest, unplyg, digenfigen fu,
Heb gysgod malais trwy ei oes i gyd;
Tra marwol ran y gŵr rhinweddol hwn,
O dan dywarchen isel wrth ein troed,
Pawb a'i badwaenent a gyd-dystiant oll
Na chladdwyd undyn mwy didwyll erioed.

Un llednais ydoedd, a difeddwl drwg,
Un gonest, "boneddigaidd, bawdd ei drin,"
Un tirion, bynaws, tangnefeddus iawn,
A beddwch a ddyferai dros ei fin;
Caredig, tyner, a gofalus oedd,
Cysurai, adeiladai, bawb oedd dan
Wasgfeuon gofid,—gŵr â'i galon fawr
Yn llawn o gydymdeimlad gyda 'r gwan.

Pregethwr oedd, a'i galon yn y gwaith,—
'R oedd wrth ei fodd yn canmol Duw a'i ras;
Ac yn ngwresogrydd cariad pur at Grist,
Cyhoeddai ffordd y bywyd gyda blas;
A theithio 'n gyson wnai ar hyd y ffordd
Gyhoeddai i eraill—cwrs ei fywyd ef
Esboniai 'i bregeth: byw oleuni fu,
Lewyrchai yn y byd ar ffordd y nef.

Mewn gweddi 'r oedd ei nerth,—gweddïai fel
Mae plentyn wrth ei dad yn dyweyd ei gŵyn;
Mewn hyder gwylaidd dadleu wnai am hedd,
Yn llawn y Gŵr fu farw er ein mwyn;
Ei weddi, rhyw gyfarfod cyfrin oedd
Cydrhwng y dyn a'i Dduw—cymundeb rhad;
'R oedd ei weddïau 'n argyhoeddi pawb
Ei fod yn *byw* yn agos at ei Dad.

Yn anwyl, yn Bryncrug, ei enw saif;
Man bu ei lafur o dan fendith Duw
Yn gysur cywir, adeiladaeth wir,
I rai ymdrechent yn yr Iesu fyw;
Ond ofer cwyn; dilynwn ôl ei droed,
Yn ol yr Iesu gerddodd trwy ei daith;
Ni chaed ei gwmni yma 'n hir, ond draw
Teifl gobaith oleu ar gymundeb maith.

J. Geufronydd Jones.

Bryncrug.

Y CYLCH O DRUGAREDD.

"Y neb a ymddiriedo yn yr Arglwydd, trugaredd a'i cylchyna ef."—Salm xxxii. 10.

Yr hwn sy 'n ymddiried yn Nuw,
Gan ostwng bob dydd wrth ei orsedd,
Gwyn fyd y gŵr hwnw, mae 'n byw
Yn ddiogel mewn cylch o drugaredd.

Fy nghyfaill, wrth deithio trwy 'r byd,
Yf gysur o hyn o wirionedd—
Ei brofedigaethau i gyd
Dd'ont atat trwy gylch o drugaredd.

'R un ddamwain ddygwydda 'i bob dyn—
I'r cyfiawn a'r mawr ei anwiredd;
Ond, cofia 'r gwahaniaeth, at un
Daw 'r adfyd trwy gylch o drugaredd.

Yn nghanol blinderau y byd,
Ei dristwch, ei ofid, a'i chwerwedd,
Bydd dawel, fy nghyfaill, o hyd,
Am danat mae cylch o drugaredd.

Ymddiried o hyd ynddo Ef,
Cei ganddo yn gyson ddigonedd;
O'th blaid mae gelluoedd y nef,
Byddinant yn gylch o drugaredd.

Ceridwen Peris.

Y GWYNFYD DRAW.

MEWN braw
'R wy 'n gwel'd fy haul yn machlud draw;
Mae 'r dywell nos a'r ing gerllaw.
Pa bryd y daw y goleu ddydd?
I nerthu 'm camrau tua 'r hyfryd wlad,—
Hoff dŷ fy Nhad, lle triga plant y ffydd.

Daw gwawr
Ar ol y nos, a'r d'wyllaf awr
A droir yn ddydd. O gariad mawr!
I lwch y llawr mewn ing a gwae.
Mae calon Duw yn curo dros y byd:
Yn llawn o hyd o gydymdeimlad mae.

Rho ffydd
I weled trwy y t'wyllwch prudd,
A chanfod y tragwyddol ddydd.
Llawenydd sydd fel moroedd maith,
Yn llanw 'r byd tu draw i angeu trist;
A thrwy ein Crist cawn dd'od i ben ein taith.

Pwy dd'wed
Am faint ei gariad Ef a'i led?
Nis gall ei fesur. F' enaid cred,
Ac ato rhed mewn pob rhyw boen:
Cei wybod am anfeidrol ddwyfol hedd,
A choncro 'r bedd wrth wel'd yr addfwyn
Oen.

Fy Nhad!
Mae 'th olud di a'th gariad rhad
Yn denu 'm serch i'r nefol wlad.
A'r Iesu mad, Iachawdwr byd,
Yn dwyn fy mryd oddiar deganau 'r llawr,
At bethau mawr Ei angeu gwerthfawr drud.

Yn wŷn
Fe olchwyd myrdd o deulu 'r glyn,
Trwy rinwedd gwaed Calfaria fryn,
Sydd erbyn hyn mewn gwlad heb boen,
Heb wae na galar, ac ni wylant mwy,
Can's aethant drwy yn nerth yr addfwyn
Oen.

Mae hedd
A bywyd yn Ei dirion wedd,
Ag sydd yn diffodd ofn y bedd.
Mae 'r farwol gledd heb nerth yn awr,
A chariad Duw mewn buddugoliaeth glau,
Yn peri llawenhau holl deulu 'r llawr.

Mae llef
Yr engyl pur o fewn i'r nef,
Yn seinio moliant iddo Ef.
Fe glywi 'r lef o'n daear ni
Yn uno gyda swn y peraidd dant,
Sef cân y plant a fu mewn carchar du

Caf dd'od
Er gwaetha 'r croesau is y rhod
I'r nefol dir; ac mi gaf fod
Heb unrhyw nôd o'm pechod cas.
Fe 'm golchir innau 'n wŷn er dued wyf;
Iacheir fy nghlwyf. Mi ganaf am Ei ras.

O fraint!
Cael rhodio byth heb glwy' na haint,
Yn nghwmni engyl pur a'r saint.
Pwy draetha faint gogoniant nef?
Bydd gwledda yno oesoedd rif y gwlith,
Mewn hedd dilyth yn canu "Iddo Ef."

R. ERNEST JONES.

Rhuthyn.

GWAED Y MEICHIAU.

(Emyn.)

EUOG, euog, byth-golledig
Ydwyf fi o'm rhan fy hun;
Ond mi gana 'n wynfydedig,
Torodd gwawr ar achos dyn:—
Gwaed y Meichiau
Am fy meïau roddodd Iawn.

Mellt y ddeddf oedd yn fy enaid,
A chyfiawnder godai 'i gledd;
Dof yw 'r mellt, cyfiawnder tanbaid,
Yntau droes yn angel hedd:—
Gwaed y Meichiau
Am fy meïau roddodd Iawn.

Wele, ddwyfol-ddynol Berson
Droswyf yn gogwyddo 'i ben,
Llifa heddwch fel yr afon
O dueddau 'r nefoedd wen:—
Gwaed fy Meichiau
Am fy meïau roddodd Iawn.

"Bendigedig" yn oes oesoedd
A fydd anthem nef y nef,
Gyda 'r saint a'r engyl-luoedd
Minnau ganaf "Iddo Ef:"—
Gwaed y Meichiau
Am fy meïau roddodd Iawn.

J. E. D.

Llundain.

"WEDI MARW YN LLEFARU ETO."

Er cof am y diweddar Mr. Evans, Ffinant, Trefeglwys, yr hwn a fu farw Rhagfyr 27ain, 1889, yn 85 mlwydd oed. Yr oedd yn un o'r blaenoriaid hynaf a feddai Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd yn Sir Drefaldwyn.

"COFIA dy Greawdwr" ydyw
Dy iaith heddyw wrthym ni,
Cyn dêl dydd y blin gystuddiau,
Fel y goddiweddodd fi;
T'wyllu wnaeth fy haul a'm lleuad,
Ffoi wnaeth fy ngoleuni ter;
Adeg oedd heb ddim dyddanwch,
Ond a gefais yn fy Ner.

Mae 'r cymylau yn dychwelyd
'R ol bod yn dyhidlo c'yd:
Curant ar fy nhŷ nes crynodd,
Ar y terfyn rhwng dau fyd:
Ces y fraint o fyn'd a dyfod,
Lawer hyd y ddaear werdd;
Llais 'r "aderyn" mwy ni 'm deffry,
Bedd yw lle fy offer cerdd.

Fy hardd "linyn arian" dorwyd,
A'm "pyrth" gauwyd fyny i gyd,
Na chwaith "isel swn y malu"
Glywir mwyach yn y byd;
Torwyd fy "nghawg aur" o'r diwedd
A'm gwasanaethodd lawer, do;
Ac mae 'm "holwyn" wrth y pydew
Wedi rhoi ei holaf dro.

Tora 'm "piser" gerllaw 'r ffynnon;
Trist iawn yw fy ngwel'd fel hyn:
Methu gweled trwy 'r "ffenestri,"
A'm "pren almon" oll yn wŷn:
"Ceidwad fy nhŷ" aeth i grynu,
"Pallodd chwant" at bethau 'r byd;
Es i orwedd i'm hir gartref
'R ol bod yn eich plith cyhyd.

Dim ond pwysau 'r "ceiliog rhedyn"
Fu i mi yn ddirfawr faich;
Hyd y ffordd arswydwn gerdded,
Da cael cymhorth cadarn fraich:
Rhoed fy nghorff mewn pridd i bydru
Hedodd f' ysbryd fry i'r nef;
Mae 'r "galarwyr bob tu 'r heol"
Wedi rhoi eu holaf lef.

"Cododd di o'r pydew erchyll,
Ar y graig y rhodd dy draed,"
Rhodd yn d'enau ganiad newydd,
"Golchodd d'enaid yn y gwaed:'
Ar y *weirglodd islaw 'r 'sgubor*,
Dyna 'r gysegredig fan
Clywaist lais o'r ne 'n cyhoeddi
Heddwch i dy enaid gwan.

Ti ymnerthaist yn yr Arglwydd
A chadernid gallu Duw,
Fel y gallet ti wrthsefyll
Dy elynion o bob rhyw

'R oedd "gwirionedd" megys "gwregys"
O dy amgylch di bob dydd,
A'th "ddwyfroneg" oedd "cyfawnder,"
A dy "darian" oedd y ffydd.

Hen "Efengyl y tangnefedd"
Fu 'n "esgidiau" am dy dra'd;
Yn diddosi 'th ben mewn rhyfel
'R oedd yr "iachawdwriaeth rad;"
Gyda "chleddyf" llym yr "Ysbryd"
Congero wnest elynion lu,
A'th weddiau a esgynent
Beunydd at dy Arglwydd fry.

Eglwys Gleiniant, ni chawn ragor
O gwmpeini Evans fad,
'R ym fel plant amddifaid heddyw
Wedi colli 'n hanwyl dad;
Arglwydd grasol, cofia am danom,
Gwna y bwlch i fyny 'n awr;
Cofia hefyd am y teulu
Adawyd yn eu galar mawr.

Siarl Trannon.

Trefeglwys.

PA BETH YW DYN?

Pa beth yw dyn? Rhyw gragen wan
Ar draeth amserol fyd,
Yn cael ei churo ol a blaen
Gan dònau beilch o hyd;
Ond er mor ddistadl yw yn awr
Mae swn byd *arall* yn ei chôl,
A chyn pen hir y gragen wan
Gaiff *aros* ar dragwyddol làn,
Ac ni ddaw byth yn ol!

Ioan Moelwyn.

Ysgol Ramadegol Clynnog.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

Yn Nghyfarfod Misol Dehau Aberteifi, a gynnaliwyd yn Cei Newydd, Rhagfyr 10 a'r 11eg, rhoddwyd anerchiad rhagorol ar achos Jiwbili y Genadaeth Dramor, gan y Parch. Thomas Levi. Rhoddwyd diolchgarwch cynhes i Mr. Levi am ei anerchiad, a phasiwyd yn unfrydol i roddi gwahoddiad iddo ef a'r Parch. Dr. Edwards, Aberystwyth, i ddyfod i'r cyfarfod canolog a fwriedir gael tua mis Mawrth nesaf. Rhoddwyd gwahoddiad gwresog hefyd i'r Parch. David Morgan, Penllwyn, i ddyfod i Gyfarfod Misol Llanbedr i roddi achos Undeb yr Ysgolion Sabbothol ger bron.

Yn Nghyfarfod Misol Arfon, a gynnaliwyd yn Siloh, Rhagfyr 9 a'r 10fed, penderfynwyd anfon cofnodiad o gydymdeimlad y cyfarfod at weddw y diweddar Mr. G. Francis, blaenor ffyddlon yn Rhyd-ddu; ac hefyd at Mrs. Williams, gweddw y diweddar Barch. H. H. Williams, M.A., Melbourne, Bethesda gynt, yr hon sydd newydd gyrhaedd y wlad hon. Darllenwyd y llythyr canlynol oddiwrth yr hybarch Hugh Roberts, Bangor, yr hwn y penderfynwyd iddo gael ei argraffu:—

8, Brynteg Terrace, Upper Bangor,
Rhagfyr 7fed, 1889.

Anwyl Syr,—

Gyda llawenydd y derbyniais, ac hyfrydwch y darllenais, eich llythyr serchog a dyddorol. Yr wyf yn dymuno dadgan fy niolchgarwch i'r Cyfarfod Misol am anfon eu cydymdeimlad â mi yn fy nghystudd a'm heuaint. Yr oedd yn ddyddanwch i'm teimlad fod y Cyfarfod Misol y bum yn aelod o hono er dechreuad fy ngweinidogaeth, yn unfrydol yn dadgan eu cydymdeimlad â mi. Er fy mod wedi fy amddifadu o foddion gras a breintiau crefyddol, eto yr wyf yn cael mawr bleser wrth ddarllen a myfyrio, a chymdeithasu â'r Bibl. Yr wyf wedi cael llawer o hyfrydwch yn ngeiriau y pennill:—

"Gwyn fyd y rhai dile'st eu bai,
Eu pechod a'u hanwiredd;
Gan roi iddynt nerth er cnawd a byd,
I bara hyd y diwedd."

Y mae dau beth yn y pennill yr wyf yn leicio gweddio am danynt, sef maddeuant gan Dduw, a nerth oddiwrth Dduw i gyflawni dyledswyddau crefydd. Yr wyf yn teimlo yn ddiolchgar fy mod wedi cael nerth i barhau gyda chrefydd a'i phethau dros lawer o flynyddoedd, ac nis gall y diwedd fod ymhell oddiwrthyf. Y mae yn dda genyf gael y cyfle i anfon fy nghofiant serchog at holl aelodau y Cyfarfod Misol, gan ddymuno eu llwyddiant yn dymmorol ac ysbrydol, a llwyddiant gwaith yr Arglwydd yn eu dydd ac yn eu dwylaw. O! frodyr, gweddiweh droswyf.

Yr eiddoch,
Hugh Roberts.

"Dr. Roberts, Llywydd y Cyfarfod Misol."

Cafwyd anerchiad tra dyddorol gan y Parch. Josiah Thomas, M.A., Liverpool, ar Jiwbili y Genadaeth Dramor. Rhoddwyd diolchgarwch i Mr. Thomas am dano, ac ymddiriedwyd y trefniadau i Bwyllgor Sirol y Genadaeth Dramor.

Yn Nghyfarfod Misol Môn, a gynnaliwyd yn Amlwch, Rhagfyr 9 a'r 10fed, ymwelwyd â'r Cyfarfod Misol gan y Parchn. Evan Jones, Caernarfon, a Griffith Ellis, M.A., Bootle, ar ran achos Jiwbili y Genadaeth Dramor. Cafwyd anerchiadau dyddorol ganddynt ar y mater hwn, a rhoddwyd derbyniad croesawgar i'w cenadwri.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a gynnaliwyd yn Llanrwst, Rhagfyr 18 a'r 19eg, cyflwynwyd cynllun gyda golwg ar ledaenu llenyddiaeth bur i ystyriaeth y Cyfarfod. Penderfynwyd ei gyflwyno i ystyriaeth Cyfarfodydd y Dosbarthiad-

au, a bod adroddiad i ddyfod i Gyfarfod Misol Chwefror. Yr oedd Mr. John Williams, Moss Bank, Liverpool, a'r Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle, yn bresennol ar ran pwyllgor Jiwbili y Genadaeth Dramor, a chafwyd anerchiadau gwerthfawr ganddynt.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Clwyd Street, Rhyl, Rhagfyr 19eg, pasiwyd y penderfyniadau canlynol, cynnygiedig gan Bwyllgor y Llyfrau:—Fod i Meistri E. Ellis, Dinbych, ac O. Williams, Bodffari, dynu allan adroddiad o ledaeniad y ddwy Drysorfa, i'w roddi ger bron y Cyfarfod Misol nesaf, er cael gwybod pa nifer o honynt a dderbynir ymhob lle. 2. Fod i Meistri E. Ellis ac O. Williams dynu allan *form* i'w danfon i'r gwahanol eglwysi, i ymofyn am nifer y derbynwyr, ac anerchiad yn dwyn y ddwy Drysorfa i sylw. 3. Fod i'r Parch. Jonathan Jones osod achos y ddwy Drysorfa ger bron y Cyfarfod Misol.

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd yn Jewin Newydd, nos Wener, Rhagfyr 27ain, darllenwyd cenadwri o'r cyfarfod a gynnaliwyd mewn cysylltiad â'r Cyfarfod Misol yn Jewin Newydd, nos Fercher, Rhagfyr 18fed, dan lywyddiaeth y Parch. J. Elias Hughes, M.A., pryd y cafwyd anerchiad gan y Parch. Griffith Parry, D.D., ar gynllun a gweithrediadau "Undeb yr Ysgol Sabbothol." Rhoddwyd y derbyniad caredicaf i'r genad ac i'w genadwri, a phenderfynwyd:—"Ein bod yn dymuno annog yr holl Ysgolion i roddi prawf ar gynllun 'Undeb yr Ysgol Sabbothol' am y flwyddyn nesaf; a'n bod hefyd yn anfon cenadwri at y Cyfarfod Misol ac at Undeb yr Ysgolion Sabbothol yn Llundain, i ddymuno arnynt attegu a chefnogi y penderfyniad hwn; a'n bod yn dymuno hefyd i'r Cyfarfod Misol ynghyd a chynnrychiolwyr yr Ysgolion i gyd-gyfarfod eto yn gynnar yn mis Ionawr er mwyn cael gan yr holl ysgolion i gyd-gychwyn, os yw yn bosibl, gyda'r symudiad hwn." Penderfynwyd derbyn y genadwri uchod, ac anfon dirprwyaeth o bump o frodyr i gyfarfod Undeb yr Ysgolion Sabbothol yn Llundain, gyda'r amcan o wneuthur trefniadau er cario allan gynllun "Undeb yr Ysgol Sabbothol" yn yr holl ysgolion o fewn cylch y Cyfarfod Misol. Penodwyd y Parchn. J. Elias Hughes, M.A., E. James Jones, M.A., J. E. Davies, M.A., ynghyd a'r Parch. W. Prydderch Williams a Mr. J. W. Jones, yn ddirprwywyr. Awdurdodwyd yr ysgrifenydd i anfon at ysgrifenydd Undeb yr Ysgolion Sabbothol yn Llundain, i ofyn ganddo alw aelodau yr Undeb ynghyd, i gyfarfod y ddirprwyaeth mor fuan ag y byddo modd.

Yn Nghyfarfod Misol Dwyrain Morganwg, a gynnaliwyd yn Bedlinog, Rhagfyr 31 a Ionawr 1af, darllenwyd llythyrau cyflwyniad y Parch. Christmas Lewis, o Gyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, yr hwn sydd wedi cymeryd gofal eglwys Seisonig Tonypandy; a'r Parch. D. Lloyd, o Ddehau Aberteifi, yr hwn sydd wedi dyfod i gymeryd gofal eglwys Mountain Ash. Rhoddwyd derbyniad cynhes i'r ddau frawd. Rhoddwyd annogaeth daer i helaethu cylchrediad Cyhoeddiadau misol y Cyfundeb. Galwyd sylw at "*Album* Williams Pantycelyn," yr hwn sydd newydd ei gyhoeddi gan Mr. W. Morgan, Pant, Dowlais. Y mae yn llyfr cynnwysfawr a destlus iawn, ac wedi ei brydferthu â *full-page photographs* gwir dda. Dymunwyd iddo gylchrediad eang. Hysbyswyd hefyd am y llyfryn bychan sydd newydd ei adgyfeithu, "Cydwybod a threfn mewn goruchwilio arian." Gellir cael 50 o honynt am 2s. 6c. oddiwrth y cyhoeddwr (Jarvis & Co., Bangor). Dywedid fod gan y llyfryn bychan genadaeth, yn ddiammheu, at grefyddwyr Cymru.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, a gynnaliwyd yn Sïon, Sciwen, Ionawr 1 a'r 2il, galwyd sylw at lyfr sydd newydd ei gyhoeddi gan y Parch. Ebenezer Jones, Castellnedd, sef Byr-Gofiant i'r diweddar Mr. Henry Jones, Castellnedd, blaenor o allu a dylanwad mawr yn ei ddydd. Rhoddwyd annogaeth i'w bwrcasu a'i ddarllen. Hysbyswyd er llawenydd i'r holl frawdoliaeth, fod y Parch. David Phillips yn gwella o'i anhwyldeb diweddar. Anfonwyd cofion cynhesaf y Cyfarfod Misol ato, gyda dymuniad am ei weled yn fuan yn eu plith.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, a gynnaliwyd yn Nghroesoswallt, Ionawr 9 a'r 10fed, agorwyd mater Cyfarfod y Pregethwyr, sef "Ysbryd Pregethu," gan y Parch. O. Parry-Owen, Tregynon; ac agorwyd mater Cyfarfod y Blaenoriaid, sef "Rhydd-ymddyddan am sefyllfa yr Achos o fewn cylch y Cyfarfod Misol," gan Mr. W. Thomas, Birmingham. Rhoddwyd gwahoddiad i'r Parch. D. Lloyd Jones, M.A., i ddyfod i'r Cyfarfod Misol i osod i lawr achos "Jiwbili y Genadaeth Dramor." Rhoddodd y Parch. G. Parry, D.D., anerchiad ar ran Pwyllgor Undeb yr Ysgol Sabbothol, yr hwn a dderbyniwyd yn serchog. Diolchwyd am yr anerchiad, ac addawyd gwneyd ymdrech i gario allan yr awgrymiadau.

CYFARFODYDD PREGETHIU.

Cynnaliwyd Cyfarfod Blynyddol Pontmorlais, Merthyr Tydfil, nos Fawrth a dydd Nadolig. Pregethwyd gan y Parchn. James Donne, Llangefni, a Wm. Jones, Treforris.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu ddydd Nadolig yn Briton Ferry. Pregethwyd yn Gymraeg y boreu a'r nos, ac yn Saesoneg yn y prydnawn. Gwasanaethwyd gan y Parch. G. Parry, D.D.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu nos Fawrth a dydd Nadolig yn Cann Office. Pregethwyd gan y Parchn. John Evans, Llanfair, a William Jones, David Street, Liverpool.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu nos Fawrth a dydd Nadolig yn Llysfaen. Pregethwyd gan y Parchn. John Williams, Dwyran, ac Evan Jones, Adwy'r Clawdd.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu ddydd Nadolig yn Harlech, pryd y gweinyddwyd gan y Parchn. David Williams, Liverpool, a W. R. Jones, Caergybi.

SYMUDIADAU GWEINIDOGION.

Y mae y Parch. Robert Roberts, Tydweiliog, wedi ymgymeryd â gofal Eglwys Morfa Nefyn, ac wedi dechreu ar ei waith yno ddechreu y flwyddyn hon.

Y mae Mr. Humphrey W. Griffith, Llithfaen (yn awr o Goleg Aberystwyth), wedi cydsynio i gymeryd gofal Eglwys Cynon, ger Aberystwyth.

Deallwn fod y Parch. Robert Williams, Pencaerau, Lleyn, yn awr ar ei ail ymweliad âg Eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Rome, America.

Y mae y symudiadau canlynol hefyd wedi neu ar gael eu gwneuthur :—

Y Parch. Henry Jones, M.A., Garston, i Eglwys Seisonig Turf Square, Caernarfon.

Y Parch. Evan G. Davies, Ceinewydd, i Merthyr Vale.

Y Parch. Edward Davies, Llechryd, i Llanpumsaint, Sir Gaerfyrddin.

Y mae yr efrydwyr canlynol o Goleg Trefecca wedi cydsynio â'r galwadau i'r eglwysi canlynol :—Mr. Evan Davies, i Laneurwg; Mr. T. H. Williams, i Hay; a Mr. W. M. Jenkins i Lantrisant. Dechreuant ar eu gwaith yr haf nesaf.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

MR. JOHN LEWIS, NAZARETH.

Bu farw y pregethwr ieuanc, Mr. John Lewis, Nazareth, ger Llanelli, Ionawr y 10fed. Hanai o linach grefyddol a Methodistaidd. Yr oedd yn ŵyr i Mr. Thomas Lewis, hen flaenor yn y Capel Newydd, adnabyddus fel un cadarn yn yr Ysgrythyrau, a gweddïwr hynod; ac yn gefnder i'r Parch. William Lewis, Cwmparc. Bu yn pregethu am tua chwe' blynedd. Yr oedd ei weinidogaeth yn fuddiol a chymeradwy. Dyoddefodd oddiwrth afiechyd poenus am tua thair blynedd, yr hyn a fu yn rhwystr iddo yn ei efrydiaeth. Aeth dan *operation* tua mis Mehefin diweddaf, a gwanhaodd yn raddol ar ol hyny nes huno yn yr angeu ar y dydd a nodwyd, yn ddim ond 28ain mlwydd oed. Claddwyd ef y dydd Sadwrn canlynol yn Mynwent Nazareth. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan dri o'i gyd-efrydwyr yn Nhrefecca, a chan weinidogion o'r gwahanol enwadau.

Y PARCH. DANIEL MORGAN, LLANDEILO.

Bu farw y gweinidog hwn, Rhagfyr 27ain, 1889, yn 54ain mlwydd oed, wedi blwyddyn o gystudd poenus. Brodor ydoedd o Lansadwrn. Dechreuodd bregethu tua chwe' blynedd ar hugain yn ol. Ymgymerodd yn y flwyddyn 1867, ar ei ddyfodiad o Goleg Trefecca, â bugeiliaeth yr eglwys yn Llandeilo. Ordeiniwyd ef yn 1869. Yr oedd Mr. Morgan yn weithiwr caled a llwyddianus, a hollol ymroddedig yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Yr oedd yn bregethwr da a sylweddol. Perchid a cherid ef yn fawr fel cyfaill caredig, Cristion pur a difrifol, a gweithiwr difefl yn ngwinllan ei Arglwydd. Claddwyd ef ddydd Calan yn mynwent Llansadwrn, pryd y gwasanaethwyd yn y tŷ, yn y capel, ac wrth y bedd, gan y Parchn. T. James, M.A., Llanelli; J. Owens, Burry Port; D. Williams, Llanelli; R. Salmon, Llansadwrn; T. James, D.D., Hendre, ac amryw eraill.

Nodiadau Misol.

ESGOB DURHAM.

Collodd Eglwys Loegr ei hesgob mwyaf, a'i hysgolhaig duwinyddol enwocaf, yn marwolaeth Dr. Lightfoot. Bu farw ddydd Sadwrn, Rhagfyr 21ain, yn Bournemouth, lle yr aethai, fel y bu droion o'r blaen, am adnewyddiad iechyd, yn yr

eilfed flwydd a thriugain o'i oedran, a'r unfed ar ddeg o'i esgobaeth. Ganesid y Gwir Barchedig Joseph Barber Lightfoot, D.D., D.C.L., Ll.D., yn Liverpool, yn y flwyddyn 1828. Cyfrifydd ac archadeiladydd oedd ei dad. Dechreuodd ei addysg yn y *Royal Institution* yn y ddinas hono. Oddiyno, ymhen ychydig flynyddoedd, symudwyd ef i *King Edward* VI.'s *Grammar School*, Birmingham. Yr oedd Archesgob presennol Caergaint a Dr. Westcott yn gydysgolheigion âg ef yn yr ysgol hono. Cadwodd i fyny gyfeillgarwch gynhes â'r olaf o'r ddau tra y bu byw; ac nid gormod dyweyd fe allai fod Dr. Lightfoot a Dr. Westcott y ddau ysgolhaig Biblaidd a duwinyddol penaf yn Lloegr, a'r ddau gynnrychiolydd enwocaf o neilldu olion ysgolheigdod Caergrawnt. Dechreuodd ei yrfa yn Mhrifysgol Caergrawnt yn y flwyddyn 1845, yr hon a fu yn hynod ddysglaer. Ennillodd ysgoloriaeth yn 1848. Ymhen tair blynedd graddiodd yn B.A. fel *wrangler*, *senior classic*, a *Chancellor's medallist*. Etholwyd ef yn 1852 yn gymrawd o'i goleg. Ennillodd y *Norrisian University Prize* yn y flwyddyn ganlynol, a chymerodd y gradd o M.A. Ordeiniwyd ef gan Dr. Prince Lee, Esgob Manchester, yn 1858. Appwyntiwyd ef yn Athraw Coleg y Drindod, Caergrawnt, yn 1857; Caplan i'r diweddar Dywysog Albert yn 1861; Caplan anrhydeddus *(in-Ordinary)* i'r Frenines yn 1862; *Hulsean Professor of Divinity* yn Mhrifysgol Caergrawnt a Chaplan Arholiadol i Esgob Llundain yn 1861; Doctor Duwinyddiaeth yn 1864; *Whitehall Preacher* ddwy flynedd yn ddiweddarach; Caplan Arholiadol i Dr. Tait, Archesgob Caergaint, yn 1868; *Canon Residentiary* Eglwys Gadeiriol St. Paul yn 1871; *Honorary Fellow* Coleg y Drindod, Caergrawnt, yn y flwyddyn ganlynol; Pregethwr detholedig yn Rhydychain, 1874 a 1875; un o'r *Deputy Clerks of the Closet* i'r Frenines, a *Margaret Professor of Divinity* yn Nghaergrawnt, yn 1875. Anfynych y gwelwyd y fath gawod o swyddau uchel ac anrhydeddus yn parhau i ddisgyn am flynyddoedd ar ben yr un dyn, a hwnw, heb os na dadl yn un man, mor haeddiannol o'u derbyn.

Yn Ionawr, 1879, appwyntiwyd ef gan y diweddar Iarll Beaconsfield i esgobaeth Durham, y gyfoethocaf ar ol un Llundain o'r holl esgobaethau. Ni cheisiodd ac ni chwennychodd y fath ddyrchafiad uchel. "Yr unig anhawsder," meddai aelod o Weinyddiaeth Iarll Beaconsfield, "oedd cael ganddo ei chymeryd." Dewisai efe dawelwch ei fyfyrgell a'i hoff efrydiau yn well na gorsedd esgob. Bu raid i'r Prif Weinidog ei hun ymostwng i roddi ei hyawdledd ar waith i'w berswadio. Ac nid rhwydd fu y gwaith mewn un modd. Ond cymeryd ei berswadio a wnaeth yn y diwedd megys yn erbyn ei ewyllys. Ond wedi unwaith roddi ei law ar yr aradr, edrychodd ei lygaid yn uniawn o'i flaen, ac ymroddodd gyda holl gydwybodolrwydd ac yni ei natur i gyflawni y weinidogaeth a ymddiriedasid iddo. Gweinyddodd ddyledswyddau amrywiol ei esgobaeth fawr a phoblog, am ddeng mlynedd, gyda'r fath allu a barn, y fath fedr a thegwch, ac oddiar y fath egwyddor uchel ac amcan syml, fel y buasai yn anhawdd dyweyd pa un ai Eglwyswyr ai Ymndeillduwyr oedd yn ei garu a'i barchu fwyaf. Diolchodd yn gyhoeddus i Ymneilduwyr y ddinas, yn y Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Eglwys Gadeiriol y flwyddyn ddiweddaf, am eu gweddïau drosto a'u cydymdeimlad âg ef yn ei gystudd diweddar.

Gwnaeth Dr. Lightfoot waith mawr cyn ei ddyrchafu i'r fainc esgobol. Dywedir iddo lwyddo fel Proffeswr Duwinyddiaeth yn Nghaergrawnt i ail-briodi *meddwl* âg union gredodd, a chyfodi dosbarth newydd o glerigwyr. Ei waith llênyddol penaf a phwysicaf oedd ei argraffiad newydd o Ignatius. Dywedai Canon Liddon am y gwaith hwn, mewn pregeth yn St. Paul's drannoeth wedi marwolaeth yr Esgob, ei fod "yn ffrwyth ysblenydd o ysgolheigdod Seisonig ddiweddar, a'i fod wedi diffodd dadleuon oeddynt yn parhau hyd y pryd hwnw, trwy bwysau o ddysgeidiaeth, treiddgarwch a gallu, nad oedd yn y mater hwn bellach un appêl oddiwrthynt." Gwnaeth wasanaeth mawr hefyd i gywirdeb ysgolheigdod ac i wirionedd Cristionogaeth, trwy ei ddynoethiad diarbed o honiadau a chyfeiliornadau y llyfr ammheuol *(sceptical)* a elwir "*Supernatural Religion.*" Chwalodd y llyfr bostfawr hwnw fel chwalu mŵg. Ond y gweithiau a garient ddylanwad ar y cylch eangaf o efrydwyr Biblaidd yw ei Esboniadau galluog a rhagorol iawn ar Epistolau Paul at y Galatiaid, Philippiaid, Colosiaid a Philemon. Fel y mae yn hysbys i lïaws o'n darllenwyr, ysgrifenodd *Excursus*, neu draethawd attodiadol nodedig, yn niwedd ei waith ar yr Epistol at y Philippiaid, ar y Weinidogaeth Gristionogol. Cynhyrfodd y traethawd hwn wrthwynebiad gerwin yn ngwersyll yr Uchel-eglwyswyr yn enwedig. Y mae yr awdwr, yn ei gariad gwrol at y gwirionedd, ac ar ol yr ymchwiliad mwyaf dysgedig a gofalus, yn beiddio hòni nad oes un math o sail yn y Testament Newydd i'r syniad *offeiriadol* ynglŷn â'r

Weinidogaeth Gristionogol; ac hefyd nad yw Esgobyddiaeth, yn ei ffurf bresennol, yn y Testament Newydd, ond yn dyfiant diweddarach. Lledaenwyd y gair yn ddiweddar fod yr Esgob ar ol hyny wedi newid ei olygiadau ar y materion hyn. Ond profwyd hyn yn anwiredd. Ysgrifenodd yr Esgob ei hun, at un a anfonodd i ofyn iddo, yn gwadu y chwedl yn bendant.

Goddefer i ni wneuthur un sylw eto, er fod y Nodiad hwn wedi rhedeg yn faith. Onid yw yn rhyfedd fod cynifer o gyd-darawiadau yn bod rhwng yr Esgob hwn â'r enwocaf o'i rag-flaenoriaid fel Esgob Durham—Butler, awdwr anfarwol yr "*Analogy?*" Joseph oedd enw y ddau. Bu y naill farw yn driugain oed, a'r llall yn un a thriugain. Yr oedd y ddau yn perthyn i *Chapter St. Paul's*, un fel Deon, a'r llall fel *Canon*. Yr oedd y ddau yn uwch o'u hysgwyddau i fyny na'u brodyr ar y fainc esgobol, fel duwinyddion dysgedig ac athronyddol. Enwogodd y ddau eu hunain fel amddiffynwyr Cristionogaeth. Bu y ddau fyw a marw yn "hen lanciau." Yr oedd y ddau yn ddigyffelyb bron yn eu haelioni. Gwariai Joseph Butler ei gyflog oll, bron, mewn rhoddion ac elusenau, er ei fod yn llawer mwy y pryd hwnw nag yn awr. Gwariai Joseph Lightfoot ei gyflog yntau bron yn gyfan (saith mil o bunnau yn y flwyddyn) yr un modd, gan fyw ei hunan ar gyflog curad. Wele ddwy engraifft ddigyffelyb bron o "*plain living and high thinking!*" Fel arall y mae, ysywaeth, yn rhy gyffredin—"*high living and plain thinking!*"

DR. DOLLINGER.

Wele eto un o'r cedyrn wedi cwympo. Bu farw Dr. Dollinger ddydd Gwener, Ionawr 10fed, yn yr oedran mawr o 91 mlwydd. Ei afiechyd oedd yr *influenza*, y clefyd sydd yn awr yn ysgubo fel tòn dros y rhan fwyaf o wledydd Ewrop. Efe oedd yr arweinydd yn yr hen ysgol yn yr Eglwys Babaidd, a adwaenir wrth yr enw *Old Catholics*. Perchid ef yn fawr ar gyfrif uniondeb ei egwyddor, ei wroldeb anhyblyg yn sefyll dros argyhoeddiadau ei farn a'i gydwybod, yn gystal ag ar gyfrif ei ddysgeidiaeth eang. Efe oedd duwinydd mwyaf dysgedig yr hen ysgol. Ammheuid ei deyrngarwch i'r Babaeth er's amser maith. Tuedd ei addysg oedd at lywodraethiad yr Eglwys yn unol â rheswm a barn y byd Cristionogol goleuedig. Ond ni fynai yr Eglwys Babaidd gydnabod y fath egwyddor o gwbl. Ei olygiadau a'i addysg ef, eangder a rhyddfrydigrwydd ei ysbryd, oedd un achlysur o amryw a arweiniodd i gyhoeddiad ffurfiol yr athrawiaeth o Anffaeledigrwydd y Pab, er gwrthweithio a rhoddi terfyn bythol ar y fath syniadau peryglus. Daeth hyn â phethau i argyfwng. Gwrthwynebodd efe yr athrawiaeth hon yn eofn, a bwriwyd ef allan o'r synagog. Nid oes gan Eglwys Rhufain le i ammheuaeth nac ymresymiad. Nid oes lle canol rhwng ymddarostyngiad hollol y farn bersonol i awdurdod yr Eglwys ac esgymundod. Hwyrach mai camgymeriad Dr. Dollinger oedd ei fod naill ai wedi myned yn rhy bell, neu nad aeth yn ddigon pell. Aeth mor bell fel y dylasai fyned ymhellach. Ond gwnaeth gychwyniad yn yr iawn gyfeiriad, â'i wyneb at y goleuni. Ac yr oedd hyn yn beth mawr yn yr Eglwys Babaidd. Er nad oes llwyddiant gweledig ar ysgol yr *Old Catholics*, y mae symudiadau a gwaith eu harweinydd fel lefain wedi ei roddi yn y blawd. Anrhydeddwyd ef gan holl Ewrop ar ben ei 90ain mlwydd. A gwnaed cais egnïol i gael ganddo alw yn ol ei wrthwynebiad i athrawiaeth yr Anffaeledigrwydd. Ond ei ateb gwronaidd oedd:—"*Na, ni lychwinaf fy henaint â chelwydd.*"

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA LLANFAIR CAEREINION.

Rhagfyr 11, 12, a 13eg, 1889.

Llywydd,—Y Parch. William James, B.A., Manchester.

Dydd Mercher, Rhagfyr 11eg.

Am 2 o'r gloch, Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa.

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. Evan Jones, Adwy'r Clawdd.

I. Yn wyneb fod Cadair y Gymdeithasfa yn wag, trwy farwolaeth y Parchedig John Pritchard, Amlwch, cyn terfynu blwyddyn ei lywyddiaeth, etholwyd y Parch. William James, B.A., Manchester, y cynlywydd, yn Gadeirydd am y tro.

II. Galwyd enwau y Cynnrychiolwyr.

III. Derbyniwyd cenadwriaethau o'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau.

IV. *Gwerthu Capelau.*—Rhoddwyd eglurhad ar genadwriaethau o Gyfarfod Misol Dyffryn Conwy, a phenderfynwyd ein bod yn rhoddi caniatâd i'r cyfeillion yn Nyffryn Conwy i werthu y Capel Seisonig yn Colwyn Bay a hen Gapel Pantywenol.

V. *Ethol Llywydd.*—Etholwyd trwy y tugel y Parch. W. Dickens Lewis, M.A., D.D., Amwythig, yn Llywydd y Gymdeithasfa am y flwyddyn nesaf.

VI. *Penodi Ymddiriedolwyr Newyddion.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn cymeradwyo y personau a gynnygir gan frodyr Liverpool yn Ymddiriedolwyr ar hen gapel Bedford Street, i'w penodi trwy weithred gyfreithiol yn y Gymdeithasfa nesaf.

VII. *Addysg Uwchraddol.*—Pasiwyd y penderfyniadau dilynol:—1. Ein bod yn dymuno awgrymu yn barchus i'r *Joint Committees* yn Ngogledd Cymru y fantais o fod iddynt gydgyfarfod i gymeryd golwg gyffredinol ar anghenion addysgiadol holl Ogledd Cymru, ac felly osgoi, hyd y mae yn eu gallu, grynhoad o ysgolion mewn rhai cymydogaethau ar draul colled i gymydogaethau eraill.—2. Ein bod yn dymuno galw sylw at y ffaith nad oes un trefniad yn yr *Act* ar gyfer sicrhau gwelliantau yn y *schemes* wedi unwaith y trefner hwy, nac ychwaith ddarpariaeth i sicrhau ymchwiliad i hanes gweithiad y *schemes;* ac yn cymhell y Cynghorau Sirol i ofalu am roddi personau cymhwys, a nifer digonol o honynt, yn aelodau ar y *governing bodies*, ac hefyd i ddeisebu y Senedd ar i'r gallu i arolygu a gwella ysgolion gael ei barhau yn nwylaw Cynghor Cymreig.—3. Ein bod yn dymuno adgoffa i'r Cynghorau Sirol fod yr *Act*, drwy osod yn eu dwylaw y gallu i gymhell taliadau o'r dreth sirol, yn rhoddi iddynt gyfleusdra pwysig i wrthdystio yn erbyn unrhyw anghyfiawnder â'r Ymneilduwyr a all gael ei wneyd yn y *schemes*.

VIII. *Ysgrifenydd.*—Penderfynwyd nad oedd Ysgrifenydd y Gymdeithasfa o hyn allan i fod yn agored i ail-etholiad am y tymmor dilynol. Dewiswyd y Parch. T. Gwynedd Roberts, Rhostryfan, yn Ysgrifenydd y Gymdeithasfa am y tair blynedd nesaf.

IX. *Dau Apêl.*—Yr oedd dau apêl wedi dyfod i law; un yn erbyn penderfyniad neilldnol o eiddo Cyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, a'r llall yn erbyn penderfyniad neilldnol o eiddo Cyfarfod Misol Sir Fflint. Penodwyd pwyllgor, yr hwn a aeth o'r neilldu ar y pryd, i ystyried y ddau achos.

X. *Patagonia.*—Cymerwyd cenadwri Gorllewin Meirfonydd i ystyriaeth, ac wedi i Mr. John S. Jones, yr hwn sydd yn awr ar ymweliad â'r wlad hon o'r Wladfa, roddi gair o hanes ystâd ddiymgeledd yr achos Methodistaidd yno, penderfynwyd,—Ein bod yn penodi Pwyllgor o bedwar i ohebu â chyfeillion yn Patagonia, ac i ddwyn adroddiad ar y pwnc, a'n bod hefyd yn rhoddi annogaeth i gyfeillion a deimlant ar eu calon i fyned i'r Wladfa i ohebu âg aelodau y pwyllgor. Y pedwar brawd ydynt y Parchn. William Roberts, Llanrwst; David Jones, Garegddu; Lewis Ellis, Rhyl, a'r Ysgrifenydd. Yr Ysgrifenydd i fod yn Gynnullydd.

XI. *Athrofa y Bala.*—Darlleuwyd a chadarnhawyd yr Adroddiad dilynol o weithrediadau Cyfeisteddfod Athrofa y Bala:—

Cynnaliwyd Cyfarfod neilldnol o Gyfeisteddfod Athrofa'r Bala yn Rhyl, Medi 9fed, am 11 o'r gloch.—Cadeirydd,—Richard Davies, Ysw., Treborth.—1. Hysbyswyd gan y Cadeirydd fod Mr. J. Herbert Roberts, Abergele, yn gwrthod gweithredu fel Trysorydd cynnorthwyol, ond ei fod yn addaw cynnorthwyo i edrych dros yr eiddo yn Liverpool, a bod yn gynnullydd i'r Pwyllgor. Penderfynwyd,—Ein bod yn cytuno i'r trefniant hwn yn unol â dymuniad y Trysorydd Cyffredinol. —2. Darllenwyd gan y Cadeirydd adroddiad yr Is-Bwyllgor ar geisiadau y gwahanol ymgeiswyr, ac yna darllenwyd *testimonials* y tri enw a ddygpwyd ger bron, ac ar ol ymddyddan maith a gwresog dewiswyd trwy y tugel gyda mwyafrif o 15 i 5 Mr. Edmund Wynne Parry, M.A., yn athraw cynnorthwyol yn yr Adran Ragbarotoawl yn Athrofa y Bala.—3. Penderfynwyd fod yr Is-Bwyllgor sydd eisoes i gymeryd i ystyriaeth Lyfrgell a *Statutes* y Coleg i ystyried hefyd bwnc y flwyddyn brawf ynglŷn â phregethwyr ieuainc.—R. H. Morgan, *Ysg.*

Yna cymerwyd i ystyriaeth y genadwri ddilynol a ddaethai i Gymdeithasfa Bangor o Leyn ac Eifionydd:—

Adran Ragbarotoawl yn y Bala.—Yn Nghyfarfod Misol Babell, Awst 5ed a 6ed, penderfynwyd,—Ein bod yn dymuno ar y Gymdeithasfa i ail ystyried y penderfyniad o godi tâl dros y pregethwyr ieuainc yn Adran Ragbarotoawl Athrofa y Bala, gan ein bod yn credu fod yr adran hon yn anghenrheidiol ar hyn o bryd, ac y dylai am hyny gael ei dwyn ymlaen ar draul Cronfa yr Athrofa.—D. Roberts, *Ysg.*

Rhoddwyd adroddiad calonogol iawn gan y Parch. Ellis Edwards, M.A., am lwyddiant yr Adran Barotoawl yn y Bala, a phenderfynwyd,—Ein bod yn dadgan ein llawenydd wrth ddeall fod yr Adran Ragbarotoawl yn y Bala yn debyg o ateb dyben rhagorol i ni fel Cyfundeb yn Ngogledd Cymru. (Gweler Penderfyniad XXXI.)

Ar ol peth ymddyddan, penderfynwyd ein bod yn cadarnhâu yr hyn a basiwyd gan Bwyllgor yr Athrofa, ac a gymeradwywyd gan Gymdeithasfa Dinbych.

XII. *Rheolau Sefydlog i'r Gymdeithasfa.*—Wedi cael eglurhâd ar ddyben cenadwri a ddaethai o Gyfarfod Misol Manchester ar y pwnc uchod, cymeradwywyd yr amcan, a phenodwyd personau yn Bwyllgor i ddwyn adroddiad ar y mater i'r Gymdeithasfa nesaf.

Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Parch. David Williams, Tremadoc.

Am 6 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.

Dechreuwyd gan y Parch. I. Jones Williams, Llandderfel.

XIII. *Y Gymdeithasfa Nesaf.*—Hysbyswyd fod y Gymdeithasfa nesaf i gael ei chynnal yn Rhosllanerchrugog, Ebrill 9, 10, a'r 11eg, 1890, sef dyddiau Mercher, Iau, a Gwener. Cyfeisteddfod Cyffredinol y Gymdeithasfa i gyfarfod am 2 o'r gloch dydd Mercher y 9fed.

XIV. *Llywydd ac Ysgrifenydd.*—Hysbyswyd mai y Llywydd etholedig yw y Parch. W. Dickens Lewis, M.A., D.D., Amwythig, a'r Parch. Thomas Gwynedd Ro-

berts, Rhostryfan, yw yr Ysgrifenydd etholedig. Cadarnhäwyd y ddau ddewisiad.

XV. *Cadarnhau.*—Darllenwyd adroddiad o weithrediadau y Cyfeisteddfod Cyffredinol, a chadarnhäwyd hwynt.

XVI. *Y Parch. Owen Thomas, D.D.*—Darllenwyd darn o lythyr gan y Parch. John Hughes, D.D., oddiwrth y Parch. Owen Thomas, D.D., ymha un y dadganai ymlyniad wrth ei frodyr yn y Cymdeithasfa, ac yr anfonai gofion caredig atynt. Penderfynwyd,—Ein bod yn anfon ein cofion serchocaf ato, gan ddadgan ein gofid nas gallai ef fod yma gyda ni, a'n llawenydd ei fod yn bresennol yn weddol gryf o ran ei iechyd.

XVII. *Apeliadau.*—Darllenwyd adroddiad y Pwyllgor a fu yn eistedd ar y materion, a chadarnhäwyd ef yn y ffurf ddilynol:—

Apêl Mr. J. G. Lloyd, Wolverhampton — 1. Dewiswyd Mr. E. Griffith, U.H., yn gadeirydd y Pwyllgor.—2. Darllenwyd y llythyrau ar yr achos.—3. Rhoddwyd cyfleusdra i'r Parch. W. Williams, Birmingham, i egluro y rhesymau oedd gan y Cyfarfod Misol dros benderfynu fod y *grant* o'r Genadaeth Gartrefol am y chwarter o Fawrth hyd Mehefin, 1889, i'w thalu i Drysorydd yr eglwys, ac nid i'r diweddar Barch. H. Lloyd. Ychwanegwyd ychydig eiriau gan y Parch. John Prichard.—4. Ein bod, ar ol cymeryd yr holl achos i ystyriaeth, ac yn arbenig anallu hollol y diweddar Barch. H. Lloyd am y chwe' mis diweddaf o'i fywyd i gyflawni unrhyw gyfrau o'i waith fel gweinidog, yn ystyried fod Cyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf wedi ymddwyn yn hollol deg wrth gyfarwyddo Trysorydd y Genadaeth Gartrefol i dalu y *grant* am y chwarter o Mawrth hyd Mehefin, 1889, i Drysorydd yr eglwys yn Wolverhampton, ac nid i'r Parch. H. Lloyd; ond er attal unrhyw anghysur, ac i ochel pob achlysur o ddrwg deimlad, yn awgrymu fod y swm mewn dadl, sef £8 10s., i gael ei dalu i *Executor* Mr. Lloyd allan o gyllid y Genadaeth Gartrefol, o herwydd iselder amgylchiadau yr eglwys yn Wolverhampton.

Apêl Mr. Robert Wright.—Cymerwyd apêl oddiwrth aelod eglwysig i ystyriaeth, ac ar y cyfrif nad oedd dim rhybudd wedi ei anfon i Gyfarfod Misol Sir Fflint, penderfynwyd,—Ein bod yn taer ddymuno ar Gyfarfod Misol Sir Fflint ail ystyried yr achos, gyda y gobaith y gallant hwy ddwyn y cwestiwn i derfyniad boddhäol.—GRIFFITH ELLIS, *Ysg.*

XVIII. *Gwaddoliadau.*—Darllenwyd Adroddiad Pwyllgor y Gwaddoliadau gan Mr. Edward Griffith, U.H., Dolgellau, a phenderfynwyd,—Ein bod yn derbyn yr Adroddiad i gael ei argraffu yn y Cylchlythyr. a'i ystyried genym yn y Gymdeithasfa nesaf. Diolchwyd yn gynhes i'r Pwyllgor am eu llafurus gariad, ac annogwyd hwy i barhau yn eu swydd hyd y diwedd.

(I'w barhâu.)

Bywgraffiaeth.

MRS. THOMAS, PWLLHELI.

Gan y Parch. GRIFFITH ELLIS, M.A., *Bootle.*

YN Nghofiant y Parchedig Richard Humphreys, o'r Dyffryn, ceir y nodiad canlynol:—"Bellach nid oedd ganddo ond ceisio dylyn y golofn; ac arweiniwyd ef i Werniago,—ffermdŷ, yn mhlwyf Pennal, Sir Feirionydd. Ar y 29ain o Fehefin, 1858, priododd â Mrs. Evans, yr hon a fu yn ymgeledd gymhwys iddo hyd ddiwedd ei oes. Ganwyd iddynt un ferch." Y ferch hono, a anwyd ar y 26ain o Ebrill, 1859, yw y chwaer anwyl ag y mae genym yn awr yr hyfrydwch pruddaidd o wneuthur ychydig sylwadau ar ei bywyd a'i chymeriad. Un o dywysogion y weinidogaeth Fethodistaidd oedd Mr. Humphreys. Meddai ddynoliaeth gref a chyflawn, wedi ei phrydferthu yn helaeth â'r rhinweddau moesol ac ysbrydol uchaf; ac yr oedd ei ddoniau gweinidogaethol yn gyfryw ag a'u gwnaent yn dra chymeradwy yn ngolwg pob math o wrandawyr,—y rhai mwyaf deallus, a'r rhai mwyaf anneallus hefyd. Yn y Gymanfa rhoddid yn wastad yr ymddiried uchaf yn ei farn; ac fel "gŵr o gynghor" ni welwyd yn ddiau erioed ei ddiogelach. Yn ei synwyr cryf, ac yn ei ffraethineb parod a'i arabedd ystwyth, yr oedd yn sefyll yn amlwg ar ei ben ei hun ymysg ei frodyr; ac yn arbenig yn y gallu oedd ganddo i adnabod cymeriadau a thrin y natur ddynol. Y mae yn syn genym feddwl ei fod wedi ei gymeryd ymaith er ys mwy na chwe' blynedd ar hugain, canys bu farw ar y 15fed o Chwefror, 1863, yn 72 mlwydd oed. Gwelir gan hyny nad oedd Mrs. Thomas ond prin bedair blwydd oed pan fu farw ei thad, ac nas gallai ei chof am dano fod ond gwan ac anmherffaith. Ac yn ei flynyddoedd diweddaf nid oedd yntau ychwaith ond cysgod o'r hyn a fuasai yn mlynyddoedd ei nerth. Yr oedd ynddi, pa fodd bynag, lawer o'r nodweddion oeddynt mor amlwg ynddo ef, yn enwedig synwyr da, llawer o arabedd naturiol, yr hwn y gwnaeth ymdrech neillduol i'w ffrwyno yn ei blynyddoedd diweddaf, ac, uwchlaw y cwbl, gallu i adnabod cymeriadau.

Gwraig nodedig hefyd oedd ei mam. Synwyr cryf, arafwch ac addfwynder, a chrefyddolder dwfn, oeddynt ei nodweddion mwyaf amlwg hithau. Trwy y profedigaethau mawrion ac aml a'i cyfarfu, dysgodd mewn modd rhyfedd gydymdeimlo â'r adfydus; ac yr oedd yn ei holl ymddygiad tuag at bawb ryw hynawsedd dymunol a'i gosodai ar ei phen ei hun i fesur helaeth ymysg gwragedd ei chymydogaeth. Llywodraethai ei thŷ ei hun yn dda, gan ofalu yn drwyadl am addysg ei phlant. Bu farw dau o'r rhai hyn o'i blaen, sef Catherine Evans, yr hon a gymerwyd ymaith yn 14 mlwydd oed, ac oedd yn nodedig am ei duwioldeb (gwêl *Trysorfa y Plant*, 1868), a Henry Evans, yr hwn oedd ŵr ieuanc

tra dymunol a chrefyddol. Gwir ofalai am achos crefydd, a chymerai bleser neilldnol mewn gweini ar weinidogion yr efengyl. Ac ar ddiwedd yr oedfa, pan na byddai y pregethwr yn aros gyda hi, byddai ei gwên siriol a'i geiriau caredig yn fynych yn godiad calon iddo; canys ni throai hi ymaith un amser heb ei gyfarch yn serchog, pa beth bynag fyddai ei safle, a pha un bynag ai caled ai hwyliog fyddai yr oedfa. Am y chwe' blynedd olaf o'i hoes bu Mrs. Humphreys yn byw gyda'i merch mewn tawelwch didrafferth yn Llwynteg, Pennal, wedi gadael y fferm a'i gofalon i'w mab, Mr. David Evans. A diau y bu y blynyddoedd hyn i'w merch o'r gwerth mwyaf, canys yn y cyfnod hwn y ffurfiwyd ac yn enwedig y sefydlwyd ac y cadarnhawyd ei chymeriad. Fel gwraig ac fel mam dangosodd gyfuniad prydferth o'r nodweddion arbenig oeddynt yn harddu i raddau mor nodedig gymeriadau ei thad a'i mam.

O'i mam yr oedd yn hynod o hoff. Tra y cawsant fod gyda'u gilydd ni bu erioed ddwy ddedwyddach; ac wedi ei cholli, nid oedd gan Mrs. Thomas un dymuniad cryfach na chael adgynnyrchu ynddi ei hun fywyd ei mam. Yr ydym yn cofio galw gyda hi yn Llwynteg unwaith wedi iddi gael ei gadael yno mewn unigedd, a phan yn myned ymaith mynai ein hebrwng at y *gate*, gan ddyweyd, "Byddai fy mam yn dyweyd wrthyf bob amser am beidio troi yn ol heb hebrwng pob cyfaill can belled a'r *gate*." Gweinyddodd yn y modd mwyaf tyner a serchog arni yn ystod ei gwaeledd am y ddwy flynedd olaf o'i hoes; a thrwm oedd ei hiraeth am dani wedi i adeg ei hymddattodiad ddyfod i ben. Ac i ddangos ei nodweddion meddyliol yn ogystal a serchogrwydd ei chalon, dichon nas gellir gwneyd yn well na dyfynu yr hyn a ysgrifenwyd ganddi ychydig ddyddiau ar ol marwolaeth ei mam mewn llyfr y cofnodai ynddo y pregethau a wrandawai yn ogystal a'i theimlad ei hun ar amrywiol adegau:—

"Cefais rhyw oleuni rhyfedd ar y geiriau, 'ffordd yr holl ddaear:' ac eto mor gul yw'r llwybr! Fy nghysur penaf yw athrawiaeth yr adgyfodiad. Ni feddyliais fawr am dani hyd yr amgylchiad hwn; ond O! mor dda genyf erbyn hyn ei bod yn bod. Y gobaith o wel'd fy anwyl fam eto yn ei chorff ei hun! Teimlwn nad oedd yr ysgariad ond am ychydig amser nes caem gyfarfod eto. Llawer cyfarfod hapus a gawsom ar y ddaear. Fel y byddai yn lloni wrth fy ngweled bob amser! Yn Awst, 1879, bu yn Nhrefriw. Aeth yno ei hunan, ond bu raid iddi anfon am danaf; ac O fel yr oedd yn lloni wrth fy ngweled! Mae fy nychymyg gwael yn peri i mi feddwl fod hwnw yn rhyw gysgod o'r cyfarfyddiad y tro nesaf, ond yn fwy tebyg iddo Ef. Nis gallaf lai na theimlo ei bod yn awr yn cario calon mam yn ei mynwes tuag at fi. Dichon fod hyny yn anmhriodol; ond y mae y meddwl yn rhoi rhyw gysur i mi yn fy hiraeth. Gofynais iddi ddydd Sadwrn, a wnai hi gofio am danaf yn y nefoedd, ac addawodd hithau y gwnai. Wrth addaw rhywbeth mewn bywyd ac iechyd, arferai ddyweyd na byddai iddi dori ei gair; ac yr wyf yn rhyw dybied ei bod yn parhau yr un yn y 'cwmwl tystion.' Yr wyf yn ofni yn fynych fy mod wedi myned trwy yr amgylchiad difrifol heb ystyried ac heb ofyn yn iawn i'm Tad nefol am y fendith y dymunai fy anwyl fam i mi ei chael. Yr wyf yn cael fy meddiannu â rhyw hyder yn Nuw,—fy mod yn ei law, nes ofni ar brydiau mai twyllo fy hun yr ydwyf. Ond y mae yn dda iawn genyf gael cyflwyno fy hun i'w ofal; ac yr wyf yn teimlo rhyw ddiogelwch ar ol gwneyd hyny. Fy nymuniad yw rhoi fy hunan iddo yn y presennol, ymddiried iddo am y dyfodol, a phwyso ar ei gadarn allu am dragywyddoldeb."

Bu farw Mrs. Humphreys yn Mai, 1880; ac yn fuan wedi hyny priodwyd Miss Humphreys â'r Parchedig William Thomas, yr hwn oedd ar y pryd newydd symud o Lanuwchllyn i'r Dyffryn. Yn Medi, yr un flwyddyn, gadawodd yn llwyr yr ardal y ganesid ac y magesid hi, a symudodd i fyw yn yr ardal y treuliasai ei hybarch dad ei oes ynddi, oddigerth y pum' mlynedd diweddaf o honi. Rhoddwyd iddi dderbyniad siriol yn y Dyffryn er mwyn ei thad, a dyfnhaodd yr hoffder tuag ati pan y gwelwyd ynddi mor amlwg rai o'i nodweddion arbenig ef. Ymdaflodd ar unwaith i'w gwaith fel gwraig i weinidog yr efengyl. O'r blaen yr oedd yn byw i fod yn wasanaethgar i'w mam, er yn gwneuthur llawer o waith mewn cylchoedd eraill; o hyn allan ei hamcan mawr oedd bod yn bob cynnorthwy dichonadwy i'w phriod i gyflawni y gwaith pwysig a ymddiriedasid iddo. A daeth trwy ei synwyr a'i sirioldeb yn fuan yn dra phoblogaidd: ond yr hyn a wnaeth yr argraff ddyfnaf ar bawb a ddaethant i gyffyrddiad â hi oedd ei chrefyddolder dwfn. Fel merch ieuanc bu ei hymddygiad bob amser yn harddwch i'r athrawiaeth a gredid ac a broffesid ganddi. Gwyddai pa fodd i fod yn siriol heb ymollwng i ysgafnder cellweirus; ac fel gwraig ieuanc yn y Dyffryn dangosodd grefydd Iesu Grist yn ei bywyd a'i hymarweddiad yn ei gwedd fwyaf deniadol. Yn ei hymweliadau âg aelodau yr eglwys a'r gynnulleidfa, arweiniai yr ymddyddan gyda naturioldeb perffaith ac yn nghanol y sirioldeb mwyaf dymunol at bethau mwyaf ysbrydol crefydd; a byddai yn ofid calon iddi os dygwyddai weithiau i'w hymweliad derfynu heb gyrhaedd y cysegr a'r allor. Ac yn ei chymdeithas â'i chyfeillion ymlithrai yr ymddyddan yn naturiol at ryw faterion sylweddol a gwerthfawr.

Yn fuan amlhaodd ei dyledswyddau teuluaidd, ac ni fynai mewn un modd eu hesgeuluso; ond parhaodd yn gwbl ffyddlawn ar yr un pryd i'r cyflawniad o'i dyledswyddau eraill. Yr oedd yn hynod gydwybodol yn ei holl ymddygiadau; ac ofnai rhag rhoddi lle i neb dybio ei bod yn esgeuluso unrhyw ddyledswydd. A chanlyniad o hyn ydoedd iddi fynet i'r capel ugeiniau o weithiau pan oedd sefyllfa ei haelwyd yn galw am iddi aros gartref. Felly, gan barhâu yn gyson a difwlch yn y cyflawniad o ddyledswyddau cyhoeddus gweithiodd yn galed yn ei theulu, heb esgeuluso i'r gradd lleiaf addysgiaeth a meithriniad ysbrydol ei phlant yn amlder ei gofalon gyda phethau mwy daearol.

Yn Ionawr, 1888, symudodd ei phriod a hithau i Bwllheli; ac yno hefyd daeth ar unwaith yn hynod boblogaidd a chymeradwy. Edrychai ymlaen yn adeg y symudiad at lawer o flynyddoedd o ddefnyddioldeb; ond nid ein ffyrdd ni yw ffyrdd Duw. Ar y 26ain o Fehefin, 1889, galwyd hi oddiwrth ei gwaith at ei gwobr.

Yr oedd ein hanwyl chwaer, fel y dywedwyd eisoes, bob amser yn wir grefyddol; ond ar yr un pryd heb gyrhaedd profiadau uchel na mwynhau yr hyn a elwir yn "sicrwydd gobaith." Byddai yn methu gwybod, weithiau, pa beth i'w wneyd o'r "sicrwydd" a gyrhaeddir mewn pum' mynyd, ac a gollir drachefn yn fynych yr un mor ebrwydd. A byddwn mewn anhawsder cyffelyb hefyd gyda'r "sicrwydd" yr ymorfoledda ambell un yndd0 yn barhaus, ei fod yn ei gymeriad yn llawer mwy carpiog na'r petrusgar sydd yn ei ymyl. Nid ydym yn gallu credu y dylai dyn foddloni i fyw mewn ansicrwydd am y peth mwyaf ei bwys. Y mae yn ddiau yn beth i ymestyn ato gyda difrifwch. Ond fel y dywedai y diweddar Barchedig David Davies, Abermaw, "Ara' iawn y mae yr hên Fethodistiaid yma yn gwneyd *sum* bywyd tragywyddol: ffigiwr yrwan, a ffigiwr yn y man, yn hynod annyben; ond y mae nhw yn bur siwr o'r *total* yn iawn yn y diwedd." Felly y bu, pa fodd bynag, gyda ein hanwyl chwaer. Cyrhaeddodd cyn y diwedd i dir Beulah, i olwg y ddinas nefol. Yn ei chystudd diweddaf dywedai, "Wn i ddim p'le y cychwynais i, ond yr wyf wedi cael digon am byth." Adeg arall, pan y ceisiodd ei phriod ei chynnal â rhyw addewid werthfawr, cwynai ei bod yn methu cymeryd gafael mewn dim, ond ar yr un anadl gofynai iddo, "A oes pennill tebyg i hyn?

'Rho nerth i'th garu 'n fwy,
O Arglwydd Iesu;
Rho nerth i'th garu 'n fwy,
Hyn yw fy ngweddi.'

Yr wyf yn meddwl i mi glywed y plant bach yn ei ganu. Yr wyf finnau yn ceisio ei weddïo bob dydd."

Deallodd ddyddiau cyn ei hymadawiad ei fod gerllaw; a chroes drom iddi, croes drymaf ei hoes, oedd gadael ei phriod gyda chwech o blant,—yr hynaf yn wyth mlwydd oed a'r ieuengaf yn bum' mis oed—ond cafodd nerth i'w ohodi yn dawel ac ewyllysgar. Medrodd ddyweyd yn groew, "Dy ewyllys di a wneler." Tra y bu gyda'i phlant bu yn ddiwyd i'w haddysgu, gan eu casglu yn fynych o'i hamgylch, a phlygu ei gliniau gyda hwy i weddïo drostynt, ac i'w cyflwyno i'r amddiffyn a'r arweiniad dwyfol; a phan y daeth yr adeg i farw medrodd ollwng ei gafael o'i phriod a hwythau mewn perffaith hunanfeddiant, gan adael y cwbl yn ngofal y Tad yn y nefoedd yr oedd bellach mewn cwbl sicrwydd ei bod hi ei hunan yn mynedato. Y nos Sabbath diweddaf y bu byw canodd ar ei hyd gyda theimlad dwys yr hen bennill,

"Dyma Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;
Dyma un sy 'n caru maddeu
I bechaduriaid mawr eu bai;
Diolch iddo,
Byth am gofio llwch y llawr."

Drannoeth dywedai yn sydyn, "Y mae Williams wedi canu yn ardderchog am y nefoedd; ond dim byd wrth yr hyn a welais i yrwan. 'Yr Oen yn nghanol yr orseddfainc!' O, *grand!*" Cynghorai ei phriod trist i ymddiried yn yr Arglwydd,—ei fod Ef yn siwr o ofalu am y plant. "Y mae llawer iawn yn y Bibl," meddai, "i blant amddifaid. Braint fawr ydyw bod yn blentyn amddifad. Plentyn amddifad oeddwn innau; ac oni buasai am hyny nid wyf yn credu y buaswn wedi dyfod i adnabod yr Iesu. Cofiwch pa beth y mae y Duw mawr wedi ei wneyd,—anfon ei Fab, y tragywyddol Fab, i farw dros y byd, a chwithau yn petruso ymddiried chwe' phlentyn bach i'w ofal!" Y dydd olaf y bu byw soniai lawer iawn am ddarostyngiad y Mab; ac oddiwrth ei ddarostyngiad ymgodai yn naturiol at ei ddyrchafiad. Bu farw yn gryf, fel pe yn gweled gogoniant Duw, a'r Iesu yn sefyll ar ei ddeheulaw. "Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch Ef." Ac i'n golwg ni y mae ymadawiad ein chwaer yn dra anhawdd ei ddeall; ond y mae hi eisoes wedi esgyn i wlad y goleuni pur. Ein dyledswydd ninnau ydyw credu yn y tywyllwch fod "pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw."

Rhoddwyd ei gweddillion marwol i orwedd yn y fynwent gerllaw capel y Dyffryn, ddydd Sadwrn, y 29ain o Fehefin. Yn yr hen fynwent yn ochr y capel y gorwedd gweddillion ei thad; ond er ys blynyddoedd bellach y mae hwnw yn gauedig. Yn y fynwent newydd y gorphwysa llwch y Parchedig Edward Morgan a'i anwyl briod, ac yma hefyd y mae yr hyn sydd farwol o Mrs. Thomas, Llanerchau. Cysegredig yw y rhai hyn. Ni buom erioed yn agos iddynt heb deimlo hiraeth calon am yr anwyliaid sydd yn gorwedd yn ddynt. Ac o'n calon yr ydym yn uno yn iaith Mr. Rees Roberts, Harlech, yn Nghofiant Mr. Humphreys, gyda golwg ar y rhai a orweddant yn yr hen fynwent a'r newydd:—"Heddwch i'w lwch,—y mae ei ysbryd wedi dianc i'r 'anneddle lonydd' nad aflonyddir byth arno; ond y mae ei gorff eto yn aros yn mysg y pethau a ysgydwir; ac er fod ei lwch yn rhwymyn y cyfammod, er hyny y mae wedi ei ddodi mewn daear ag sydd yn ddarostyngedig i gynhyrfiadau mawrion ac amrywiol; a phe gallwn, mi ffrwynwn yn dŷn bob rhuthr chwyldröadol mewn teyrnasoedd a holl gynhyrfiadau naturiol anian, a ddeuant yn agos i'r fan. Ië, y mae genyf y fath barch i'w enw a'i goffadwriaeth fel y tyn gweddw y ddaear gryn ei hunan, pe meddwn awdurdod, ar iddi siglo yn esmwyth y llanerch lle y gorwedd gweddillion Richard Humphreys."

Y DIWEDDAR MR. WILLIAM JONES, FARM YARD, BRYNSIENCYN, MON.

Gan y Parch. JOHN WILLIAMS, *Brynsiencyn.*

GANWYD gwrthddrych yr ychydig adgofion hyn rywbryd yn y flwyddyn 1800, mewn tŷ o'r enw y Berth, yn agos i Llysilew, yn mhlwyf Llanidan, Môn; ac yn yr ardal hon y treuliodd ei oes ar ei hyd. Yr oedd yn ŵr-ŵyr i Hugh Griffith, Llanddaniel, yr ail bregethwr fu gan y Methodistiaid Calfinaidd yn Môn. Daeth Hugh Griffith i Fôn o Leyn rhwng y fl. 1745 a 1750, oblegid yn 1745 y daeth William Prichard, Clwchdernog, i Fodlew o Blas-Penmynydd, ac arosodd yn Bodlew hyd 1750. Ymddengys fod Hugh Griffith yn adnabod William Prichard cyn i'r olaf orfod symud o Leyn i Fôn dan erledigaeth lem yn 1742. Cyfarfu Hugh Griffith âg erledigaeth gyffelyb, a phenderfynodd ffoi am nodded o dan gronglwyd William Prichard. Hyny a wnaeth; ac ymddengys iddo gael derbyniad croesawgar gan William Prichard, ac yn fuan cafodd dyddyn o dir yn Llanddaniel, o'r enw y Benlas, yn yr hwn y bu fyw am weddill ei oes. Dan ei weinidogaeth ef yr argyhoeddwyd Michael Thomas, Garnau Wen, yr hwn hefyd a berthynai i'r tô cyntaf o bregethwyr Môn. Clywsom William Jones yn dyweyd lawer gwaith mai ei hen daid, yr Hugh Griffith uchod, a gyfansoddodd yr emyn adnabyddus hono,—

> "Dacw 'r deg gorchymyn pur,
> Ar Galfaria, &c."

Y mae yn ddyddorol edrych yn ol at yr adeg y ganwyd William Jones fel adeg neilltuol yn y Bryn a'r cymydogaethau ynglŷn â chrefydd. Nid oedd ond 14 mlynedd er pan adeiladwyd y capel cyntaf yma. Nid oedd yr un capel yn y Dwyran am 14 mlynedd ar ol hyn. Y prif swyddog yma y pryd hwnw oedd Owen Jones, Cwyrt, Llangeinwen. Trefn y daith fyddai Gaerwen (boreu), Niwbwrch, a'r Bryn. Byddai Owen Jones, Cwyrt, yn myned i gyfarfod y pregethwr bob boreu Sul i'r Gaerwen, pellder o bum' milldir, ac yn dechreu yr odfa bob amser. Yr oedd y diweddar Barch. John Parry, Caer, newydd adael y Bryn pan anwyd William Jones. Bu Mr. Parry yma yn cadw ysgol o 1794 i 1799, ac yma yn y flwyddyn 1797 y dechreuodd bregethu, pan yn ŵr ieuanc 23 oed. Ei destun cyntaf oedd Luc ii. 16. Y pryd hyn nid oedd y diweddar Barch. William Roberts, Amlwch, ond bachgen ieuanc 16 oed, ac ni ddechreuodd bregethu am saith neu wyth mlynedd ar ol hyn. Newydd dd'od i Fôn y flwyddyn flaenorol yr oedd yr enwog John Elias, ac nid oedd efe ond pedair neu bum' mlwydd oed o bregethwr.

Yr oedd William Jones yn cofio yr Ysgol Sul yn cychwyn yn Brynsiencyn, a bu yn y gyntaf; yr oedd hyn yn y flwyddyn 1806. Yr oedd y diweddar Barch. David Jones y Dwyran yno yn holi plant; nid oedd wedi dechreu pregethu yr adeg yma; a chanddo ef y clywodd William Jones son am uffern gyntaf erioed: ac ymddengys nad anghofiodd byth y desgrifiad ofnadwy a roddodd David Jones o'r lle poenus hwnw. Dyma yr argraff grefyddol gyntaf a wnaed ar ei feddwl; ac nid ymddengys i'r dwysder a'r sobrwydd gynnyrchwyd gan ddesgrifiad David Jones byth ei adael. Yn y flwyddyn 1818 yr oedd mewn Sassiwn yn Bangor; a chlywsom ef yn dyweyd iddo weled Cadwaladr Owen yn neidio ac yn gorfoleddu ar ganol y maes, ac iddo ei adnabod ymhen blynyddoedd wedi hyn wrth ei weled yn pregethu yn Brynsiencyn. Gwas ffarm ydoedd yr adeg yma yn yr Allt, Llangaffo, gyda Mr. John Hughes, taid y diweddar Mr. John Hughes, Llysilew. Anfonwyd ef adref brydnawn dydd y Sassiwn gan ei feistr, i hysbysu yr ardal y byddai Mr. Roberts, Amlwch, yn pregethu y noswaith hono yn y Bryn. Daeth Mr. Roberts, a phregethodd yn rymus anarferol oddiar y geiriau, "*A'r llyfrau a agorwyd.*" Dyfnhäodd y bregeth hon yr argraffiadau blaenorol ar feddwl William Jones; a bu mewn pryder ofnadwy am ei gyflwr am rai blynyddoedd. Yr oedd yn ofni myned i'r seiat, gan yr ystyriai "bobl y seiat" yn rhai mor bur a duwiol fel nad oedd ef yn deilwng i fod yn eu cymdeithas. Bu yn y bregeth gyntaf erioed a bregethwyd yn y Dwyran, a Thomas Jones, Llanddaniel, a bregethai. Mae yn amlwg y byddai yn myned i bob capel yn yr ardal i wrando ar bregethau, a dilynai yn zelog bob gŵr dyeithr a ddeuai i'r fro. Rywbryd yn y fl. 1822 cynnelid Cyfarfod Pregethu yn Niwbwrch, ac yr Mr. Roberts, Amlwch, yno yn pregethu. Cadd Mr. Roberts odfa anarferol yno, odfa neilltuol hyd yn nod iddo ef. Teimlai William Jones gymaint fel y methodd a pheidio gwaeddi allan am ei fywyd, er nad oedd efe eto yn aelod eglwysig. Penderfynodd yr elai i gyfarfod Mr. Roberts ar draws y caeau pan y byddai yn dychwelyd o Niwbwrch, er mwyn cael rhyw gysghor ganddo. Gwnaeth hyny, a chadd amryw gynghorion gwerthfawr; ymhlith pa rai yr annogaeth am iddo fyned i'r seiat mor fuan ag y gallai. Yr oedd yntau yn gweled ei hunan mor ddrwg, a phobl y seiat mor dda, fel y crynai ac yr arswydai wrth feddwl am gynnyg ei hunan iddynt. Yr oedd drannoeth fel dyn wedi hanner dyrysu; yr oedd yn gweled colledigaeth yn agor ei safn arno ymhob man; ac yntau yn gwaeddi yn fynych fel Paul, "Ys truan o ddyn wyf fi, pwy a'm gwared oddiwrth gorff y farwolaeth hon?" Modd bynag, ar un o gaeau Gwyddfryn Newydd, yn ymyl rhyw graig yno, penderfynodd fyned ar ei liniau; ac mewn amrantiad dyma yr adnod hono yn tywynu ar ei feddwl, "A'r hwn a ddêl ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim." Yr oedd seiat yn y Bryn y noswaith hono; yn wir, yr oedd wedi dechreu pan y cymerodd hyn le wrth y graig. Penderfynodd ar unwaith y mentrai fyned yno deued a ddeuai, ac yno yr aeth, er ei bod yn hanner y cyfarfod pan y cyrhaeddodd. Cafodd dderbyniad siriol, ac yno y bu yn addurn i'w broffes ar hyd ei oes. Galwyd ef yn swyddog gan yr

eglwys yn y flwyddyn 1845, gyda'r diweddar Mr. John Roberts, Shop. Gwasanaethodd swydd diacon yn dda yma, ac yn Cefn bach, am 42 mlynedd.

Yr oedd William Jones yn ŵr duwiol iawn; yn gymaint felly ag i haeddu yn gyflawn ychydig o ofod y Drysorfa i wneyd ychydig sylwadau arno. Cyffredin oedd o ran ei amgylchiadau ar hyd ei oes, eto yn gysurus a chlyd arno; cyffredin oedd hefyd o ran ei alluoedd meddyliol; ond yr oedd yn anghyffredin o herwydd ei grefydd a'i dduwioldeb. Ni chawsom erioed y fraint o adnabod Cristion purach, gloewach, ffyddlonach, na William Jones. Yr oedd yn gymaint felly fel nas gallai neb dynion gyfeirio at yr un diffyg yn ei gymeriad. Ac yr oedd rhai nodweddion yn arbenig yn ei hynodi fel crefyddwr. Yn un peth, yr oedd ei barch i dŷ yr Arglwydd ac ordinhadau crefydd yn fawr dros ben. Credwn fod hwn yn un o'r pethau mwyaf *real* mewn crefydd; mae yn rhaid cael mwy i'w gyn nyrchu na lliaws o bethau eraill mwy trystfawr. Gwelir ambell un â'i deimlad yn hawdd ei gyffwrdd a'i ferwi, a da yw cael hyn; ond ni byddwn yn gallu ei ystyried o werth teilwng ei gymharu â'r dyn ag y mae "edrych ar brydferthwch yr Arglwydd ac ymofyn yn ei deml," wedi cynnyrchu dwysder a pharch dwfn ynddo at bob peth crefydd. Cannoedd o weithiau y clywsom yr hen frawd yn dyweyd y gair hwnw, "Sancteiddrwydd a weddai i'th dŷ, O Arglwydd, byth" Dywedai yr adnod hon yn fynych mewn cysylltiadau na buasai neb yn dysgwyl ei chlywed; er engraifft, pan y gofynid iddo ddyweyd gair yn y seiat nos Sul, beth bynag fyddai y bregeth, i ba gyfeiriad bynag y byddai ei anerchiad, odid fawr nad yr adnod uchod fyddai yn cychwyn ei gyfarchiad. Nid oedd hyn yn rhyfedd, oblegid dyma adnod ei grefydd; ac y mae rhyw adnod yn nodweddiadol o grefydd pob dyn. O'r parch hwn y cyfodai ei ofal am, a'i bryder dros weinidogion y gair: canys ni byddai yr un pregethwr byth yn esgyn i bulpud y Bryn na byddai William Jones wedi bod yn gweddïo drosto. O'r parch hwn hefyd y cyfodai ei ffyddlondeb i ddylyn y cyfarfodydd crefyddol. Bu yn dra ffyddlawn, tra y gallodd, yn yr holl dŷ. Nid esgeulusai unrhyw gyfarfod crefyddol, ond edrychai ymlaen atynt, a darparai ar gyfer d'od iddynt. Yr oedd pob cyfarfod yn rhy ardderchog a gogoneddus i'w esgeuluso; nid yn unig deuai iddynt er mwyn derbyn bendith, ond deuai iddynt o barch i'w gwerth a'u gogoniant ynddynt eu hunain. Ac ni welsom neb yn gwirio yr adnod hono yn well nag ef; "Dyrchafa di hi, a hithau a'th ddyrchafa di: hi a'th ddwg di i anrhydedd, os cofleidi hi." Dyrchafodd crefydd ef yn ngolwg ei feistriaid, yn ngolwg ei deulu, yn ngolwg yr ardal, yn ngolwg yr eglwys. Nid oedd neb yn y gymydogaeth can uched ei barch gan bawb o bob enwad, a chredo, a safle. Wrth gofleidio crefydd, anrhydeddwyd ef yn ngolwg pawb. Gafael yn llac mewn crefydd y mae llawer, ac felly yr ymddygir atynt hwythau; ond os bydd dyn o ddifrif gyda chrefydd, yn ei chofleidio fel ei drysor anwylaf, nis gall hwnw beidio cael ei barchu a'i anrhydeddu gan bawb. Gwnaeth crefydd ef yn llednais a boneddigaidd ymhob ystyr ac ymhob cylch: prydferthodd ei wynebpryd, arafodd ei dymher, melusodd ei eiriau, peraroglodd ei fywyd. Er na byddai byth yn dyweyd gair brwnt wrth neb, yr oedd annuwiolion y fro yn ei ofni, a segurwyr fyddai yn cyrchu i ben yr heolydd yn cilio o'i ŵydd.

Peth arall hynod yn ein hen frawd, ydoedd ei fod yn weddïwr mawr. Nid oedd yn weddïwr doniol nac yn weddïwr hwyliog, ond yr oedd yn weddïwr mawr. Yr oedd ei glywed yn cyfarch ei Waredwr yn argyhoeddi pob calon fod cariad ato yn goleuo a gwresogi ei holl ysbryd; "O Iesu anwyl," meddai, ac ambell waith dyblai y gair olaf. Gweddïai ymhob man y caffai hamdden a chyfleusdra. Eto yr oedd ganddo adegau a lleoedd arbenig i hyny. Ni byddai byth yn esgeuluso y ddyledswydd deuluaidd; bu am yspaid 35 mlynedd, os ydym yn cofio yn iawn, heb fwlch o gwbl; ond un boreu pan yr oedd yn gweithio yn Sir Gaernarfon, ac wedi cysgu yn lled hwyr, ofnodd nas gallai gael amser y boreu hwnw heb golli rhan o'i ddiwrnod, a'r hyn oedd bwysicach yn ei feddwl, syrthio yn meddwl a barn ei feistriaid. Felly cychwyn odd heb y ddyledswydd, ond teimlodd yn fuan fel pe buasai rhyw amddiffyn wedi ei gymeryd ymaith; a bod yr holl elfenau megys yn ei erbyn; aeth i'r fath gyfyngder, fel y gorfu arno fyned i hen chwarel ar ei ffordd i gadw "dyledswydd" wrtho ei hun; ac ar ol hyny ca'dd rwyddineb a thawelwch i fyned ymlaen. Y blynyddoedd olaf o'i fywyd yr oedd yn aros gyda'i ferch a'i fab yn nghyfraith yn y Farm Yard, a byddai yn arfer er ys blynyddau fyned i'r ysgubor yn ymyl y tŷ dair gwaith bob dydd i weddïo. Byddai yn myned i mewn yn wylaidd a dwys: tynai ei het oddiar ei ben, a cherddai yn araf i fangre neilldiol yno, a disgynai ar ei ddeulin ar yr un llecyn bob amser; a dywedir fod ôl ei liniau yn disgyn yno, am amser wedi ei gladdu. Gweddïai dros ei gymydogion, dros ŵŷr mawr y fro, dros ei deulu, a throsto ei hun. Gweddïai dros lawer wrth eu henwau. Nid yw ei weddïau wedi eu hateb ar ran amryw eto; ond yr ydym yn dysgwyl y gwneir.

Peth arall hynod mewn hen ŵr o'i oedran ef oedd ieuenctyd ei ysbryd. Mae crefydd ambell un fel pe buasai yn myned yn hen gyda'r dyn: rhyw anhunedd ac anniddigrwydd yn eu meddiannu; canmolant y dyddiau a fu; ac nid oes dim yn ei le yn awr. Nid oedd dim felly yn yr hen frawd: byddai yn dygymmod yn rhwydd â phob cyfnewidiad, os na byddai hyny yn peryglu urddas crefydd. Yr oedd mor deyrngarol i'r Cyfarfod Misol y blynyddoedd olaf y bu fyw, â'r blynyddoedd cyntaf wedi ei dderbyn yn aelod o hono. Cafodd yr ardal hon golled ddirfawr ar ei ol; bu yn foddion i ddyrchafu crefydd a moes yn ngolwg yr ardalwyr. Fel y cyfeiriasom, yr oedd yn trigiannu gyda'i ferch a'i fab yn nghyfraith

er ys amryw flynyddoedd, ac wedi derbyn blwydd-dâl gan Arglwydd Boston yn gydnabyddiaeth o'i ffyddlondeb fel garddwr yn ei wasanaeth ef a'i hynafiaid er ys degau o flynyddoedd. Ni ddisgynodd coelbren hen ŵr erioed i fan mwy cysurus na'r eiddo ef i gael bod yn y Farm Yard. Yr oedd yn cael llonyddwch i feddwl a darllen, a gweddïo faint a fynai; ac yn cael gofalu am dano fel pe buasai frenin; o ran hyny dyna ydoedd; un o freninoedd y byd a ddaw. Ac heblaw teimlad naturiol hoffus iawn ato fel tad, yr wyf yn credu fod ei deulu caredig yn gwerthfawrogi eu braint o gael gwneyd pob cymwynas a allent iddo fel un o "deulu Duw," ac o etifeddion y nefoedd. Yr oedd wedi claddu ei briod er ys wyth mlynedd; yr oedd hithau hefyd yn un o ragorolion y ddaear; yr oedd bob amser yn cynllunio pob peth i hyrwyddo y ffordd i'w phriod i wneyd ei ran gyda chrefydd; a diammheu nas gallasai ei oes ef fod mor loew a gwasanaethgar, oni buasai am grefyddoldeb a meddylgarwch ei briod. Llesgaodd ei nerth yn lled sydyn, ac ni bu ei afiechyd diweddaf ond cymharol fyr. Bu farw fel y bu fyw; heb hôni pethau mawrion; ond ymddiried yn dawel yn y Duw y rhoddasai ei hun iddo yn ei Fab er ys tringain mlynedd. Dydd ei ymddattodiad oedd Hydref 13eg, 1887, a cha'dd gladdedigaeth o'r fath barchusaf ar y 18fed. Amddiffyn y Nef a fyddo dros ei hiliogaeth ar ei ol!

Dlodion.

GEIRIAU Y DOETHION.

Y MAE y llen sydd yn cuddio y dyfodol wedi ei gwau gan law trugaredd.

Y mae yr hwn sydd yn gyfaill i bawb yn dlawd iawn neu yn gyfoethog iawn.

Peth gwael fyddai ein dynoliaeth, oni b'ai y dwyfol sydd yn gweithio o'n mewn.

Y mae ffordd o'r dyfnder isaf ar y ddaear i'r uchder mwyaf.

Wrth edrych ar Grist ni a ddeuwn i edrych yn debyg i Grist. Arferai Syr Joshua Reynolds, yr arlunydd enwog, ddyweyd: "Ni byddaf yn edrych ond ar y darluniau goreu. Y mae darlun drwg yn dyfetha fy llygaid."

Y mae portread yn fwy o brawf ar yr arlunydd nag ar y gwrthddrych.

Os yw ein trysor ar y ddaear, yr ydym yn myned oddiwrtho; os yn y nefoedd, yr ydym yn myned ato.

Cronicl Cenadol.

Llydaw.

LLYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. W. JENKYN JONES.

Quimper, Ionawr 7, 1890.

GYDA llawenydd y cymeraf fy mhin ysgrifenu i fyny heddyw, ar ddechreu blwyddyn newydd, i roddi i chwi ychydig o newydd ion ein Cenadaeth.

Er fod cwmwl du wedi tori arnom drwy farwolaeth ein hanwyl fam oedd yn fynych yn gweddïo dros achos yr Iesu yn Llydaw, ac yn dal ein breichiau i fyny, rhaid i ni addef fod edrych dros y flwyddyn yn ein llenwi â llawenydd a gobaith. Ni welodd Llydaw Fethodistaidd yn sicr flwyddyn i'w chystadlu â hi mewn llwyddiant allanol; a goddefwch i mi wrth basio ddywedyd fod nifer blynyddoedd ein *Cenadaeth* lawer yn llai nag y cyfrifir hwynt, oblegid am flynyddoedd lawer *ni wnaed dim gwaith Cenadol*. Ein hamcan heddyw yw rhoddi i chwi ychydig o'r hyn a welsom ac a glywsom ar derfyn eithaf y flwyddyn.

Ar Ddydd Nadolig derbyniasom at fwrdd yr Arglwydd yn Quimper ac yn Douarnenez, bump o'r newydd, oll mewn oedran ac yn briod, heblaw tri eraill o blant aelodau. Yn ychwanegol at y dychweledigion a dderbyniesid o'r blaen, yr oedd dau o Bont-l'Abbé yn cymuno gyda ni yn Quimper. Gwraig y Biblgludydd o Bont l'Abbé oedd un o honynt; bu yn aros ar y trothwy am beth amser, ond bellach dyma y teulu yn gyfan, a chaiff eu merch fechan ei haddysgu ganddynt yn egwyddorion y grefydd Brotestanaidd. Mab ydyw y llall i henafgwr a dderbyniwyd genym yn ystod y flwyddyn; y mae yn ddyn ieuanc meddylgar ac o rodiad dichlynaidd. Buont ill dau yn wrandawyr cyson am flynyddoedd, a phenderfynasant o'r diwedd fwrw eu coelbren gyda phobl yr Arglwydd. Yn Quimper hefyd y derbyniwyd dau o'r rhai ieuainc.

Yr un dydd rhoddwyd y cymundeb yn Douarnenez am y tro cyntaf erioed. Yr oedd un ar ddeg wrth y bwrdd, a chredwn yn sicr fod y Meistr ei hun gyda ni. Mewn cyfarfod bychan a gynnaliwyd un o'r Sabbothau cynt i ymddyddan â'r cyfeillion oedd yn dymuno cael eu derbyn i'n plith, cawsom brofiad o rywbeth neilluol; yr oedd yno un henafgwr yn wylo fel plentyn, a methai Mr. Groignec fyned ymlaen ar weddi; yr oedd gweddïo yn hawdd, er fod geiriau gweddi yn brin. Cawsom brawf fod yr Arglwydd yn foddlawn i'r gwersyll symud, ac yr oedd ein calonau yn llosgi ynom o lawenydd. "Meddiannwn y wlad" oedd teimlad a phenderfyniad yr holl frodyr yno. Ar y dydd crybwylledig cawsom y fraint o dderbyn tri mewn oed a mab Mr. Groignec, am y tro cyntaf at fwrdd yr Arglwydd yn ein hystafell Genadol yn Douarnenez. Tri o bysgotwyr ydynt, fel y dysgyblion cyntaf, ac y maent yn zelog, ac wedi dangos eisoes na wna erlidigaethau eu troi yn ol. Y maent hwythau yn briod,

a dau o honynt yn meddu teuluoedd llïos og. Y maent yn mynychu ein cyfarfodydd er ys blynyddoedd, yn ddynion craffus i ddal ar y gwirionedd, ac y mae y gwirionedd wedi newid eu buchedd. Yr oedd un o honynt yn neilldiol yn adnabyddus am ei hoffder o'r cwpan, ond y mae ei fywyd erbyn hyn yn esiampl i'w gydbysgotwyr, a'r cyfnewidiad yn ei rodiad ef ac eraill yn argraffu ar feddyliau y bobl mai rhai gonest a sobr yn unig sydd yn cael eu derbyn yn Brctestaniaid. Y mae y gwirionedd yn dechreu lefeinio cymdeithas yn y lle; siaredir llawer am bethau crefydd yn nghonglau yr heolydd, ac yn y cychod pysgota, ac y mae syniadau y bobl yn dyfod yn fwyfwy ffafriol i Brotestaniaeth. Fel canlyniad o hyn, ymosodir mwy ar y rhai sydd yn mynychu ein cyfarfodydd; y mae y gelynion yn cynddeiriogi. Dywedai yr offeiriad o'r pulpud yn ddiweddar ei bod yn well i rieni adael i'w plant fyned i dai llygredig nag i'w gadael i ddyfod i'r ysgtafell genadol; ond cafodd ar ddeall drwy edrychiadau ei wrandawyr nad oeddynt hwy o'r un farn ag ef. Cynnelir pedwar o gyfarfodydd yma bob wythnos, o ba rai y mae tri yn gyhoeddus, a mynychir hwynt gan gynnulleidfaoedd llïosog. Y mae ein cyfarfodydd yn Pont l'Abbé hefyd yn bobl ogaidd—yn fwy felly nag erioed, a chynnelir yno bump o gyfarfodydd bob wythnos. Bu ein cyfarfodydd yn Quimper am beth amser yn llai llïosog, oblegid dylanwad y blaid *glerigol*, ond y mae arwyddion eisoes fod y dylanwad hwnw yn lleihau.

Wrth ysgrifenu am Douarnenez, dylaswn grybwyll am un arall—merch ieuanc fu yn dilyn ein cyfarfodydd a'n amser, ac a ddyoddefodd o'r herwydd—a dderbyniwyd i gymundeb yn Brest ar ddiwedd y flwyddyn; felly dyma chwech yr un adeg, oblegid un o honom ni ydyw hi. Y dyddiau diweddaf yma cefais fy llonì wrth glywed am dröedigaeth dyn ieuanc fu yma yn filwr beth amser yn ol. Wedi dychwelyd adref i ymyl Bordeaux, cymeryd ef yn glaf. Yn lle galw yr offeiriad, anfonodd am y gweinidog Protestanaidd, a thrwy ddarlleniad o'r Bibl, cafodd o hyd i'r gwirionedd, daeth yn glir arno am fater ei enaid, a bu farw mewn gorfoledd. Yn Quimper, y mae yn ymddangos, yr hauwyd yr hedyn. Wrth ddarllen traethodau bychain a roddasid i blant y tŷ lle yr oedd yn aros y gwnaed yr argraffiadau cyntaf ar ei feddwl; cafodd Duw ynddo dyst i ddangos beth all yr efengyl ei wneyd mewn byr amser. Aeth ei hanes drwy yr holl wlad, a chafodd gladdedigaeth dywysogaidd, a phwy a ŵyr beth all ddeilliaw o'r amgylchiad?

Drwy garedigrwydd Cymdeithas y Traethodau Crefyddol (Llundain) galluogwyd ni yn ystod y gauaf hwn i ranu oddeutu deugain mil o draethodau bychain yn ein gwahanol orsafoedd. Ymwelir â'r tai, a rhenir hwynt yn ddibrin, a derbynir hwynt gyda pharodrwydd. Yr ydym eisoes wedi rhanu miloedd o honynt, a chan eu bod oll yn darawiadol ac argyhoeddiadol, dysgwyliwn y gwnant lawer iawn o lês.

Diolched Cymru i Dduw gyda ni yn yr amlygiadau o'i foddlonrwydd i'n llafur, a bydded i lawer o weddïau mwy taerion esgyn i fyny am ragor eto o lwyddiant ar ei deyrnas yn y wlad hon er achubiaeth miloedd o Lydawiaid yn y blynyddoedd dyfodol. Ein gweddi barhaus ni ydyw, "O anadl, tyred."

DOSBARTH SHILLONG.

Llythyr oddiwrth y Parch. T. Jerman Jones.

AGORIAD CAPEL MYLLIM.

Shillong, Tach. 25, 1889.

Mae y capel y darfu i eglwys Myllim wneyd eu goreu i'w adeiladu, erbyn hyn wedi ei orphen. Yr oeddem yno am Sabboth y mis diweddaf yn ei agor. Mae yn sefyll ar fryn wrth ochr y ffordd fawr, rhwng Cherra a Shillong, a saif y bryn hwn yn nghanol y pentref, ac felly y mae yn hollol gyfleus i'r trigolion. Rhan o ardd yw y tir y mae yn sefyll arno. Yr oedd y cyfeillion wedi gwneyd eu meddwl i fyny mai yn y fan hon y rhaid i'r capel gael ei adeiladu. Hen wraig oedd perchenog yr ardd; yr oedd hi yn casâu Cristionogaeth, ac ni fynai ar un cyfrif son am gael capel mewn rhan o'i gardd. Bu y cyfeillion am fisoedd yn myned ati i siarad â hi, ond i ddim dyben; a chyda cheisio ei pherswadio â geiriau, yr oeddynt yn fynych yn gweddïo am i'r Arglwydd agor y drws iddynt er cael lle i adeiladu y capel. Ar ol misoedd o berswadio a gweddïo a dysgwyl, fe ddaeth rhai o bobl o ddylanwad yn y pentref, ond heb fod yn Gristionogion, ymlaen i helpu yr achos, ac o'r diwedd cydsyniodd yr hen wraig i werthu darn o'r ardd am ddeg *rupee*, ac yna fe gafwyd lle i adeiladu teml i'r Arglwydd Iesu. Mae yr adeilad wedi ei wneyd oll o geryg, drws yn nghanol y talcen sydd yn gwynebu y dwyrain, a thair ffenestr ymhob ochr iddo; ei lawr o blanciau, a'i dô o wellt, a bwrdd bychan yn y pen arall ar gyfer y drws, a Thestament Khasi arno, ac o flaen hwn y saif y pregethwr i gyhoeddi efengyl y deyrnas. Fe gynnwys tua 250, neu 300 ond iddynt eistedd yn agos i'w gilydd.

Yr oedd y gynnulleidfa oddeutu 200, a chafwyd cyfarfod cysurus ar hyd y dydd. Bedyddiwyd nifer o rai newn oed a phlant yn y cyfarfod ganol dydd, a gweinyddwyd Swper yr Arglwydd. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod eglwysig, yn yr hwn y derbyniwyd pedwar i'r eglwys ar brawf, gŵr a gwraig, a nith iddynt, a merch tua 18 mlwydd oed yn dyfod o deulu nad oedd neb o honynt wedi cofleidio Cristionogaeth, na neb o honynt yn dyfod i'r ysgol i ddysgu darllen. Yr oedd y ferch hon wedi dyoddef llawer o erlid a gwawd am ddwy flynedd am ei bod yn mynu dyfod i'r cyfarfod crefyddol a dysgu darllen. Yr oedd yn dyweyd fod ei theulu yn awr, wrth weled nas gallant ei rhwystro, wedi tawelu

a pheidio dyweyd dim wrthi ffordd yn y byd. Dywedai ei bod wedi dyfod o byd i Iesu Grist yn y gair, a'i bod yn benderfynol, trwy gymhorth yr Ysbryd Glân, o lynu wrtho hyd y diwedd. Cawsom ymddyddan maith am iddynt oll ymddwyn yn addas i'r efengyl, a bod yn ymdrechgar i gael eu cydbentrefwyr at Iesu Grist, fel y byddo eu capel wedi ei lenwi yn fuan o wir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd.

Darfu i'r bobl eu hunain glirio y sylfaen, codi a chario yr holl geryg ato,—y dynion yn eu codi a'r merched a'r plant yn eu cario, a'i doi, heb dalu dim; llafur cariad ydoedd hyn oll. Costiodd yr adeilad 490 *rupees*. Casglwyd yn Myllim ei hun 207 o *rupees;* o leoedd eraill, 154 *rupees*. Felly yr oeddent yn fyr o 129 *rupees* ar ddydd yr agoriad, ac yr oeddent yn dysgwyl tua 25 *rupees* o leoedd eraill ymhen ychydig ddyddiau; felly y ddyled arno fydd y swm o 94 *rupees*, ac yr oeddent yn hyderus o dalu hyn oll cyn diwedd Rhagfyr.

Mae Myllim yn bentref mawr yn cynnwys o 300 i 400 o dai, ac efe yw y pentref pwysicaf o lawer rhwng Shillong a Cherra. Mae nifer mawr o drigolion y pentrefi o gwmpas Shillong yn dyfod o Myllim; a phan fyddant yn sâl, yno y byddant yn myned i aberthu; a phan fyddant farw, yno y cleddir eu hesgyrn ar ol eu llosgi. Mae yno domenau o esgyrn cenedlaethau wedi eu gosod dan geryg mawrion, a byddai yn syndod eu gweled. O ganlyniad, os gellid gweithio yn rymus yn Myllim, a chael achos cryf yno, fe gariai hyny ddylanwad er daioni ar nifer o bentrefi yn nghymydogaeth Shillong. Ymwelsom yr un pryd â Nongrim, Sadew, ac â Mawiong, a da oedd genym weled yr achos yn dechreu adfywio ynddynt.

KYNDIAR.

Bum y mis diweddaf yn ymweled â Kyndiar. Treuliasom noswaith yn Laitkyngkot, a chawsom gyfarfod yno gyda phlant yr ysgol ac eraill, ac yr oedd yno rai merched yn bresennol. Mae dyn o Cherra a'i wraig wedi sefydlu yno fel athrawon, ac y mae eisoes olwg gwell o lawer ar yr ysgol nag yn flaenorol. Yr wyf yn gobeithio y bydd i'r ddau weithio yn dda yno; gweithio o gariad dros yr Iesu. Oddiyma aethom i Lyngkyrdem, yna i Pynter, a dydd Gwener ni a gyrhaeddasom Nonglynter, pentref Cristionogol ar le gwastad, rhyw ddwy filldir yn is i lawr na phentref Kyndiar. Yn y pentref hwn, fel lle canolog, cyfleus, y mae y Cristionogion yn graddol ymgasglu: maent yn symud yno o deulu i deulu, fel y mae yno yn awr 14 i 15 o dai, a chredant y bydd cyn hir yn bentref lliosog. Yn y pentref hwn y maent yn hwylio adeiladu capel newydd, a phan gyrhaeddasom yr oedd y cyfeillion wrth hi yn gwastadhâu pen bryn ar gŵr y pentref, ac yn cario ceryg ato. Yr oeddent yn dysgwyl dechre ymhen ychydig ddyddiau er cael digon o amser i'w orphen cyn dechre y tymmor gwlawog nesaf.

Dydd Sadwrn aethom i ymweled â Nohwet a Kiwai, a rhai lleoedd eraill, a chawsom gyfarfodydd ynddynt, a chyfle i ddyweyd gair am yr Iesu a'r iachawdwriaeth sydd ynddo. Cawsom gyfarfodydd ar hyd y Sabboth a dydd Llun yn Nonglynter, pryd y bedyddiwyd rhai ac y derbyniwyd hwy yn gyflawn aelodau. Mae yn dda genym weled yr achos da yn y rhan hon o'r wlad yn fyw ac yn llwyddo yn raddol.

SHILLONG.

Yr ydym wedi derbyn amryw i'r eglwys yma yn ddiweddar; un teulu o'r pentref hwn yn cynnwys mam a saith o blant; yr oedd y tad yn yr eglwys o'r blaen. Mae y fam yn gallu darllen y Testament yn rhwydd, ac yn gwybod nid ychydig am Iesu Grist. Yr oedd yn hyfryd ei gweled yn eistedd ar y fainc a'r plant yn rhês ar un ochr iddi, yr hynaf yn y pen arall a'r rhai lleiaf yn y canol, a'r ieuenaf yn ymyl ei fam. Yr ydym yn dysgwyl cyn hir cael yr hyfrydwch o dderbyn mam y fam hon i'r eglwys, yr hon sydd hen wraig. Yr ydym wedi bod yn ymladd â hi er ys blynyddoedd; un galed, hunanol, a hunangyfiawn ydoedd, byddai yn rhedeg i ymguddio pan fyddwn yn myned i edrych am dani. Ni wnai ysgwyd llaw â mi, ond yn awr y mae yn dyfod i'r cyfarfodydd bob Sabboth. Daeth pedwar i'r eglwys yr wythnos hon; yr oeddent oll wedi dysgu darllen, ac wedi bod er ys amser hir yn dilyn y cyfarfodydd yn rheolaidd, ac yn ymdrechu deall Gair Duw a threfn yr efengyl.

Bryniau Khasia.

DOSBARTH MAWSMAI.

RHANAU O LYTHYR ODDIWRTH Y PARCH. J. CEREDIG EVANS.

"DDOE," meddai Mr. Evans, mewn llythyr dyddiedig Tachwedd 30, 1889, "darfu i ni dori i fyny yr ysgol am bythefnos o seibiant. Ddydd Llun neu ddydd Mawrth bwriadaf gychwyn i Shangpoong, fel ag i fod yn yr Henaduriaeth. Ddydd Mawrth diweddaf, bu gorfod i mi fyned can belled a Mawpuh. Daeth dau ddyn yma oddiyno nos Lun i ddyweyd fod rhywun, ar nos Sabboth, wedi rhoddi yr ysgoldy ar dân, a dau o dai, ymha rai y trigai tri o deuluoedd Cristionogol. Yr oedd y bobl i gyd yn cysgu ar y pryd, ac ni ddarfu iddynt ond dianc â'u heinioes ganddynt. Llosgwyd y tai a'r ysgoldy i'r llawr, a bron bob peth oedd ynddynt, oddigerth y bobl. Gwyddoch eisoes pa fodd y bu i'r rhai a dderbyniasant Gristionogaeth gyntaf yn y pentref hwn gael eu herlid y flwyddyn ddiweddaf a dechreu y flwyddyn hon gan y prif bentrefwyr yn ogystal a chan frenin Cherra, dan lywodraeth yr hwn y maent yn byw. Yr oeddynt er ys rhai misoedd yn awr wedi bod yn mwynhau heddwch a thawelwch. Fis yn ol, pan oeddwn i yno, derbyniasom

un ar ddeg i'r eglwys, a thai y rhai a dderbyniwyd y pryd hwnw oedd y tai a losgwyd nos Sabboth diweddaf. Cyrhaeddais yno prydnawn dydd Mawrth, ac ar ol iddi nosi llwyddasom i gael dynion y pentref i ymgynnull i le yn y *jungle*, lle y byddant yn gyffredin yn cynnal eu Durbar, neu Senedd y pentref. Cynneuwyd tân yno, ac eisteddasom o'i amgylch am tua dwy awr, gan geisio cael rhyw oleuni ar ddechreuad y tân, neu pwy oedd yn euog o'r weithred anfad. Ofer, pa fodd bynag, oedd ein holl ymdrech; ni wyddai neb ddim; ni welsid neb yn dwyn ffagl, &c. Bu raid iddynt addef mai gwaith rhyw un neu rywrai ydoedd, ac nas gallasai fod yn ddamweiniol, gan fod un o'r tai yn sefyll gryn bellder oddiwrth y ddau arall, mewn rhan wahanol hollol o'r pentref. Ar ol methu cael unrhyw hysbysrwydd a allai arwain i wybodaeth am y person neu y personau euog, gofynasom iddynt a fyddai iddynt ymuno i adeiladu ysgoldy newydd ar unwaith. Teimlent eu hunain mewn cyngl, oblegid os na byddai iddynt roddi cynnorthwy i adeiladu ysgoldy arall, byddent yn gosod eu hunain yn agored i ddrwgdybiaeth. Ymddangosai fel pe buasai yn dda ganddynt fod yr ysgoldy wedi ei ddinystrio. Dywedais wrthynt hefyd, os na byddai iddynt hwy na'r brenin adeiladu ysgoldy, y byddai yn rhaid i mi roddi adroddiad am yr holl achos i'r Llywodraeth. Mae arnynt braidd ofn swyddogion y Llywodraeth. Felly cydsyniasant ar unwaith i ail adeiladu yr ysgoldy,—rhai i ddwyn coed, rhai i ddyfod â *bamboos*, ac eraill i ddwyn defnyddiau i doi, &c. Ac y maent yn awr yn adeiladu. Bu raid i mi fod yn foddlawn ar hyn, oblegid teimlwn mai ofer gwneyd dim ymchwiliad pellach. Da oedd genyf eu cael i gytuno i adeiladu ysgoldy newydd ar unwaith, am fod arnaf eisieu cael rhyw le i'r bobl druain sydd wedi eu hamddifadu o'u tai i gael rhywle i gysgu nes y gallant gael amser i ail-adeiladu eu tai. Wrth wneyd i fyny gyfrif o'r hyn a ddinystriwyd, cefais fod y golled yn cyrhaedd i yn agos i dri chant o *rupees*. Yr oedd un o'r gwragedd mewn trallod meddwl mawr, a gwaith mawr oedd gallu ei thawelu a'i chysuro. Nis gallai ddeall pa fodd yr oedd Duw wedi caniatâu i'r fath drychineb gyfarfod â hi, pan nad oedd ond newydd ddechreu ceisio ei wasanaethu. Derbyniwyd hi i'r eglwys fis yn ol. Yr oedd ei gŵr yn llawer mwy tawel na hi. Gofynwn iddo a oedd yn teimlo y gallai ymddiried yn yr Arglwydd er gwaethaf hyn oll, a'i ateb oedd, "Os nad ymddiriedaf yn Nuw, yn mhwy ynte yr ymddiriedaf?" Yr oedd gan y teulu hwn dŷ mawr a gwerthfawr, hyny yw fel y cyfrifir pethau ymysg y brodorion. Dywedai y wraig y byddai eu colled yn 200 *rupees*. Ceisiais eu hannog i ymddiried yn yr Arglwydd, ac y byddai iddo Ef eto ofalu am dani. Gwnai ei chymydogion eu goreu i'w themtio a'i pherswadio i gredu mai cosb oedd hyn arni am droi yn Gristion. Ar ol tipyn o ymddyddan, llwyddasom i'w dwyn ati ei hun ac i gael gan ddi gymeryd ei chysuro. Cafodd teulu y tŷ arall hefyd gryn golled. Yr oeddynt newydd ystorio pytatws, &c.; cyfrifid y rhai hyn yn werth tua 100 *rupees*. Llosgwyd y cyfan yn ulw. Yr oedd yr athraw a'i wraig yn cysgu yn yr ysgoldŷ, a chollasant hwythau beth, ond nid llawer iawn. Ymddengys mai cais ydoedd i ddinystrio nid y tai yn unig, ond bywyd yr holl Gristionogion oedd ynddynt. Chwi welwch ar unwaith mai profedigaeth dost i'r bobl druain hyn yw colli eu heiddo i gyd fel hyn, a hyny mor fuan ar ol iddynt droi yn Gristionogion. Rhaid i mi rywfodd geisio eu cynnorthwyo yn eu helbul. A fydd i rai o'r cyfeillion sydd yn byw mewn heddwch a llawnder yn Nghymru helpio y bobl dlodion hyn sydd yn ddisymwth wedi cael eu gwneyd yn ddigartref o herwydd derbyn yr athrawiaeth newydd ddygwyd genym ni iddynt. Teimlaf yn ddiolchgar os bydd i ryw gyfaill neu gyfeillion helpu y teuluoedd tlodion hyn i sylweddoli fod iddynt Dad yn y nefoedd sydd yn cynhyrfu calonau ei blant ar y ddaear i dosturio wrth ac estyn cynnorthwy i'w brodyr sydd mewn adfyd.

CYFARFOD YR HENADURIAETH YN SHANGPOONG.

ADRODDIAD GAN Y PARCH. T. JERMAN JONES.

Shillong, Rhagfyr 26ain, 1889.

DYDD Sadwrn, dydd Sabboth a dydd Llun, y 7fed a'r 8fed a'r 9fed o Ragfyr, oedd yr adeg y cynnaliwyd yr Henaduriaeth yn Shangpoong. Dechreuwyd am 8 boreu Sadwrn trwy ddarllen a gweddio. Y mater cyntaf oedd cenadwriaethau o'r eglwysi.

DOSBARTH SHILLONG.

MAWLAI:—Cytunwyd â'u cais am gael blaenoriaid, ac i Dr. Hughes ac U Kypa Ka Hen fyned yno i gynorthwyo yn y dewisiad; a Mr. John Jones, ac U Kypa Ka Lahun, Jiwai, i fyned i Bhoilasa a Bhoilymlong i gynorthwyo yn newisiad blaenoriaid; Mr. John Roberts ac U Kypa U Harroh i fyned ar yr un neges i Kyndiar; ac U Dorkha a minnau fyned i Nongjiri er cyflawni yr un gwasanaeth.

DOSBARTH SHELLA.

NONGWAR:—Cytunwyd i Mr. Ceredig Evans ac U Kypa Ka Meribon fyned i gynorthwyo i ddewis blaenoriaid. Laitkynsew; rhoddwyd caniatad i U Hiramnni, athraw yn y pentref hwn i sefyll yr arholiad nesaf am fod yn efengylydd. Rhoddwyd caniatâd i eglwys Mawdon i adeiladu capel newydd.

DOSBARTH JIWAI.

SOKHA:—Pan oedd y cyfeillion yn y lle hwn newydd orphen eu capel, ac yr oeddynt yn wir wedi gweithio yn rhagorol gydag ef, daeth ystorm o fellt a tharanau heibio, a darfu i fellten roi y capel ar dân, ac erbyn i'r bobl ddyfod adref yn yr hwyr yr oedd y capel wedi llosgi yn ulw, pob peth oedd ynddo wedi llosgi. Yr oedd y

brofedigaeth yn fawr iawn iddynt, ac i ychwanegu at eu gofid yr oedd pobl y pentref a'r wlad o amgylch yn dannod mai oblegid rhyw fai mawr ynddynt hwy yr oedd y fellten wedi eu cosbi trwy losgi eu capel. Chwalwyd eu hofnau, a chywirwyd eu meddwl ar y pen hwn, a dangoswyd cydymdeimlad cyffredinol â hwynt yn yr amgylchiad. Rhoddwyd rhyddid iddynt i gasglu dros y Bryniau tuag at gael capel newydd eto, yr hyn a'u cysurodd yn fawr.

Coffawyd am U Katwar, Jiwai, ac U Sopan, Ralliang, y rhai oeddent wedi marw er yr Henaduriaeth ddiweddaf. Tystiolaethid gan y cyfeillion fod U Katwar yn ddiwyd i ddeall gair yr Arglwydd, yn barod bob amser i helpu gyda'r achos, yn addfwyn o ysbryd, yn amyneddgar ac yn ddyoddefgar; gweithiodd yn dda gyda'r achos yn Jiwai ac yn y Dyffrynoedd. Yr oedd yn ddwfn yn serch y frawdoliaeth oll. Yr Arglwydd gofio am ei wraig a'i blant. Parhaodd U Sopan hefyd yn ei ffydd a'i grefydd hyd y diwedd. Yr oedd gan yr hen ŵr hwn le neilduol dan gysgod craig y ẏbyddai yn myned yno yn fynych i weddïo; nid oedd ond tlawd, ond yr oedd yn barod i roi help i bawb mewn eisieu yn ol ei allu; yr oedd hefyd yn ddyoddefgar a thawel, a'i ddiwedd oedd yn dangnefedd. Dau frawd oeddent a fuont ddiwyd yn eu bywyd, a diau eu bod yn mwynhau eu gwobr gyda'r Arglwydd. Treuliwyd y rhan olaf o'r cyfarfod hwn i wrando adroddiad o hanes amrywiol bentrefi yn y Dosbarth. Ganol dydd cynnaliwyd cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid: mater eu hymdriniaeth oedd 1 Tim. vi. 5, 6.

Y cyfarfod nesaf am 3 y prydnawn. I ddechreu cafwyd y gweddill o hanes yr achos yn y Dosbarth. Ymddengys oddiwrth yr adroddiad fod yr achos yn myned yn ei flaen yn gysurus, ac fod golwg obeithiol arno yn y gwahanol bentrefi, ac fod y Cristionogion yn dangos llawer o ẏni, a bywiogrwydd a gweithgarwch. Yn nesaf rhoddwyd derbyniad i Mr. John Jones. Cynnygiwyd gan Mr. John Roberts, dros yr Henaduriaeth, y derbyniad mwyaf croesawgar iddo yn ol i'n plith, â'n bod yn gweddïo am iddo gael hir oes ac iechyd da i lafurio eto am lawer o flynyddoedd gyda theyrnas Iesu Grist. Cefnogwyd gan U Kypa Ka Lahun o Jiwai. Yna cynnygiwyd genyf fi, a chefnogwyd gan U Dorkha o Shillong, ein bod yn llawenhau yn fawr wrth weled Miss Williams wedi dyfod allan i fod yn genades i Iesu Grist gyda'r gwragedd a'r merched yn Sylhet, a'n bod yn rhoddi iddi y croesaw mwyaf caredig, a'n bod yn gweddïo am iddi gael ei chadw gan Dduw a'i gwneyd yn offeryn i ddwyn eneidiau at Iesu Grist, ac am iddi gael iechyd a hir oes i ogoneddu Duw y Ceidwad yn nhalaeth Sylhet. Ysgydwodd y cadeirydd law â'r ddau dros y cyfarfod. Yr oedd pwnc wedi ei roddi er cael ymddyddan arno, sef y Drindod, ond yr oedd yr amser wedi rhedeg ymhell fel na chafwyd ond rhai sylwadau da arno gan Mr. John Jones ac un o'r brodorion.

Cyfarfodydd y Sabboth. Cyfarfod gweddi am 7 y bore. Am 10, dechreuodd U Sati, Mawnai, a phregethodd U Ramjan, Mal. i. 6; a minnau, 1 Tim. i. 15. Am 1 dechreuodd Mr. John Jones, a phregethodd U Jura, Dat. xxi. 27, a Mr. John Roberts, Mat. v. 6. Am 4, dechreuodd U Ksanbin, a phregethodd U William Lewis, Jer. iv. 14, a Mr. Williams, 1 Cor. iii. 9. Yr oedd yno gynnulleidfaoedd da ar hyd y dydd, ac yr oedd y bobl yn gwrando yn astud. Cafwyd seiat am ychydig amser ar ol yr oedfa ddiweddaf. Y mater oedd Phil. iii. 20, a siaradwyd arno gan Mr. Robert Evans, Mr. John Jones, ac un neu ddau eraill.

Cyfarfod am 8 bore Llun:—1. Darllen y Papyr o Gyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid, ac ar ol gwneyd rhai sylwadau arno ei basio i'w anfon i'r holl eglwysi. 2. Hysbysu canlyniad Arholiad yr Efengylwyr, sef rhai yn ymgeisio at fod yn efengylwyr, yr hyn oedd wedi cymeryd lle y Sadwrn blaenorol. Yr oedd tri mater—Llyfr Leviticus yn hanesyddol, Epistol cyntaf Timotheus, a Dychweliad. Yr oedd 5 yn yr Arholiad, a buont yn eistedd dair gwaith, a darfu iddynt fyned trwy y porth yn llwyddiannus. Holwyd hwynt am eu profiad genyf fi, a rhoes Mr. John Jones gynghor iddynt; a derbyniwyd hwy yn aelodau o'r Henaduriaeth. Materion yr Arholiad nesaf ydynt—(1.) Y Drindod. (2.) Yr Epistol at y Philippiaid, ac yn (3.) Llyfr Exodus. 3. Galwyd sylw at Lyfr y Tonic Sol-ffa yn Khasi gan Mr. Robert Evans, yr hwn sydd wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar, a phasiwyd penderfyniad i Mr. Evans fyned o gwmpas i wahanol leoedd i ddysgu y bobl i ganu yn ol y Tonic Sol-ffa. Galwyd sylw hefyd at y cyhoeddiad dau fisol—*(Y Nonghit Khubor)* sydd wedi ei ddechreu gan Mr. Williams yn Shella, a rhoddwyd annogaeth o'i blaid am iddo fyw a myned ar led y wlad. 4. Yr Henaduriaeth nesaf i fod yn Shillong, Mawrth 22—24, 1890. 5. Diolchwyd i gyfeillion Shangpoong am eu caredigrwydd i ni oll fel Henaduriaeth, o ddydd Gwener hyd ddydd Llun. Yna terfynwyd trwy weddi. 6. Yn yr hwyr yr un dydd bu genym gyfarfod o Gyfeisteddfod Ordeiniad y Pregethwyr Brodorol, a dygwyd y mater hwn gam yn nês at ei gwblhad. Chwi gewch y manylion gan yr Ysgrifenydd; ond gallaf eich hysbysu ein bod yn dra hyderus nad ä y flwyddyn nesaf heibio heb i hyn gael ei gwblhau.

ADRODDIADAU CENADOL.

Os dygwydd fod gan rai o'r Ysgrifenyddion Sirol, neu eraill o'n darllenwyr, gopïau o'r Adroddiad Cenadol Seisonig am 1888 ar law, teimlir yn dra diolchgar os bydd iddynt eu hanfon, gyda'r *Parcel Post*, i Ysgrifenydd y Genadaeth.

Mae ar law ychydig nifer o'r Adroddiadau Cenadol, wedi eu rhwymo mewn llïan, pob blwyddyn ar wahan, am y blynyddoedd a ganlyn:—1868—9; 1870—1; 1871—2; 1873—4; 1874—5; 1875—6; 1876; 1877; 1878; 1878—9; 1881—2; 1882—3; 1883; 1885; ac Adroddiadau yn Saesonaeg am 1883, 1884, 1885, ac 1886. Anfonir pum' cyf-

rol yn ddidraul ar dderbyniad hanner coron. Anfonir copïau o'r holl Adroddiadau, o 1868 hyd 1885 (dwy gyfrol ar bymtheg), yn ddidraul am ddeg swilt. Nid oes ond ychydig copïau yn aros. Bydd yr oll a dderbynir am danynt yn myned i gyllid y Genadaeth.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf :—

	£	s.	d.
Rock Ferry	7	12	9
Hermon, Tongwynlais, Dwyrain Morganwg	2	8	0
Penycae, Penmaenmawr, Blychau y plant	1	12	4
Penuel, Penycae, Mynwy	2	5	0
Spennymoor	0	17	6
Mr. D. J. Daniel, London House, Aberporth	5	0	0
Cadoxton	2	8	7
Bryneglwys	0	16	0
Sir Fflint	150	16	7
Hammersmith, London	9	8	9
Aberfan	7	4	11
Penderyn, Hirwaen, Casgliad y plant	1	0	10
Llangerniew, Dyffryn Conwy, ditto	1	15	6
Ynys, Ystradgynlais	2	2	7
Mrs. Elizabeth Davies, Bridge St., Llanerchymedd, tuag at y gwaith yn Sylhet	1	5	0
Dyffryn Clwyd	233	17	10
Llanfyllin, Trefaldwyn Isaf	1	12	9
Carmel, Baduchaf	2	0	9
Dwyrain Meirionydd	150	3	0
Sir Benfro (Rhan Seisonig)	61	17	7
Bethesda, Arfon, Canghen y Chwiorydd	34	0	0
Zoar, Risca, Casgliad y plant ..	2	17	0
Twrgwyn, Upper Bangor, ditto ..	1	14	7
New York, trwy law Mr. Robert Lewis	10	0	0
Seacombe	7	18	1
Llanfynydd, Sir Gaerfyrddin, Casgliad y plant	3	9	0
Brynhenllan, Sir Benfro	3	12	4
Gyfeillion	3	8	9
Arfon	440	0	0
Eto, Casgliad y plant	28	18	1
Sir Frycheiniog	108	3	0
Henaduriaeth Morganwg, &c. ..	69	1	11½
Abercarn	7	1	0
Bethel, Castell Newydd Emlyn ..	6	10	9
Hyfrydle, Cefn, Casgliad y plant ..	1	18	4
Gilfachgoch	0	18	7
Un o Ddehau Aberteifi	0	10	0
Bethlehem, Foxhole, Abertawe, Casgliad y plant	1	4	6
Penffordd, Sir Benfro	7	11	4
Clifton St., Roath, Caerdydd ..	4	0	1
Gorllewin Meirionydd	361	1	0
Bethlehem, Treorky	10	19	6
Caerau, Casnewydd, Sir Fynwy ..	6	1	0
Llanrhaiadr yn Mochnant	6	0	0
Alexandra Road, Abertawe	1	15	0
St. Nicholas, Trehill, Caerdydd ..	0	16	3
Parkfield, Birkenhead	11	3	3
M. G. W.	5	0	0
Mydrim, Sir Gaerfyrddin, Casgliad y plant	3	7	5
Bethania, Cwmtwrch	1	14	4
Penllyn, Llangollen	1	1	6
Calenig Cymro i'r Genadaeth ..	1	0	0
Conwy, Casgliad y plant	1	5	8
Ffynnongroew, Sir Fflint, Casgliad y plant	6	4	0
Gwastad	8	0	0½
Dehau Aberteifi	132	9	11
Bethel, Ystrad Rhondda	1	15	9
Llangollen	2	17	7
Tynewydd, Gorllewin Morganwg, Casgliad y plant	2	6	1
Solfa, Sir Benfro, Casgliad y plant	3	15	8
Treffynnon, Sir Benfro, Casgliad y plant	3	5	8
Horeb, Cathays, Caerdydd	9	1	1
Brilley, Sir Frycheiniog	1	6	6
Nazareth, Pentre, Dwyrain Morganwg	5	0	0
Wyddgrug	20	2	6
Henaduriaeth Trefaldwyn, &c. ..	86	7	8
Dyffryn Conwy	128	15	10
Gogledd Aberteifi	231	14	3
Brynbachau	3	4	0
Sir Benfro (Rhan Gymreig)	41	11	4
Walton Park, Liverpool, Casgliad y plant	2	6	10
Anfield Road, Liverpool, Cangen y Chwiorydd	1	4	0
Abermaw, Casgliad y plant	17	3	5
Ebenezer, Casnewydd, Sir Fynwy	5	18	0
Llandudno, Casgliad y plant ..	5	5	6
Llanarmon-yn-Iâl	2	0	0
Anfield Road, Liverpool	10	8	6
Trefforest, Pontypridd, Casgliad y plant	1	5	8
Cilgerran, Sir Benfro, Casgliad y plant	2	5	0
Houlston	0	15	0
Pembroke Terrace, Caerdydd ..	20	3	11
Master Edward Morris Griffith, Telegraph Station, South Stack Island, Holyhead	0	5	0
Huyton Quarry	0	10	6
New Brighton	1	14	8
Chwaer o Pantperthog	0	10	0
Chwaer a Brawd o Fachynlleth, i'r Parch. T. Jerman Jones, i'w defnyddio er lles y gwaith ..	0	5	0
Ewyllysiwr da	0	5	0
Ymddiriedolwyr y diweddar Mr. David Jones, tuag at gynnorthwyo Efengylwyr brodorol yn Khasia i gael hyfforddiant dduwinyddol ..	50	0	0
Dwyrain Morganwg	176	0	0
Gorllewin Morganwg	215	18	11
Trefaldwyn Uchaf	123	9	6
Eto, Casgliad y plant	38	6	9
Sir Fynwy	80	16	10
Lleyn ac Eifionydd	300	0	0
Penmount, Pwllheli, Casgliad y plant	6	11	9

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road South, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON